sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

# Trwyddedu DAB ar raddfa fach

## Sut bydd Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau newydd

**DATGANIAD**

Dyddiad cyhoeddi: 7 Ebrill 2020

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 3
2. Cefndir 5
3. Methodoleg a chynllunio sbectrwm 9
4. Cynllun ardal ddarpariaeth 17
5. Safonau technegol 23
6. Trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach: amodau a gofynion 37
7. Trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach: hysbysebu a dyfarnu trwyddedau 49
8. Trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol: amodau a gofynion 64
9. Trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol: ymgeisio a dyfarnu 72

# 1. Trosolwg

1.1 Mae DAB ar raddfa fach yn ffordd newydd o drawsyrru radio digidol. Mae'n defnyddio datblygiadau mewn meddalwedd a thechnoleg gyfrifiadurol rad i ddarparu dull hyblyg a fforddiadwy o ddarlledu gwasanaethau radio digidol yn diriogaethol i ardal ddaearyddol gymharol fach.

1.2 Mae'r datganiad hwn yn egluro sut bydd Ofcom yn trwyddedu DAB ar raddfa fach, gan ddefnyddio'r pwerau rydym wedi'u cael gan y Llywodraeth o dan Orchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar drwyddedu DAB ar raddfa fach, a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019, wedi cael eu hystyried wrth i ni lunio ein casgliadau.

## Y penderfyniadau allweddol

Mae Ofcom yn credu bod DAB ar raddfa fach yn ffordd briodol o ddefnyddio sbectrwm, ac yn bod-loni'r galw amlwg ymysg gorsafoedd radio masnachol bach, gorsafoedd radio cymunedol a'r rheini sy'n ymuno â'r farchnad, am lwybr fforddiadwy at radio digidol tiriogaethol. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i sicrhau bod ystod amrywiol o wasanaethau radio yn dal ar gael ar hyd a lled y DU, ar blat-fform sy'n cyfrif am fwy a mwy o'r amser sy'n cael ei dreulio yn gwrando ar y radio.

Byddwn yn hysbysebu'r trwyddedau DAB ar raddfa fach mewn sypiau – bydd dau swp yn cynnwys trwyddedau ar gyfer gwasanaethau mewn rhan benodol o'r DU, oherwydd nad oes digon o sbectrwm addas ar gael yn yr ardaloedd hyn.  Bydd y sypiau eraill yn cynnwys trwyddedau ar gyfer gwasanaethau mewn rhannau gwahanol o'r DU, a ddewisir ar sail wyth ffactor penodol sydd wedi cael eu nodi yn y datganiad hwn. Bydd y cyfnod ymgeisio am y trwyddedau newydd ar gyfer Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol ('C-DSP') yn agor ar yr un pryd ag y bydd yr hysbysebion am drwyddedau amlblecs yn cael eu cyhoeddi.

Byddwn yn parhau i adolygu'r defnydd o drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach ac, os bydd ad-noddau sbectrwm yn caniatáu, byddwn wedyn yn ystyried a ddylid hysbysebu amlblecsau radio lleol ychwanegol pan fydd galw am hynny.

Wrth hysbysebu pob trwydded amlblecs ar raddfa fach, rydym wedi penderfynu y byddwn – yn unol â'r bwriad deddfwriaethol – yn defnyddio'r terfyn 40% o boblogaeth amlblecs lleol sy'n gallu cael darpariaeth gan amlblecs ar raddfa fach sy'n gorgyffwrdd (neu gan amlblecsau â'r un trwyddedai).

Ni fyddwn yn mynnu bellach bod yr holl wasanaethau rhaglenni sy'n cael eu cludo gan wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn cael eu darlledu drwy ddefnyddio safon DAB+, fel yr oeddem wedi cynnig yn yr ymgynghoriad.

Bydd y 'Prif Ymrwymiadau' ar gyfer trwyddedeion C-DSP yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnig 'bud-dion cymdeithasol', atebolrwydd i'r gymuned darged, a'r gallu i aelodau o'r gymuned honno gymryd rhan yn y gwasanaeth. O ran radio cymunedol analog, bydd y Prif Ymrwymiadau yn canolbwyntio llai ar ofynion penodol o ran rhaglenni.

Fel yr oeddem hefyd wedi cynnig yn yr ymgynghoriad, byddwn yn mynnu bod prif stiwdio gwasanaeth C-DSP wedi'i lleoli yn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth C-DSP.

# 2. Cefndir

2.1 Mae radio digidol bellach yn cyfrif am 58.5% o gyfanswm yr oriau gwrando ar y radio yn y DU, gyda gwrando ar radio DAB daearol yn cyfrif am 70% o'r oriau gwrando digidol hynny[1]. Mae Ofcom wedi cydnabod ers tro byd y manteision i ddefnyddwyr o hwyluso llwybr mudo at DAB ar gyfer gorsafoedd radio masnachol a chymunedol analog bach. Rydym hefyd wedi cydnabod bod angen darparu llwybr fforddiadwy at ddarlledu drwy radio digidol tiriogaethol ar gyfer y rheini sy'n ymuno â'r farchnad, er mwyn darparu dewisiadau gwrando newydd ac arloesol i wrandawyr.

2.2 Cafodd y syniad o DAB ar raddfa fach ei brofi am y tro cyntaf gan un o beirianwyr Ofcom, Rashid Mustapha MBE, yn 2012. Yn dilyn hynny, cafodd rhaglen waith a threialon dros ddwy flynedd ei hariannu gan y Llywodraeth, a'i thrwyddedu a'i hwyluso gan Ofcom. Roedd y rhaglen yn dangos bod DAB ar raddfa fach yn gallu bod yn ffordd gadarn a dibynadwy i orsafoedd analog bach ddarlledu ar ddigidol, ac i'r rheini sy'n dymuno lansio gwasanaethau radio newydd ar lwyfan tiriogaethol digidol. Cafodd ein hadroddiad technegol am y treialon hyn ei gyhoeddi ym mis Medi 2016.

2.3 Ar 25 Hydref 2019, daeth Gorchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019 ('y Gorchymyn') i rym, sy'n addasu agweddau ar Ddeddf Darlledu 1996 ('Deddf 1996') ar gyfer trwyddedu DAB ar raddfa fach ledled y DU. Mae'n rhoi'r pŵer i Ofcom drwyddedu gwasanaethau newydd amlblecs radio ar raddfa fach[2], a bydd yn darparu ar gyfer categori newydd o drwyddedau gwasanaethau rhaglenni, sef trwydded rhaglenni sain digidol cymunedol ('C-DSP').

2.4 Ar 5 Gorffennaf 2019, wrth aros i'r Senedd gymeradwyo'r Gorchymyn, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad yn gofyn am farn rhanddeiliaid ynghylch ein proses arfaethedig i gynllunio a thrwyddedu sbectrwm ar gyfer trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, a'r broses drwyddedu arfaethedig ar gyfer trwyddedau C-DSP. Mae'r ddogfen hon yn egluro ein penderfyniadau terfynol ynghylch materion yr ymgynghoriad, yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r 129 o ymatebion a ddaeth i law.

## Cefndir cyfreithiol

2.5 Mae cyfrifoldebau cyffredinol Ofcom ar gyfer rheoli sbectrwm wedi'u nodi'n bennaf yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003') ac yn Neddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 ('Deddf 2006').

2.6 Ein prif ddyletswyddau o dan adran 3 o Ddeddf 2003 yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu, a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Wrth wneud hynny, rhaid i ni hefyd (ymysg pethau eraill) sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau a

[1] Ffynhonnell: RAJAR Ch4, 2019

[2] Mae gwasanaethau amlblecs yn fwndeli o sianeli radio sydd wedi cael eu digideiddio a'u cywasgu er mwyn defnyddio llai o sbectrwm, sydd wedyn yn cael eu trawsyrru gan ddefnyddio un bloc amledd.

bod amrywiaeth eang o wasanaethau radio yn cael eu darparu sydd o ansawdd uchel ac sy'n apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau. Wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau, rhaid i ni hefyd ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys pa mor ddymunol yw hybu buddsoddiad ac arloesedd, pa mor ddymunol yw hybu cystadleuaeth, a buddiannau pobl yng nghymunedau gwahanol y DU.

2.7 Wrth gyflawni ein swyddogaethau sbectrwm, mae gennym ddyletswydd dan adran 3 o Ddeddf 2006 i ystyried yn benodol: (i) i ba raddau y mae'r sbectrwm ar gael i'w ddefnyddio neu i'w ddefnyddio ymhellach ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr, (ii) y galw am ddefnydd o'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr a (iii) y galw sy'n debyg o godi yn y dyfodol ar gyfer defnyddio'r sbectrwm hwnnw ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr. Mae gennym hefyd ddyletswydd, yn benodol, i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo: (i) rheoli a defnyddio'r sbectrwm yn effeithlon ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr, (ii) y manteision economaidd a'r manteision eraill a allai godi o ddefnyddio telegraffiaeth ddi-wifr, (iii) datblygu gwasanaethau arloesol a (iv) cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau cyfathrebiadau electronig.

2.8 Cafodd y treialon technegol ar gyfer DAB ar raddfa fach eu cynnal o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, ond cyfyngedig yw cwmpas y ddeddfwriaeth honno i gynnwys amodau trwydded yr oedd y Llywodraeth yn credu a oedd yn angenrheidiol i gefnogi'r broses o ddarparu DAB ar raddfa fach yn ehangach o amgylch y wlad.

2.9 Roedd Deddf Darlledu (Gwasanaethau Amlblecs Radio) 2017 yn golygu bod modd creu fframwaith newydd i drwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Fe wnaeth hynny drwy fewnosod adran 258A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf 2003'), gan ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn addasu agweddau o Ddeddf Darlledu 1996 ('Deddf 1996') sy'n berthnasol i drwyddedu gwasanaethau amlblecs lleol a chenedlaethol er mwyn eu gwneud yn fwy priodol ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.

2.10 Ar ôl pasio'r Ddeddf, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar 4 Ionawr 2018 yn amlinellu cynigion i greu fframwaith i drwyddedu DAB ar raddfa fach. Ar 13 Hydref 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth y ddogfen polisi 'Small-scale DAB licensing consultation: Government response'. Roedd yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn egluro safbwynt polisi'r Llywodraeth ar amrywiaeth o faterion. Ar ôl hynny, cafodd is-ddeddfwriaeth ei chyflwyno i'r Senedd, a daeth Gorchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019 (y 'Gorchymyn') i rym ar 25 Hydref 2019.

2.11 Mae'r Gorchymyn yn arfer pwerau o dan adran newydd 258a o Ddeddf 2003 i gyflwyno fframwaith ar gyfer trwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Mae hefyd yn defnyddio pwerau presennol o dan adrannau 262 a 402(3) o Ddeddf 2003 i ddarparu ar gyfer creu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol ('C-DSPs'). Yn y naill achos a'r llall, mae'r Gorchymyn yn cyflawni hyn drwy ddefnyddio Deddf 1996 gydag addasiad i'r mathau o wasanaethau sydd wedi'u diffinio yn y Gorchymyn fel gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach neu raglenni sain digidol cymunedol.

2.12 I bob pwrpas, mae’r fframwaith ar gyfer rhaglenni sain digidol cymunedol yn fersiwn ddigidol o’r drwydded radio cymunedol sy’n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer gorsafoedd analog (AM ac FM). Hefyd, mae cysylltiad agos rhwng y fframwaith hwnnw a’r fframwaith trwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, oherwydd mae’r Gorchymyn yn addasu Deddf 1996 i fynnu bod capasiti yn cael ei neilltuo ar gyfer o leiaf dair o raglenni sain digidol cymunedol ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, gan gefnogi’r “llwybr at ddigidol” i orsafoedd radio cymunedol sy’n rhan o bolisi’r Llywodraeth ar gyfer y sector.

## Strwythur y ddogfen

2.13 Mae’r datganiad hwn yn crynhoi ac yn ystyried y pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i’n hymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019, ac yn egluro ein penderfyniadau terfynol ynghylch sut mae Ofcom – o fewn y fframwaith cyfreithiol sy’n angenrheidiol o dan y Gorchymyn – yn bwriadu gwneud y canlynol:

- Cynllunio’r ffordd mae’r sbectrwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach (Adrannau 3, 4 a 5)
- Trwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach (Adrannau 6 a 7)
- Trwyddedu gwasanaethau C-DSP (Adrannau 8 a 9).

## Asesiad o’r effaith ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

2.14 Gyda’i gilydd, mae’r ddogfen hon yn cynnwys asesiad o’r effaith yn unol â’r diffiniad yn Adran 7 o Ddeddf 2003. Nid ydym wedi canfod unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau cydraddoldeb (h.y. oed, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol). Nid ydym chwaith wedi gweld yr angen i gynnal asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb ar wahân mewn perthynas â’r grwpiau cydraddoldeb ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon: cred grefyddol, barn wleidyddol a dibynyddion. Y rheswm am hyn ydy ein bod yn disgwyl na fydd y newidiadau sy’n cael eu cynnig yn y ddogfen hon yn cael effaith wahaniaethol yng Ngogledd Iwerddon o gymharu â gwrandawyr yng ngweddill y DU.

2.15 Rydym hefyd wedi ystyried Safonau'r Iaith Gymraeg Ofcom ar Lunio Polisïau fel sy’n cael ei amlinellu yn ei hysbysiad cydymffurfio. Mae’r safonau llunio polisïau yn berthnasol ar yr adeg pan fyddan nhw’n cael effaith, dim ots lle caiff y penderfyniad polisi ei wneud. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw un o’r cynigion sy’n cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, nac o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

## Y camau nesaf

2.16 Yn Adran 7, mae'r datganiad hwn yn amlinellu manylion ein hamserlen arfaethedig ar gyfer hysbysebu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, a gwahodd ceisiadau am drwyddedau C-DSP. Yn sgil y pandemig coronafeirws (Covid-19) sy’n digwydd ar hyn o bryd, a’i effaith ar randdeiliaid, am y tro rydym wedi penderfynu peidio â phennu’r dyddiad y

byddwn yn cyhoeddi'r hysbysebion, y ffurflenni cais a'r Nodiadau Cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer y trwyddedau cyntaf. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa, ac yn dechrau ar y rhaglen drwyddedu pan fydd y mwyafrif o randdeiliaid perthnasol (yn benodol, darpar ymgeiswyr am drwyddedau C-DSP a/neu drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach) o'r farn y byddent yn gallu cymryd rhan yn y broses drwyddedu yn llawn.

# 3. Methodoleg a chynllunio sbectrwm

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a'r methodolegau cynllunio y byddwn yn eu defnyddio yn ein gwaith i fireinio'r cynllun ardal ddarpariaeth ar gyfer DAB ar raddfa fach?**

3.1 Yn yr adran hon, rydym yn ystyried yr ymatebion i gwestiwn cyntaf ein hymgynghoriad, a oedd yn gofyn am farn ar ein cynigion ynghylch y sbectrwm rydym yn bwriadu ei ddarparu i wasanaethau DAB ar raddfa fach ei ddefnyddio; sut rydym yn bwriadu cynllunio'r ddarpariaeth; sut rydym yn bwriadu delio ag ymyriant; a'r teclyn cynllunio technegol y bydd Ofcom yn ei ddefnyddio.

3.2 Roedd rhai ymatebwyr wedi gwneud sylwadau am y cynllun ardal ddarpariaeth ei hun fel rhan o'u hymateb. Mae'r rhain yn cael sylw ar wahân yn Adran 4 y datganiad hwn ('Cynllun ardal ddarpariaeth').

3.3 Cafwyd sylwadau gan 116 o ymatebwyr ynghylch y cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif yn cytuno ar y cyfan â byrdwn ein methodolegau a'n hegwyddorion cynllunio arfaethedig, ond roedd ychydig dros draean wedi mynegi pryder neu wrthwynebiad i elfennau penodol o'r cynigion.

## Argaeledd sbectrwm ar gyfer DAB ar raddfa fach

### Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.4 Roedd ein hymgynghoriad yn nodi'r fframwaith cyfreithiol a chyfrifoldebau Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau rheoli sbectrwm, a'r camau rydym wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ystyried y cyfrifoldebau hynny yn briodol wrth ddatblygu ein cynllun sbectrwm dros dro ar gyfer gwasanaethau DAB ar raddfa fach.

3.5 Roeddem yn dweud ein bod o'r farn bod darparu sbectrwm ar gyfer DAB ar raddfa fach yn briodol ac yn cyd-fynd â'n dyletswyddau ehangach o ran sbectrwm, a hefyd yn bodloni'r galw amlwg ymysg gwasanaethau radio bach i gael llwybr at ddarlledu tiriogaethol digidol.

3.6 Roedd ein cynigion yn cynnwys nodi'r ystodau amledd rydym yn bwriadu eu darparu ar gyfer gwasanaethau amlblecs ar raddfa fach: chwech 'bloc' amledd yw'r rhain yn bennaf (7D, 8A, 8B, 9A, 9B, 9C) o ystod sy'n cael ei galw'n VHF Band III, is-fand 2. Roeddem yn dweud hefyd ein bod yn bwriadu ymchwilio i'r defnydd o sbectrwm rhwng blociau 10B a 12D yn VHF Band III, is-fand 3 mewn ardaloedd lle na fyddai'r chwe bloc amledd is-fand 2 yn ddigon i fodloni'r galw a ragwelir. Mae'r sbectrwm is-fand 3 yma'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan wasanaethau amlblecs radio lleol a chenedlaethol presennol, ond nid yw rhai blociau yn yr ystod hon yn cael eu defnyddio mewn rhai ardaloedd daearyddol. Roeddem yn dweud na fyddem ond yn defnyddio'r blociau hynny ar gyfer DAB ar raddfa fach i'r graddau na fyddai hynny'n cael effaith niweidiol ar y defnyddwyr presennol. Roeddem wedi nodi rhywfaint o baramedrau tybiannol yr oeddem wedi'u rhagdybio yn ein gwaith cynllunio, gan gynnwys y byddai pwerau'r trosglwyddyddion tua 100W ERP.

3.7 Roedd ein hymgynghoriad hefyd yn nodi ein dadansoddiad o’r posibilrwydd o drwyddedu gwasanaethau amlblecs radio lleol ychwanegol. Nodwyd y dylai fod digon o sbectrwm ar gael mewn rhai rhannau o’r DU i allu delio â gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn ogystal â gwasanaethau amlblecs radio lleol ychwanegol. Er ein bod yn bwriadu blaenoriaethu ein hadnoddau i gynllunio a thrwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, roeddem yn cynnig adolygu fesul rhanbarth y cyfleoedd i gael gwasanaethau amlblecs radio lleol ychwanegol, ar ôl i ni drwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn yr ardaloedd hynny.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.8 Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno, neu’n cytuno ar y cyfan, â dull gweithredu arfaethedig Ofcom. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys ystod o drwyddedeion radio analog presennol (cymunedol a masnachol), y rheini a oedd yn treialu DAB ar raddfa fach, a darpar ymgeiswyr am drwyddedau gwasanaethau rhaglenni neu amlblecs yn y dyfodol. Dyma rai sylwadau nodweddiadol: mae’r methodolegau a’r egwyddorion cynllunio yn ymddangos yn synhwyrol (Winchester Radio); dyma’r ffordd fwyaf ymarferol a rhesymegol o symud ymlaen (Helius Media Group).

3.9 Roedd nifer fach o ymatebwyr – gan gynnwys Wireless (grŵp radio masnachol), Arqiva (cwmni trawsyrru), a phedwar o ddarpar ymgeiswyr am drwyddedau – yn anghytuno â’n cynigion. Roedd dau o ddarpar ymgeiswyr am drwyddedau yn dadlau bod Ofcom yn bod yn rhy ofalus, a bod lefelau pŵer yn rhy isel i sicrhau darpariaeth dderbyniol.

3.10 Soniodd Wireless am bryderon penodol ynghylch y dyraniad arfaethedig o sbectrwm ar gyfer DAB ar raddfa fach, a’r ffordd roedd Ofcom yn cynnig mynd ati i drwyddedu DAB ar raddfa fach yn fwy cyffredinol. Dywedodd y cwmni ei bod yn ymddangos bod ein cynigion yn fwy seiliedig ar ystyriaethau o allu technegol nag ar asesiad o ddiddordeb dinasyddion neu ddefnyddwyr, ac nad oeddent yn ystyried datblygiadau diweddar yn y sector radio masnachol yn y DU2F3 a fydd, ym marn Wireless, wedi lleihau’r galw yn sylweddol ymysg gwasanaethau radio masnachol analog bach i gael eu cludo ar DAB ar raddfa fach. Roedd Wireless hefyd yn dadlau nad oedd ein hymgynghoriad yn cynnwys unrhyw asesiad o’r costau a’r buddion sy’n gysylltiedig â thrwyddedu DAB ar raddfa fach, a fyddai’n golygu bod modd dod i gasgliadau ynghylch ai dyna’r ffordd orau o ddefnyddio sbectrwm prin, o’i gymharu â strategaethau eraill ar gyfer trwyddedu radio. Roedd Arqiva hefyd yn gofyn ar ba sail mae Ofcom wedi penderfynu peidio ag asesu ffyrdd posib eraill o ddefnyddio’r sbectrwm sydd ar gael, yn hytrach na DAB ar raddfa fach.

3.11 Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Wireless a Nation Broadcasting, y dylai Ofcom roi blaenoriaeth i drwyddedu gwasanaethau amlblecs radio lleol ychwanegol yn lle hynny. Roedden nhw hefyd wedi awgrymu lleoliadau penodol roedden nhw’n teimlo a fyddai’n elwa o gael rhagor o amlblecsau lleol.

[3] Roedd hyn yn cyfeirio’n bennaf at y ffaith bod Bauer Radio wedi caffael grwpiau radio Lincs FM, UKRD a Celador Radio yn 2019, yn ogystal â nifer o drwyddedau analog lleol a oedd yn arfer bod yn eiddo i Wireless.

3.12 Teimlai Radiocentre y dylai Ofcom adael y drws ar agor i'r posibilrwydd o drwyddedu gwasanaethau amlblecs radio lleol ychwanegol ar y cyd â datblygu DAB ar raddfa fach.

## Dadansoddiad a chasgliadau

3.13 Yn ein hymgynghoriad, roeddem yn dweud ein bod ni o'r farn bod dyrannu sbectrwm i wasanaethau DAB ar raddfa fach yn debygol o fod yn ffordd effeithlon o ddefnyddio'r sbectrwm. Roedd y farn hon yn seiliedig ar y niferoedd cynyddol o wrandawyr sy'n defnyddio gwasanaethau radio drwy lwyfannau digidol, a DAB yw'r opsiwn sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf o hyd. Roeddem hefyd yn dweud bod DAB ar raddfa fach yn llwybr at ddarlledu digidol i amryw o wasanaethau analog presennol sy'n cyfrannu at yr amrywiaeth eang o wasanaethau radio yn y DU, yn enwedig i wasanaethau radio cymunedol ac i wasanaethau masnachol bach. Rydym yn falch o weld y gefnogaeth eang i'n cynigion gan y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr.

3.14 Fodd bynnag, rydym wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddaeth i law gan y rheini a oedd yn anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig. Wrth i ni gynllunio'r broses o gyflwyno gwasanaethau ar raddfa fach, un o egwyddorion y gwaith hwnnw yw'r angen i ddiogelu derbyniad gwasanaethau presennol, ar sail meini prawf rydym wedi'u rhoi ar waith yn gyson wrth gynllunio gwasanaethau DAB lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cyd-fynd, yn arbennig, â'n dyletswydd i sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau radio ar gael yn y DU. Nid ydym yn cytuno i ni fod yn rhy geidwadol wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, nac wrth ystyried a ddylid cyflwyno gwasanaethau amlblecs radio lleol ychwanegol.

3.15 Rydym yn nodi dadleuon Wireless a Nation Broadcasting y byddai hysbysebu mwy o drwyddedau amlblecs radio lleol mewn ardaloedd lle mae un yn bodoli'n barod yn creu cystadleuaeth yn yr ardal honno ac, yn eu barn nhw, yn lleihau'r costau cludo i wasanaethau radio ac yn cynnig budd i wrandawyr drwy gynyddu'r dewis a fyddai ar gael. Fodd bynnag, o wybod y byddai un cwmni yn gallu bod yn berchen ar fwy nag un drwydded amlblecs radio lleol yn yr un ardal, nid oes sicrwydd y byddai trwyddedu gwasanaeth amlblecs radio lleol arall yn cynyddu'r gystadleuaeth o ran darparu gwasanaethau amlblecs. Rydym hefyd yn nodi y byddai modd cael mwy o wasanaethau radio (gan gynyddu'r dewis i wrandawyr) petai gwasanaethau amlblecs radio lleol presennol yn defnyddio DAB+, ac y byddai hynny o bosib yn lleihau'r costau cludo i ddarparwyr y gwasanaethau hynny. Hefyd, yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn y DU, byddai trwyddedu gwasanaeth amlblecs radio lleol arall yn cyfyngu gallu Ofcom i drwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn yr un ardaloedd, neu mewn ardaloedd cyfagos. Felly, ni fyddai hynny o fudd i orsafoedd radio cymunedol nac i weithredwyr masnachol bach sy'n chwilio am opsiwn arall yn hytrach na chludo ar y gwasanaethau amlblecs radio lleol mawr sy'n bodoli'n barod, ac sy'n costio mwy fel arfer.

3.16 O ran gwir lefel y galw am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, er ein bod yn cydnabod na ellir dweud hyn yn bendant nes byddwn ni'n dechrau ar y broses drwyddedu, mae tystiolaeth y bydd galw mawr pan fydd hynny'n digwydd. Yn gyntaf, mae'r amlblecsau a dreialwyd wedi bod yn llwyddiant. Yn ail, mae ein proses datgan diddordeb a gynhaliwyd

yn 2018, a nifer yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad gan y rheini sy'n awyddus i ddarparu gwasanaethau, yn awgrymu y bydd cryn dipyn o alw. Yn olaf, gwyddom fod amryw o wasanaethau analog radio masnachol bach a gwasanaethau radio cymunedol, yn ogystal â darparwyr posib gwasanaethau o'r fath, yn methu cael mynediad at y llwyfan radio analog ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti. Felly byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i hysbysebu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, ond byddwn wedyn yn ystyried hysbysebu mwy o drwyddedau amlblecs radio lleol, pan fydd tystiolaeth o'r galw ac y bydd argaeledd sbectrwm yn caniatáu hynny.

3.17 Rydym yn cydnabod y bu rhywfaint o weithgarwch caffael nodedig yn y diwydiant radio masnachol yn 2019 – sef, y ffaith bod Bauer wedi prynu nifer sylweddol o drwyddedau radio masnachol analog bach – a allai effeithio ar lefel y galw am DAB ar raddfa fach. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod y datblygiad hwn ynddo'i hun yn awgrymu y bydd y galw am DAB ar raddfa fach yn is o lawer na phan gynhaliwyd y broses datgan diddordeb.

3.18 Mae Ofcom yn bwriadu cychwyn y broses o drwyddedu DAB ar raddfa fach drwy hysbysebu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach mewn sypiau. Wrth i ni gwblhau rowndiau trwyddedu olynol, byddwn yn adolygu lefel y galw ymysg ymgeiswyr posib, ac yn ystyried a yw'n briodol hysbysebu unrhyw drwyddedau amlblecs radio lleol ychwanegol mewn ardaloedd lle byddai digon o sbectrwm i'n galluogi i wneud hynny. Yna, byddwn yn dilyn yr un broses ar gyfer pob rownd drwyddedu os bydd y galw am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn llai nag a ragwelwyd (a allai olygu nad yw adnoddau sbectrwm yn cael eu defnyddio), a byddwn yn ystyried a ddylid hysbysebu trwyddedau amlblecs radio lleol ychwanegol yn yr ardaloedd hynny.

## Diffinio darpariaeth a gwarchod rhag ymyriant

### Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.19 Yn yr ymgynghoriad, roeddem ni'n cynnig y byddai meini prawf technegol penodol yn cael eu defnyddio wrth wneud y cynlluniau technegol ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Roedd y meini prawf hyn yn cynnwys lefel sylfaenol o 63 dBμV/m ar gyfer cryfder maes a ragwelir (mae hynny'n cyfateb i lefel sy'n ddigonol yn ein barn ni er mwyn cael derbyniad dan do), a fyddai'n diffinio ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs.

3.20 Roeddem hefyd yn egluro ein cynnig ar gyfer y lefel fwyaf o ymyriant rydym ni'n teimlo y dylid caniatáu i wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach ei hachosi yn ardal neu ardaloedd darpariaeth unrhyw wasanaeth amlblecs radio arall sy'n defnyddio'r un bloc amledd. Pwrpas hyn yw gwarchod y gwasanaethau eraill hynny rhag ymyriant. Byddai'r warchodaeth hon yn cael ei chyflawni drwy bennu'r signal cryfaf y gall gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach ei osod yn ardal ddarpariaeth gwasanaeth amlblecs radio arall sy'n defnyddio'r un bloc amledd. O ran gwasanaethau eraill ar amlblecs radio ar raddfa fach, roeddem yn cynnig na ddylai signal y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach dan sylw fod yn gryfach na 38 dBμV/m er mwyn gwarchod ardal darpariaeth dan do y gwasanaeth arall, ac y dylid defnyddio'r terfyn 29 dBμV/m ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio lleol er

mwyn gwarchod ardaloedd darpariaeth symudol a dan do y gwasanaeth amlblecs radio lleol.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.21 Roedd Future Digital Norfolk Ltd a Niocast yn cytuno'n benodol â'n cynnig i osod y safon cynllunio cryfder maes dan do (sy'n diffinio darpariaeth yr amlblecsau, ac felly'r boblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu) ar 63dBµV/m. Ond, roedd yr ymatebwyr hyn yn poeni nad oeddem wedi cynnig mynd ati i warchod derbyniad symudol gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach o ystyried pa mor bwysig yw cael derbyniad yn y car, a gofynnodd i ni ailystyried y safbwynt hwn.

3.22 Dywedodd U.DAB nad yw lefel cryfder maes o 63dBµV/m yn ddigon i gynnig darpariaeth dan do ddefnyddiol mewn amgylcheddau trefol dwys eu poblogaeth fel Llundain, a chyflwynodd ragor o wybodaeth gyfrinachol am lefelau cryfder maes a darpariaeth.

3.23 Roedd Open DAB CIC / Brighton and Hove Radio yn poeni y byddai'r lefelau pŵer isel a gynigiwyd ar gyfer trosglwyddyddion yn arwain at ddarpariaeth annigonol, ac fe awgrymodd y dylid caniatáu trosglwyddyddion ategol mewn ardaloedd gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach.

## Dadansoddiad a chasgliadau

3.24 Mae Ofcom wedi defnyddio lefel cryfder maes o 63 dBµV/m yn gyson drwy gydol y broses o gynllunio gwasanaethau DAB yn y DU, i gynrychioli'r lefel y mae derbyniad dan do boddhaol yn bosib yn y rhan fwyaf o leoliadau. Rydym yn defnyddio'r lefel hon i bennu maint yr ardal lle dylai fod yn bosib cael darpariaeth dan do. O fewn yr ardal honno, bydd cryfder y signal yn uwch wrth fod yn agosach at y trosglwyddyddion, ac mae croeso i ymgeiswyr awgrymu trefniadau ar gyfer trosglwyddyddion sy'n cynnal signal cryfach yn ardal y drwydded (er enghraifft, drwy adeiladu rhwydweithiau mwy dwys o drosglwyddyddion â phŵer is, neu drwy ddefnyddio trosglwyddyddion ategol).

3.25 Rydym wedi defnyddio'r trothwy 54 dBµV/m yn gyson wrth geisio rhagweld maint yr ardal lle dylai fod yn bosib cael derbyniad symudol – h.y. 9dB yn llai nag ar gyfer derbyniad dan do. O ystyried dwysedd tebygol y rhwydweithiau ar raddfa fach arfaethedig ar hyd a lled y DU, nid yw'n bosib i ni gyfyngu ymyriant o ardaloedd eraill i lefel ddigon isel i warchod derbyniad symudol ar 54 dBuV/m o fewn yr adnodd amledd cyfyngedig sydd ar gael. Ystyriaeth arall yw y bydd lefel y signalau sy'n dod i mewn i'r DU, o wasanaethau DAB sy'n defnyddio'r blociau amledd hynny mewn gwledydd eraill, yn uwch nag sydd angen er mwyn gwarchod derbyniad symudol ar raddfa fach y tu allan i ardal drwyddedig y ddarpariaeth dan do – mewn ardaloedd arfordirol beth bynnag, ac mewn rhannau o dde a dwyrain Lloegr.

3.26 Er nad ydym yn cynllunio ar gyfer derbyniad symudol gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach (nac yn gwarchod hynny), bydd o leiaf yn bosib cael derbyniad symudol yn ardal y ddarpariaeth dan do (h.y. ardal drwyddedig yr amlblecs), a dylai hynny hefyd fod yn bosib y tu hwnt i derfynau'r ardal ddarpariaeth hon mewn llawer o amgylchiadau.

3.27 Gan droi at drosglwyddyddion ategol, roedd yn rhaid i'n gwaith cychwynnol ar gynllunio amledd wneud gwahanol ragdybiaethau am nodweddion y trosglwyddyddion a allai gael eu cynnig gan y rheini sy'n gwneud cais am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach. Fodd bynnag, mae gan ymgeiswyr y rhyddid i gynnig ffurfweddau neu fathau o rwydweithiau gwahanol, ar yr amod bod y trothwyon ar gyfer cryfderau maes sy'n mynd allan i ardaloedd amlblecsau cyfagos, sy'n defnyddio'r un amledd, yn cael eu parchu. Rydym yn disgwyl i'r rheini sy'n gwneud cais am drwydded gynnig rhwydweithiau sy'n debygol o allu cyflawni'r ddarpariaeth maen nhw'n dymuno ei chynnig. Os gwelir bod y ddarpariaeth yn wael mewn rhai ardaloedd yn yr ardal drwyddedig yn dilyn hynny, ni fyddem yn gwrthwynebu mewn egwyddor petai trwyddedeion yn ychwanegu trosglwyddyddion ategol yn ystod cyfnod y drwydded (os ydyn nhw wedi cael caniatâd Ofcom i wneud hynny), ar yr amod nad yw'r trosglwyddydd neu'r trosglwyddyddion ychwanegol yn gwneud i'r cryfderau maes am allan gynyddu y tu hwnt i'r lefelau a ddiffiniwyd.

3.28 Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith i gyflwyno ein cynigion ar gyfer diffinio darpariaeth a gwarchod yn erbyn ymyriant.

# Teclyn cynllunio

## Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.29 Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn dweud bod Ofcom yn bwriadu defnyddio teclyn meddalwedd penodol (cynnyrch masnachol o'r enw ICSTelecom) ar gyfer ein gwaith cynllunio amledd ar DAB ar raddfa fach, a rhoddwyd manylion am y gosodiadau rydym yn bwriadu eu defnyddio.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.30 Soniodd rhai o'r ymatebwyr am argaeledd teclynnau cynllunio ar gyfer DAB ar raddfa fach. Pecynnau meddalwedd cyfrifiadur yw teclynnau cynllunio, a'u bwriad yw helpu gyda'r gwaith o gynllunio a modelu'r broses o weithredu rhwydwaith trawsyrru yn ymarferol. Maen nhw hefyd yn gallu darparu gwybodaeth arall, fel maint disgwyliedig y boblogaeth a fyddai'n cael ei gwasanaethu gan rwydwaith trawsyrru penodol.

3.31 Teimlai Niocast a Viamux y dylai'r teclyn cynllunio penodol y mae Ofcom yn bwriadu ei ddefnyddio wrth asesu ceisiadau am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach fod ar gael i ymgeiswyr am bris rhesymol.

3.32 Yn fwy cyffredinol, teimlai U.DAB fod y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cynllunio darpariaeth yn dibynnu llawer ar waith modelu cyfrifiadurol sy'n seiliedig ar symleiddio rhagdybiaethau, heb adael llawer o le i arbrofi neu bragmatiaeth.

## Dadansoddiad a chasgliadau

3.33 Er bod gwaith modelu cyfrifiadurol yn defnyddio paramedrau sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol, gwyddom nad yw'n llwyr adlewyrchu amodau'r byd go iawn ym mhob sefyllfa. Fodd bynnag, fel y dywedir uchod, mae gan ymgeiswyr llwyddiannus y rhyddid i

gynnig diwygiadau neu addasiadau i rwydweithiau ar ôl y lansio yn eu hardal drwyddedig (e.e. i fynd i'r afael â phocedi o ddarpariaeth wael), yn amodol ar gyfyngiadau ran yr ymyriant am allan.

3.34 Rydym yn bwriadu dweud yn bendant pa declyn cynllunio y byddwn ni'n ei ddefnyddio wrth ddechrau gwahodd ceisiadau am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach. Ar hyn o bryd, rydym yn dal yn disgwyl mai cynnyrch masnachol ICSTelecom fydd y teclyn hwn. Er nad yw Ofcom yn rheoli'r telerau ar gyfer pa gynnyrch masnachol o'r fath ddylai fod ar gael i bartïon eraill, gall ymgeiswyr ddefnyddio'r un teclyn cynllunio os ydyn nhw'n gallu cytuno ar delerau â'r darparwr. Ond, mae gan ymgeiswyr y rhyddid hefyd i ddefnyddio'r teclyn cynllunio maen nhw'n ei ffafrio eu hunain. Ni fydd hynny'n cyfrif yn erbyn ceisiadau sydd wedi defnyddio teclynnau cynllunio gwahanol, ond dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gall teclynnau cynllunio gwahanol roi canlyniadau gwahanol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i Ofcom ddewis teclyn cynllunio penodol ar gyfer asesu, gan fod angen i ni allu cymharu cynlluniau technegol ymgeiswyr ar sail gyfartal.

## Mesur poblogaeth ac achosion o orgyffwrdd

### Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

3.35 Wrth benderfynu ar y boblogaeth a fyddai'n gallu cael gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, roeddem yn dweud yn yr ymgynghoriad y byddem yn cyfrif y boblogaeth o oedolion (15 oed a hŷn) a ragwelir a fydd yn cael signal ar lefel o 63 dBµV/m o leiaf. Mae hyn yn berthnasol, ymysg pethau eraill, wrth bennu'r gorgyffwrdd â'r poblogaethau sy'n cael eu gwasanaethu gan wasanaethau eraill ar amlblecs radio ar raddfa fach yn yr ardal, ond yn enwedig wrth bennu'r gorgyffwrdd â gwasanaethau amlblecs radio lleol.

3.36 Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu na ddylai'r boblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu gan wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach orgyffwrdd fel arfer â mwy na 40% o'r boblogaeth yn ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio lleol. O ran y pwynt hwn, rhoddwyd esboniad o'r arfer roeddem yn bwriadu ei ddilyn wrth weithredu'r nod polisi hwn. Yn benodol, roeddem yn dweud nad oedd unrhyw un o'r ardaloedd trwyddedig posib ar gyfer gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, yn ein cynllun ardal ddarpariaeth, yn gorgyffwrdd â mwy na 40% o boblogaeth ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio lleol. Rydym yn rhoi mwy o sylw i hyn yn Adran 4 y datganiad hwn, ond yma rydym yn ymateb i sylw penodol a gafwyd gan un ymatebydd ynghylch ein cyfrifiadau.

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

1.1. Soniodd Arqiva am dri achos penodol lle'r oedd yn ymddangos, ym marn Arqiva, bod ein polygonau arfaethedig yn croesi'r terfyn o 40%. Roedd y rhain yn gysylltiedig ag achosion o orgyffwrdd yn Plymouth, Wiltshire a Gogledd Dyfnaint.

## Dadansoddiad a chasgliadau

3.37 Y boblogaeth rydym ni'n ei mesur wrth fwrw amcan o'r gorgyffwrdd, yw'r boblogaeth yn holl ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio lleol penodol. Mae'r tair ardal a enwyd gan Arqiva yn rhan o ardal fwy sydd wedi cael ei thrwyddedu (i gwmni sy'n eiddo i Arqiva ei hun) fel un gwasanaeth amlblecs radio lleol. Yn achos Plymouth a Gorllewin a De Wiltshire, mae'r ardaloedd hyn wedi bod yn rhan o ardal fwy sydd wedi cael ei thrwyddedu fel un gwasanaeth amlblecs radio lleol ers iddynt gael eu trwyddedu am y tro cyntaf – Plymouth/Cernyw a Swindon/Gorllewin a De Wiltshire. Yn achos Gogledd Dyfnaint, cafodd yr ardal hon ei hychwanegu at ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio lleol presennol Caerwysg a Torbay yn 2011, yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gais y trwyddedai, Now Digital Limited. Felly, nid yw'r polygonau a enwyd gan Arqiva yn gorgyffwrdd mwy na 40% â phoblogaeth ardal drwyddedig y gwasanaethau amlblecs radio lleol perthnasol.

# Materion eraill

3.38 Mewn ardaloedd lle byddai angen mwy nag un gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach er mwyn efelychu darpariaeth ddaearyddol gwasanaeth FM presennol, dywedodd Central FM y dylai derbynyddion DAB ail-diwnio yn awtomatig wrth symud rhwng y ddwy ardal.

3.39 Mae'r mater hwn yn ymwneud â signal gwasanaeth ac ymddygiad derbynnydd, yn hytrach na chynlluniau darpariaeth. Ar yr amod bod radio car wedi cael ei 'ail-sganio' pan oedd ym mhob un o ardaloedd darpariaeth y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach perthnasol (a bod ardaloedd darpariaeth y ddau wasanaeth amlblecs yn cyd-gyffwrdd ar y cyfan), dylai'r derbynnydd ail-diwnio yn awtomatig os bydd y gwasanaethau radio perthnasol yn defnyddio signalau adnabod gwasanaeth addas.

# 4. Cynllun ardal ddarpariaeth

4.1 Yn yr adran hon rydym yn ystyried y pwyntiau a wnaed gan rai ymatebwyr wrth ateb Cwestiwn 1 yr ymgynghoriad a oedd yn holi am ein cynllun darpariaeth arfaethedig, a sut rydym yn bwriadu delio â materion sydd wedi'u nodi yn y ddeddfwriaeth, fel i ba raddau y byddai ardaloedd darpariaeth gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn gorgyffwrdd ag ardaloedd trwyddedig gwasanaethau amlblecs radio lleol.

## Datgan diddordeb ac ardaloedd polygon

### Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

4.2 Roedd ein hymgynghoriad yn disgrifio sut yr oeddem wedi nodi lefel bosib y galw am wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Drwy'r broses 'datgan diddordeb'[4] yn 2018 y gwnaethom hynny'n bennaf, a oedd hefyd yn ceisio mesur diddordeb mewn gweithredu gwasanaethau rhaglenni ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.

4.3 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn egluro sut yr oeddem wedi datblygu cynllun cychwynnol ar gyfer ardal ddarpariaeth yn seiliedig ar y broses hon. Roeddem yn dweud ein bod wedi ceisio neilltuo 'polygon' tybiannol (ardal drwyddedig bosib gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach) i bob lleoliad a oedd wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb i ni. Roedd rhaid addasu rhywfaint ar y broses neilltuo hon, er enghraifft lle cafwyd mwy nag un datganiad o ddiddordeb ar gyfer ardaloedd tebyg, neu lle cafwyd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer ardaloedd â phoblogaeth fach iawn na fyddent – yn ein barn ni – yn gallu cynnal gwasanaeth hyfyw ar amlblecs radio ar raddfa fach.

4.4 Daethom i'r casgliad y dylai fod digon o sbectrwm ar gael yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn y DU i fodloni'r galw posib ar y cyfan. Cafodd y lleoliadau hyn eu galw'n 'ardaloedd polygon', ac roeddem yn disgwyl y byddai amledd ar gael ar gyfer pob un o'r ardaloedd polygon hynny.

4.5 Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd lle mae llawer o alw, nid oedd yn ymddangos bod digon o amleddau i allu neilltuo un i bob polygon. Yn yr achosion hynny, roeddem wedi grwpio'r polygonau yn grwpiau mwy sy'n cael eu galw'n 'ardaloedd macro'. Yn yr ardaloedd macro, roeddem yn egluro y byddai angen mynd ati mewn ffordd ychydig yn wahanol i hysbysebu trwyddedau yn yr ardaloedd hynny, oherwydd byddai'n anoddach i Ofcom ddweud ymlaen llaw beth fyddai'r cyfyngiadau ymyriant rhwng y polygonau yn yr ardaloedd macro hyn. Hefyd, ni fyddai digon o sbectrwm i allu trwyddedu gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach ar gyfer pob polygon (ar sail ein tybiaethau am drosglwyddyddion y gallai ymgeiswyr eu cynnig).

[4] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/small-scale-dab-interest

4.6 Roeddem hefyd yn cydnabod y byddai’r cynlluniau cychwynnol hyn ar gyfer ardal ddarpariaeth yn newid yn unol â chasgliadau trafodaethau rhyngwladol ynghylch cydlynu amledd rhwng y DU a gwledydd cyfagos.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

4.7 Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr am yr ardaloedd macro a pholygonau tybiannol a gyhoeddwyd fel rhan o’r ymgynghoriad. Fel yr esboniwyd uchod, roedd y polygonau hyn yn seiliedig ar yr ymatebion i’n cais am ddatganiadau o ddiddordeb, ac fe’u datblygwyd drwy ddadansoddiadau cynllunio amledd dilynol.

4.8 Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Wetherby Community Radio a Stafford Radio Broadcasting, yn poeni nad oedd y polygonau arfaethedig yn eu hardal nhw yn cyfateb i’w darpariaeth FM bresennol nac i’r ardal roedden nhw wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb ar ei chyfer yn 2018.

4.9 Gofynnodd Nation Broadcasting ac Angel Radio am hyblygrwydd o ran ardaloedd trwydded penodol. Roedden nhw’n awgrymu y gellid cyfuno rhai ardaloedd polygon llai (ar yr amod nad oes mwy na 40% o’r boblogaeth yn gorgyffwrdd ag amlblecsau lleol), gan awgrymu y byddai gwneud hynny o fudd i ardaloedd â pholygonau cyfagos sy’n gwasanaethu ardaloedd cymharol fach ar eu pen eu hunain, ac y byddai’n eu gwneud yn fwy cynaliadwy yn ariannol.

4.10 Yn yr un modd, awgrymodd Dr Paul Groves o Goleg Prifysgol Llundain y dylid ymchwilio i’r syniad o gyfuno nifer o bolygonau penodol yn yr ardaloedd macro, er mwyn sicrhau bod cymaint o’r boblogaeth â phosib yn cael ei gwasanaethu yn yr ardaloedd hyn. Soniodd hefyd am flociau amledd VHF is-fand III penodol yr oedd yn credu y dylid eu defnyddio mewn rhai rhannau o’r ardaloedd macro.

4.11 Yn fwy cyffredinol, awgrymodd Radiocentre ei bod yn anodd asesu gwir lefel y galw tebygol yn 2020 ar sail y broses datgan diddordeb yn 2018, ac roedd yn amau na fyddai’r ardaloedd trwydded arfaethedig yn gynaliadwy neu’n ymarferol yn fasnachol oni bai fod ardaloedd y ddarpariaeth yn cael eu cynyddu. Fel Nation Broadcasting ac Angel Radio, dywedodd hefyd y byddai’n ddefnyddiol pe gellid cyfuno rhai o’r ardaloedd trwydded arfaethedig er mwyn darparu ardaloedd a fyddai’n fwy addas o ran maint ym marn Radiocentre.

4.12 Cyfeiriodd Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom at nifer o enghreifftiau penodol o bolygonau yng Nghymru a fyddai, ym marn y Pwyllgor, yn elwa o gael eu haddasu. Gofynnodd hefyd am esboniad o’r sail a ddefnyddiwyd wrth greu’r polygonau.

4.13 Teimlai ymatebwyr eraill (gan gynnwys Radio Gwent, Actual Radio, Switch Radio, Bristol Digital Radio, Wide FM) y dylid cael hyblygrwydd o ran ffiniau’r polygonau fel rhan o’r broses drwyddedu, neu y byddai polygonau penodol yn elwa o gael eu haddasu gan ymgeiswyr.

## Dadansoddiad a chasgliadau

4.14 Ein prif nod wrth ddatblygu'r ardaloedd polygon tybiannol oedd bodloni cymaint â phosib o'r galw posib (fel y gwelwyd drwy'r broses datgan diddordeb yn 2018) am wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Fodd bynnag, fel yr esboniwyd yn ein hymgynghoriad, nid yw'r ardaloedd polygon tybiannol bob amser yn cyfateb yn union i'r ardaloedd y cawsom ddatganiadau o ddiddordeb ar eu cyfer. Yn benodol, cafodd ardaloedd polygon eu haddasu mewn ardaloedd lle cawsom fwy nag un datganiad o ddiddordeb ar gyfer lleoliadau gwed-dol debyg, neu er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiad o 40% ar gyfer darpariaeth sy'n gor-gyffwrdd â gwasanaethau amlblecs radio lleol sy'n bodoli'n barod. Mewn rhai achosion eraill, roedd angen gwneud addasiadau oherwydd cyfyngiadau ar argaeledd sbectrwm, ac nid oeddem wedi cynnwys polygonau tybiannol ar wahân ar gyfer ardaloedd â phoblogaeth fach iawn sy'n cael eu gwasanaethu gan bolygonau mwy eraill. Fel y dywedodd rhai ymatebwyr, mae'n bosib na fydd amlblecsau ag ardaloedd darpariaeth bach iawn yn ddeniadol i lawer o ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni, ac mae'n annhebygol y byddan nhw'n hyfyw yn ariannol. Felly, ni fyddent yn ffordd effeithlon o ddefnyddio'r sbectrwm. Fodd bynnag, fe wnaethom geisio cynnwys ardaloedd darpariaeth o'r fath mewn am-lblecsau mwy pan oedd hynny'n bosib.

4.15 O ganlyniad i'r cyfaddawdu y cyfeirir ato uchod, rydym yn cydnabod nad yw rhai polygo-nau'n cyfateb yn union i ddyheadau darpariaeth ymgeiswyr posib. Fodd bynnag, ni fyddai'n bosib bodloni union ddymuniadau pob ymgeisydd posib o ran darpariaeth. Dylai'r rheini sy'n ymgeisio am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach gynnig trosglwyddyddion sy'n dilyn ffurf y polygon yn gymharol agos. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cynllun amledd cyf-fredinol yn gadarn, ac mae'n angenrheidiol hefyd oherwydd bod y meini prawf statudol ar gyfer dyfarnu yn mynnu ein bod yn ystyried graddfa'r ddarpariaeth mewn polygon pe-nodol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad, byddwn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd pan all y ddarpariaeth ymestyn y tu hwnt i ardaloedd polygon (heb fod yn fwy na 30% yn ôl poblogaeth fel arfer). Felly, mae gan ymgeiswyr rywfaint o hyblygrwydd i gynnig trefniadau o ran trosglwyddydd sy'n cyd-fynd â'u dyheadau penodol o ran darpari-aeth (sydd, yn eu tro, yn debygol o gael eu llywio gan ofynion gwasanaethau darlledu).

4.16 Nodwyd bod rhai o'r ymatebwyr yn awgrymu cyfuno neu ehangu ardaloedd amlblecs er mwyn cynnig darpariaeth i gymaint â phosib o'r boblogaeth. Mae'n bwysig dweud mai bwriad gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yw cynnig llwybr at radio digidol i wasanaethau llai, gan gynnwys rhaglenni sain digidol cymunedol sy'n dymuno cynnig dar-pariaeth i gymuned fuddiant mewn ardal benodol, a gwasanaethau masnachol bach sydd â phwyslais tebyg. Mae graddfa ymarferol yn bwysig ac, yn unol â'n hymgynghoriad, yn un ffactor wrth benderfynu ar bolygonau priodol. Fodd bynnag, pe baem yn canolbwyntio'n llwyr ar gynnig y ddarpariaeth fwyaf bosib, byddai perygl o golli golwg ar yr amcan sylfaenol, ac o greu ardaloedd amlblecs sy'n llai deniadol i wasanaethau llai yn yr ardal be-nodol honno.

4.17 Rydym wedi nodi sylwadau'r ymatebwyr a awgrymodd newidiadau mewn ardaloedd pe-nodol, a byddwn yn ystyried y sylwadau hyn pan fydd yn bosib wrth hysbysebu'r

trwyddedau. Fodd bynnag, mae'n anochel bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng dymuniadau gwahanol ddarpar ddarparwyr gwasanaeth, ac nid yw'n realistig na hyd yn oed yn bosib creu polygonau sy'n ddelfrydol i bob darlledwr mewn ardal.

# Darpariaeth yn gorgyffwrdd â gwasanaethau amlblecs radio lleol

## Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

4.18 Eglurodd yr ymgynghoriad sut mae Ofcom yn bwriadu defnyddio'r trothwy o 40% ar gyfer gorgyffwrdd ("y terfyn 40%") sydd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth DAB ar raddfa fach: mae hyn yn cyfeirio at y boblogaeth mewn ardal lle mae gorgyffwrdd rhwng ardaloedd trwyddedig gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach a gwasanaeth amlblecs radio lleol, ac fel arfer ni ddylai'r gorgyffwrdd effeithio ar fwy na 40% o'r boblogaeth yn holl ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol.

4.19 Nodwyd ei bod yn bosib na fyddai cadw'n gaeth at y terfyn 40% yn arwain at yr ardaloedd trwyddedig gorau posib, neu at ardaloedd trwyddedig sy'n gyson yn olygyddol mewn rhai ardaloedd daearyddol penodol. Nodwyd hefyd bod y ddeddfwriaeth yn dweud mai dymunol fyddai aros o fewn y lefel 40%, yn hytrach na'i bod yn mynnu hynny ym mhob achos. Felly, roeddem yn cynnig bod yn hyblyg wrth ddefnyddio'r terfyn, ond mewn achosion eithriadol yn unig.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

4.20 Mynegodd Brian Lister bryder y gallai'r terfyn 40% greu cymhlethdod yn artiffisial, heb gynnig unrhyw fudd i'r cyhoedd. Er enghraifft, cynigiodd un ardal drwyddedig ar gyfer tair bwrdeistref – Redcar, Stockton a Middlesbrough – er y byddai hyn yn croesi'r terfyn 40% mewn perthynas â gwasanaeth amlblecs radio lleol Teeside.

4.21 Roedd Wireless Group yn poeni bod Ofcom, y tu allan i Lundain, wedi defnyddio'r terfyn 40% heb ystyried anghenion radio cymunedol o gwbl, ac nad yw wedi ystyried hynny yng nghyswllt unrhyw fudd amlwg i ddefnyddwyr chwaith.

4.22 Dywedodd Switch Radio y byddai seilio'r terfyn 40% ar faint y boblogaeth yn hytrach nag ar ardal ddaearyddol yn gallu achosi trafferthion mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uchel. Y gobaith yw y byddai Ofcom yn defnyddio'i ddisgresiwn mewn ardaloedd lle mae gan ymgeiswyr wybodaeth am yr ardal a allai ymdopi â mân addasiadau o ran maint y polygon. Dywedodd Switch Radio hefyd y dylai ceisiadau i addasu maint polygon fod yn seiliedig ar resymau technegol clir sydd wedi'u diffinio'n dda ac sy'n cadw at y fethodoleg (yn gwneud mwy na dim ond cynyddu'r ddarpariaeth), gan barchu'r terfyn 40%.

4.23 Roedd Radio Cambridge 105 a Phwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom hefyd wedi gofyn am hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r terfyn 40%. Er enghraifft, cyfeiriodd Cambridge 105 at y posibilrwydd y byddai'r pentrefi cyfagos yn cael eu llyncu wrth i ddinas Caergrawnt ymestyn. Roedd Pwyllgor Cynghori Cymru o blaid hyblygrwydd wrth ddefnyddio'r terfyn 40% er

mwyn sicrhau, er enghraifft, nad yw'n tanseilio priodoldeb golygyddol ardal sy'n cael darpariaeth gan wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, ac osgoi creu rhaniadau artiffisial mewn ardaloedd darpariaeth posib.

4.24 Gofynnodd Uned Gyfryngau Station House a fyddai modd ailystyried y polygonau arfaethedig ar gyfer Gogledd a De Aberdeen. Roedd yn cwestiynu pam yr oedd Aberdeen wedi'i rhannu'n ddau bolygon ar wahân a fyddai, ym marn Uned Gyfryngau Station House, yn ei gwneud yn anodd creu model sy'n gynaliadwy yn ariannol.

## Dadansoddiad a chasgliadau

4.25 Rydym yn ymwybodol mai bwriad amlwg y Senedd Brydeinig (yn adran 50(2A)(c) o Ddeddf 1996 fel y mae wedi'i haddasu gan y Gorchymyn DAB ar Raddfa Fach) yw na ddylai poblogaeth y gorgyffwrdd rhwng ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, ac ardal gwasanaeth amlblecs radio lleol, fod yn fwy na 40% fel rheol o gyfanswm y boblogaeth sy'n cael darpariaeth gan y gwasanaeth amlblecs radio lleol. Felly, nid oes gennym sail dros anwybyddu hanfodion y gofyniad hwn.

4.26 Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran maint yr amlblecs (h.y. mae'n dweud mai "dymunol" yw aros o fewn y terfyn 40%, yn hytrach na'i fod yn gwbl ofynnol ym mhob achos). Yn ein hymgynghoriad roeddem yn dweud y byddem yn hyblyg wrth ddefnyddio'r terfyn, ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol.

4.27 Rydym wedi ystyried yn ofalus y pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r trothwy 40% ar gyfer gorgyffwrdd, ac yn cydnabod y ddadl y gallai'r terfyn – mewn nifer fach o leoliadau daearyddol penodol – arwain at ardaloedd trwydded gwannach (er enghraifft, yn llai homogenaidd yn olygyddol) nag y byddent fel arall.

4.28 Felly, rydym wedi ystyried ymhellach o dan ba amgylchiadau y byddem yn dymuno cynnig hyblygrwydd o ran y terfyn, un ai drwy gynyddu'r trothwy 40% yn sylweddol mewn nifer fach o achosion, neu drwy ei gynyddu ychydig mewn nifer fwy o achosion.

4.29 Ar ôl ystyried hyn ymhellach, dim ond nifer fach iawn o achosion rydym wedi'u nodi lle mae rhywfaint o ddadl dros gynyddu'r terfyn 40% yn sylweddol er mwyn i ardal allu cael ei gwasanaethu gan un gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, yn hytrach na'i bod yn cael ei gwasanaethu gan ddau amlblecs neu fwy. Aberdeen yw'r enghraifft amlycaf, lle mae ardal fach sy'n cynnwys y ddinas ei hun yn cynrychioli canran uchel dros ben o gyfanswm poblogaeth yr ardal ddaearyddol fwy o lawer sy'n cael darpariaeth gan wasanaeth amlblecs radio lleol Aberdeen (ac sydd hefyd yn cynnwys ardal wledig ehangach). At ei gilydd, rydym ni o'r farn nad oes angen anwybyddu'r trothwy 40% er mwyn bodloni'r galw am ddarpariaeth amlblecs ar raddfa fach yn Aberdeen (nac mewn ardaloedd eraill), oherwydd rydym wedi gallu cynllunio amlblecsau ar raddfa fach sy'n briodol yn yr ardaloedd hyn sydd o fewn y terfyn, ac mae opsiynau eraill posib ar gael i ddarlledwyr sy'n ymwneud â chludo ar fwy nag un gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach. Er y byddai anwybyddu'r trothwy yn sylweddol yn gallu arwain at rai manteision yn yr achosion hyn, nid ydym ni o'r farn bod y manteision hyn yn drech na'r anfanteision o wyro mor bell oddi wrth fwriad y ddeddfwriaeth a'r effaith bosib ar wasanaethau amlblecs radio lleol.

4.30 Mewn rhai achosion eraill, efallai fod dadleuon dros groesi'r trothwy 40% ryw fymryn. Serch hynny, os dim ond i raddau bach y bydd y trothwy 40% yn cael ei groesi, mae'r manteision hefyd yn debygol o fod yn fach yn unol â hynny yn ein barn ni. Hefyd, er mwyn sicrhau y gallem fod yn deg ac yn gyson wrth ganiatáu eithriadau o'r fath, rydym ni o'r farn y byddai angen defnyddio set o feini prawf a allai fod yn oddrychol ac yn gymhleth iawn. O ganlyniad, rydym o'r farn bod cadw'n gaeth at y terfyn 40% yn fuddiol i randdeiliaid oherwydd ei fod yn egluro beth sy'n dderbyniol.

4.31 Wrth ystyried yr uchod, rydym wedi penderfynu y byddwn yn defnyddio'r trothwy 40% ar gyfer gorgyffwrdd ym mhob achos. Felly, bydd darpariaeth bosib pob trwydded amlblecs radio ar raddfa fach rydym yn ei hysbysebu yn gorgyffwrdd llai na 40% o ran poblogaeth ag ardal drwyddedig unrhyw wasanaeth amlblecs radio lleol. Hefyd, bydd unrhyw ymgeiswyr sy'n cynnig darpariaeth y tu allan i'r ardaloedd rydym yn eu hysbysebu yn gorfod sicrhau bod eu darpariaeth o fewn y terfyn 40% ar gyfer gorgyffwrdd.

# 5. Safonau technegol

5.1 Mae Adran 43(1)(b) o Ddeddf 1996 yn caniatáu cynnwys amodau mewn trwyddedau amlblecs radio sy'n galluogi Ofcom i oruchwylio a gorfodi safonau technegol mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth a drwyddedir.

5.2 Yn yr ymgynghoriad (paragraffau 3.59-3.72), roeddem wedi:

- nodi'r safonau technegol y bydd yn rhaid i drwyddedeion gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach gydymffurfio â nhw;
- cynnig y dylai'r holl wasanaethau rhaglenni sy'n cael eu cludo ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach fod yn cael eu hamgodio gan ddefnyddio DAB+; ac
- wedi gofyn am wybodaeth ynghylch y defnydd posib o bolareiddio cymysg, ac am dystiolaeth o unrhyw fuddion a allai ddod yn sgil caniatáu polareiddio llorweddol yn ogystal â pholareiddio fertigol.

> **Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig yng nghyswllt yr amodau trwydded technegol gofynnol ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, a'r diwygiadau arfaethedig i'r Cod Technegol Radio Digidol?**

5.3 Cafwyd sylwadau gan 118 o ymatebwyr ynghylch y cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd 45 o ymatebwyr yn cytuno'n llawn â'n dull gweithredu arfaethedig. Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'r dull hwnnw drwyddo draw, ac roedd 69 ymatebydd wedi mynegi gwrthwynebiadau sylweddol (neu wedi cynnig dulliau gweithredu eraill) i elfennau penodol o'r cynigion neu'r materion technegol cysylltiedig. Yn sgil y pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad – ac rydym y trafod y rheini ymhellach isod – rydym yn dweud o'r cychwyn na fyddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig i wneud DAB+ yn orfodol.

## Safonau technegol gofynnol

### Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

5.4 I gydnabod y ffaith bod y gofynion deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn debyg iawn i'r rheini sydd eisoes yn berthnasol i wasanaethau amlblecs radio lleol a chenedlaethol, roeddem yn cynnig y byddai'n rhaid i wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach gadw at God Technegol presennol Ofcom ar gyfer Radio Digidol (sydd hefyd yn mynnu bod trwyddedeion yn cadw at Ganllawiau Technegol Ofcom ar gyfer trwyddedeion amlblecs DAB).

5.5 Fodd bynnag, yn yr ymgynghoriad roeddem yn cynnig addasu'r Cod Technegol i adlewyrchu'r gofyniad statudol ychydig yn wahanol sy'n berthnasol i wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, sef y bydd yn rhaid iddyn nhw gyrraedd safonau rhesymol o ran dibynadwyedd ac ansawdd technegol (Adran 54(1)(g) o Ddeddf 1996 fel y mae wedi'i haddasu gan y Gorchymyn). O ran gwasanaethau amlblecs radio lleol a chenedlaethol, mae'r statud yn mynnu eu bod yn cyrraedd safonau uchel yn hytrach na rhesymol.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

5.6 Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig uchod yn benodol, ond gofynnodd Radiocentre i Ofcom roi rhyw syniad o beth mae'r gofyniad *safonau rhesymol o ran dibynadwyedd ac ansawdd technegol* yn debygol o'i olygu yn ymarferol.

## Dadansoddiad a chasgliadau

5.7 Byddwn yn mynd ati i ddiwygio ein Cod Technegol fel y cynigiwyd, ac rydym yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r Cod Technegol ochr yn ochr â'r datganiad hwn. Bydd angen i drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach gydymffurfio â'r Cod hwn fel un o amodau eu trwydded amlblecs.

5.8 Mae'n anodd rhoi ateb pendant ymlaen llaw i gais Radiocentre am arweiniad ar beth allai safonau technegol rhesymol ei olygu. Fodd bynnag, byddem yn dweud bod defnyddio'r gair "rhesymol" yn hytrach nag "uchel" yn dangos bod y safon ddisgwyliedig yn cael ei llacio rhywfaint yn achos gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, a gallwn roi ychydig o arweiniad cyffredinol ynghylch sut byddwn yn mynd ati i reoleiddio ansawdd technegol gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Er nad yw hon yn rhestr gyflawn o'r materion y byddwn ni'n eu hystyried, byddwn yn disgwyl i drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach sicrhau bod eu gwasanaeth yn cyd-fynd â'r canlynol:

### Mae'r gofynion yn cyd-fynd yn fras â'r rheini a ddisgwylir gan drwyddedeion amlblecsau radio eraill

- Mae systemau trawsyrru yn cydymffurfio â'r paramedrau a nodwyd yn nhrwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr er mwyn osgoi achosi ymyriant i ddefnyddwyr eraill y sbectrwm (gan nodi bod trawsyrru mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â thrwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn drosedd);
- mae offer a'i ffurfweddiad yn cyrraedd ac yn dilyn y safonau rhyngwladol perthnasol a nodwyd yn y Cod Technegol Radio Digidol; ac
- ni fydd derbyniad gwasanaethau radio DAB eraill yn cael ei beryglu gan weithredoedd diofal y trwyddedai.

### Gofynion llai llym a fydd yn berthnasol i wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn unig

- Mae'r offer technegol (gan gynnwys offer trosglwyddydd, amlblecs a chylchedau rhaglenni) yn ddigon dibynadwy i ddarparu gwasanaeth sydd, ar y cyfan, yn debygol o fodloni disgwyliadau rhesymol y rhan fwyaf o wrandawyr yn yr ardal darged; ac
- nid yw nodweddion sain y gwasanaethau rhaglenni sy'n cael eu cludo ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn gorfod bodloni gofynion rheoleiddio.

# Gofyniad i ddefnyddio DAB+

## Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

5.9 Yn yr ymgynghoriad, roeddem ni'n cynnig y dylai gwasanaethau rhaglenni ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach weithredu gan ddefnyddio'r fformat DAB+ (safon amgodio sain) yn unig. Bwriad hyn yn bennaf oedd sicrhau y gallai gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach gludo nifer fawr o wasanaethau rhaglenni, a bodloni'r galw mawr a ragwelir ymysg gwasanaethau rhaglenni i gael eu cludo ar y gwasanaethau amlblecs hynny.

5.10 Felly, roeddem yn cynnig diwygio'r Cod Technegol i gynnwys amod a oedd yn mynnu bod trwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach yn gweithredu gan ddefnyddio DAB+ yn unig.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

5.11 Dywedodd saith ymatebydd yn benodol eu bod yn cytuno â'n cynnig y dylai gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach gludo gwasanaethau rhaglenni DAB+ yn unig. Mynegodd 38 ymatebydd arall gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion yng Nghwestiwn 2 yr ymgynghoriad, ac felly rydym wedi cymryd bod hyn yn cynnwys cefnogaeth i'n cynnig penodol i fynnu bod DAB+ yn cael ei ddefnyddio.

5.12 Fodd bynnag, roedd nifer fwy o lawer o ymatebwyr – 65 i gyd – wedi mynegi amheuon neu wrthwynebiad o ran gwneud safon amgodio DAB+ yn orfodol. Mae'r isadrannau canlynol yn rhoi crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr hyn.

### Cefnogaeth i DAB+ mewn egwyddor, ond gyda chyfnod pontio

5.13 Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion mewn egwyddor, ond yn awgrymu y gellid (neu y dylid) caniatáu'r safon DAB wreiddiol ar gyfer amgodio sain ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, naill ai am gyfnod penodol neu nes bydd treiddiad derbynnydd DAB+ yn cyrraedd lefelau sylfaenol penodol. Roedd yr ymatebwyr hyn wedi cyfeirio naill ai'n benodol, neu'n amhenodol, at y ffaith bod nifer fawr o dderbynyddion hŷn sy'n methu derbyn DAB+ yn dal yn y farchnad – rydym yn trafod hyn ymhellach isod.

### Gwrthwynebiadau mewn egwyddor i orfodi DAB+

5.14 Roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu mewn egwyddor i'r gofyniad bod gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn cludo gwasanaethau DAB+ yn unig. Roedd ymatebion llawer o'r ymatebwyr hyn – gyda'r mwyafrif ohonynt yn ddeiliaid trwydded radio cymunedol analog ar hyn o bryd – wedi'u geirio mewn ffordd debyg, a oedd yn egluro eu bod yn credu y dylai gweithredwyr amlblecs ar raddfa fach gael y dewis o ddarparu gwasanaethau ar DAB neu ar DAB+ fel maen nhw'n gweld orau, ac na ddylent orfod ysgwyddo baich rheoleiddio trymach na gweithredwyr DAB eraill.

### Pryderon am dderbynyddion hŷn yn y farchnad, sy'n methu derbyn DAB+

5.15 Roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu'r syniad o orfodi DAB+ ar y sail y gallai gwrandawyr gael eu dieithrio gan fod cymaint o dderbynyddion yn methu derbyn gwasanaethau DAB+, a/neu y gallai fygwth hyfywedd ariannol gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.

5.16 Awgrymodd Andrew Bush y gellid creu rhwyg digidol, wrth i'r gwrandawyr hynny sydd â setiau hŷn gael eu cau allan. Dywedodd Central FM mai dim ond ers 2014 y mae DAB+ ar gael, a'i fod ond ar gael mewn ceir fel mater o drefn ers 2019 at ei gilydd, ac y gallai hynny gyfyngu ar nifer y gwrandawyr posib ym mhob ardal ddarlledu. Teimlai Radiocentre a'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol mai gweithredwyr yr amlblecs ddylai benderfynu a ydyn nhw am fabwysiadu DAB+, wrth ystyried bod llawer o dderbynyddion yn methu codi DAB+, a'r ansicrwydd am nifer y radios sy'n methu derbyn DAB+ sy'n dal i gael eu defnyddio gan wrandawyr. Roedd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol yn dadlau y byddai'r gofyniad DAB+ yn mynd yn gwbl groes i ysbryd ac ystyr y ddeddfwriaeth alluogi.

5.17 Dywedodd U.DAB (gweithredwr y gwasanaeth amlblecs DAB ar raddfa fach a dreialwyd yn Llundain) fod rhai gorsafoedd ar ei amlblecs wedi dewis trawsyrru yn y fformat DAB safonol, oherwydd eu bod eisiau sicrhau nad yw gwrandawyr â radios sy'n methu derbyn DAB+ o dan anfantais. Dywedodd na ddylai Ofcom orfodi DAB+, gan adael i'r farchnad wneud y dewis yn naturiol, yn enwedig wrth gofio bod y mwyafrif helaeth o orsafoedd y treial wedi dewis DAB+ yn barod, heb ymyrraeth.

5.18 Roedd Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom hefyd yn poeni nad yw radios hŷn yn gallu derbyn DAB+, a dywedodd fod treiddiad DAB yn is yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Ond roedd hefyd yn gwerthfawrogi y gallai'r llinell sylfaen is hon olygu, yn baradocsaidd, bod llai o dderbynyddion hŷn yn cael eu defnyddio yng Nghymru.

5.19 Roedd NLive Radio yn dadlau y dylai'r Llywodraeth ac Ofcom wneud mwy i sicrhau bod yr holl radios newydd yn cydymffurfio â'r "tic digidol"[5] (h.y. yn gallu derbyn DAB+).

### Gwrthwynebiadau oherwydd capasiti amlblecs neu oblygiadau masnachol

5.20 Prif reswm rhai ymatebwyr dros wrthwynebu'r syniad o orfodi DAB+ oedd eu bod yn teimlo y gallai capasiti amlblecs gael ei ddefnyddio mewn ffordd aneffeithlon o ganlyniad i hynny, neu faterion masnachol eraill. Mynegodd ymatebwyr bryderon am yr effaith mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, lle mae llai o alw o bosib am gapasiti ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach nag mewn ardaloedd trefol.

5.21 Er enghraifft, roedd Bristol Digital Radio yn rhagweld mai dim ond yn y fformat DAB gwreiddiol y byddai rhai darparwyr gwasanaethau rhaglenni yn fodlon darlledu, er mwyn osgoi dieithrio'r rheini sy'n gwrando ar analog ar hyn o bryd. Os byddai'r darparwyr gwasanaeth hynny'n teimlo eu bod yn cael eu heithrio o ran gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, mae'n bosib na fyddai'r amlblecsau hynny'n gallu cael gafael ar ffrwd

[5] https://getdigitalradio.com/digital-tick

refeniw bwysig, ac un (wrth ystyried bod gwasanaethau DAB yn defnyddio cyfran fwy o gapasiti amlblecs na gwasanaethau DAB+ yn gyffredinol) sy’n debygol o fod yn ganran anghymesur o uchel o gostau gweithredu’r amlblecs. O ran dyrannu capasiti C-DSP, dywedodd Bristol Digital Radio hefyd ei bod yn ymddangos y byddai’n fwy buddiol i weithredwr yr amlblecs (yn hytrach nag i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni) petai’r capasiti hwn yn cael ei ddyrannu gan ddefnyddio DAB+. Mynegodd Future Digital Norfolk farn debyg.

5.22 Roedd Nation Broadcasting yn dadlau y byddai cael sawl gwasanaeth radio masnachol ar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach sy’n darlledu yn y fformat DAB gwreiddiol, gan ddefnyddio cyfradd ddidau uwch, hefyd yn fuddiol drwy ostwng cost capasiti ar gyfer gwasanaethau C-DSP.

5.23 Gan nodi mai yn gymharol ddiweddar y mae DAB+ wedi cael ei gyflwyno fel gofyniad cydymffurfio (“tic digidol”), dywedodd DC Thomson y byddai gorfodi DAB+ yn golygu bod gwasanaethau o dan anfantais sylweddol. Dywedodd y byddai’r gofyniad yn lleihau lefel y treiddiad yn y farchnad, ac yn sterileiddio’r rhan fwyaf o fodelau busnes masnachol o’r cychwyn cyntaf. Roedd yn dadlau y dylai penderfyniadau gael eu gwneud yn ôl llwyr ddisgresiwn perchnogion yr amlblecs, sy’n gallu rheoli capasiti a thechnoleg ar sail y cyflenwad yn y farchnad a’r pwysau o ran galw.

5.24 Yn ôl Opendab (gan gynnwys Brighton and Hove Radio a Sunbury Digital), petai DAB+ yn cael ei orfodi, byddai gwasanaethau amlblecs radio lleol yn debygol o wneud yr un peth, a byddent hwythau hefyd yn newid i ddefnyddio DAB+, gan arwain o bosib at ormod o gapasiti o ran trawsyrru DAB. Er bod Opendab yn derbyn y byddai hyn yn creu budd cymdeithasol sylweddol i’r cyhoedd (ar y sail bod DAB+ yn fwy effeithlon o safbwynt sbectrwm), teimlai y byddai’r newid dramatig hwn o ran cyflenwad a galw yn debygol o arwain at leihau’r ffioedd cludo ar gyfer gwasanaethau rhaglenni sy’n cael eu cludo ar wasanaethau amlblecs radio lleol, a fyddai’n golygu yn y pen draw bod llawer o wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn amhroffidiol.

## Dadansoddiad a chasgliadau

5.25 Ein prif reswm dros fynnu bod safon amgodio sain DAB+ yn cael ei defnyddio ar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach oedd y byddai hynny’n ffordd o greu cymaint o gapasiti â phosib, er mwyn bodloni’r lefel uchel iawn o alw am i wasanaethau rhaglenni gael eu cludo ar y gwasanaethau amlblecsau hynny, a welsom wrth wahodd datganiadau o ddiddordeb.

5.26 Er nad ydym yn cytuno y byddai gorfodi DAB+ yn mynd yn groes i’r ddeddfwriaeth alluogi ar gyfer DAB ar raddfa fach, ac yn cefnogi gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach – mewn ardaloedd â llawer o alw – sy’n dewis cludo gwasanaethau DAB+ yn unig er mwyn sicrhau cymaint o wasanaethau â phosib, rydym yn cytuno bod pwyntiau dilys mewn rhai o’r dadleuon a wnaed gan randdeiliaid i wrthwynebu bod Ofcom ei hun yn gorfodi DAB+ ar hyn o bryd. Felly, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â’r cynnig i orfodi DAB+.

5.27 Yn benodol, er bod ein proses datgan diddordeb wedi datgelu y bydd galw mawr o bosib am gapasiti amlblecs radio ar raddfa fach, rydym yn nodi ei bod yn debygol y bydd amrywiadau sylweddol o ran lefel y galw mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Os bydd y galw am gapasiti yn isel mewn ardaloedd mwy gwledig, er enghraifft, byddai cael y cyfle i ddefnyddio’r safon codio DAB wreiddiol yn gallu cynyddu hyfywedd rhai gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Mewn achosion o’r fath, gan y byddai mwy o wrandawyr (gan gynnwys y rheini â hen setiau sy’n methu derbyn DAB+) yn gallu cael eu gwasanaethu, fe allai'r amlblecs fod yn fwy deniadol i ddarpar ddarparwyr gwasanaethau DSP a C-DSP, heb orfod wynebu cyfyngiadau o ran capasiti.

5.28 Un o egwyddorion rheoleiddio Ofcom yw rheoleiddio dim ond pan fydd angen. Ers i’n hymgynghoriad gael ei gyhoeddi, rydym yn nodi bod nifer sylweddol o wasanaethau rhaglenni ar wasanaethau amlblecs radio lleol a chenedlaethol wedi newid i ddefnyddio fformat DAB+, neu wedi cael eu lansio mewn fformat DAB+. Mae hyn yn awgrymu bod y farchnad radio digidol ehangach ei hun yn newid i ddefnyddio DAB+ ohoni’i hun, heb ymyrraeth reoleiddiol. Yn sgil y datblygiadau hyn, a'r ystyriaethau uchod, rydym ni’n credu bod y ddadl dros orfodi DAB+ wedi gwanhau erbyn hyn.

5.29 Felly, ar ôl ystyried y gwahanol ymatebion i’n hymgynghoriad yn ofalus, rydym wedi penderfynu peidio â gweithredu’r cynnig a oedd yn mynnu bod y safon DAB+ yn cael ei defnyddio, ac ni fyddwn yn cynnwys gofyniad yn ein Cod Technegol diwygiedig – yr ydym wedi’i gyhoeddi ochr yn ochr â’r Datganiad hwn – i amlblecsau ar raddfa fach weithredu drwy ddefnyddio DAB+ yn unig. Yn Adran 6 y ddogfen hon, rydym yn ystyried sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar y ffordd y byddwn yn neilltuo capasiti ar gyfer gwasanaethau C-DSP.

5.30 Byddem yn pwysleisio bod ein penderfyniad yn golygu, yn syml iawn, na fydd Ofcom ei hun yn gorfodi DAB+. Nid yw’n golygu ei bod yn rhaid i wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach unigol gynnig y safon codio DAB safonol fel opsiwn i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni, os byddai’n well ganddyn nhw gynnig DAB+ yn unig. Fel sydd wedi’i nodi uchod, mae llawer o’r gwasanaethau amlblecs radio presennol eisoes yn newid i ddefnyddio DAB+. Mae’n ddigon posib y bydd trwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach (e.e. mewn ardaloedd lle mae galw mawr am gapasiti a/neu niferoedd llai o hen dderbynyddion sy’n methu derbyn DAB+) yn penderfynu, fel mater masnachol, mabwysiadu DAB+ ar draws yr amlblecs.

# Polareiddio signal

## Yr hyn roeddem ni’n ei gynnig

5.31 Hyd yma, mae gwasanaethau amlblecs radio lleol a chenedlaethol (yn ogystal â’r gwasanaethau amlblecs ar raddfa fach a dreialwyd) wedi bod yn defnyddio trosglwyddyddion sy’n darlledu signalau sydd wedi’u polareiddio’n fertigol yn unig. Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn gwahodd ymatebwyr i gyflwyno tystiolaeth o’r buddion neu’r anfanteision i DAB ar raddfa fach, neu i wasanaethau DAB yn fwy cyffredinol, petai elfen polareiddio llorweddol yn cael ei hychwanegu at y signalau sy’n cael eu trawsyrru.

Roeddem yn gofyn am yr wybodaeth hon yn dilyn ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio'r Cod Technegol yn gynharach yn 2019. Roedd nifer fach o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwnnw'n awgrymu y dylid caniatáu trosglwyddyddion DAB sy'n defnyddio polareiddio cymysg. Er nad oedd gennym dystiolaeth bryd hynny y byddai hyn yn fuddiol, roedd ein Datganiad ym mis Mehefin 20195F6 yn dweud y byddem yn gofyn am ragor o safbwyntiau a thystiolaeth pan fyddem yn ymgynghori ar weithredu DAB ar raddfa fach.

5.32 Felly, roeddem wedi egluro yn ein hymgynghoriad ynghylch trwyddedu DAB ar raddfa fach y byddem yn adolygu ein safbwynt o ran polareiddiad signalau, ac yn gofyn am dystiolaeth o'r buddion neu'r anfanteision i DAB ar raddfa fach, neu i wasanaethau DAB yn fwy cyffredinol, petai elfen lorweddol yn cael ei hychwanegu. Roeddem wedi dweud y byddem yn ystyried caniatáu defnyddio polareiddio llorweddol yn ogystal â pholareiddio fertigol, petaem yn cael tystiolaeth y byddai'n fuddiol gwneud hynny.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

5.33 Roedd saith o ymatebwyr wedi mynegi barn am bolareiddiad signalau.

5.34 Cafwyd ymateb technegol manwl gan Transplan UK, a oedd yn rhoi gwahanol resymau pam y dylid ystyried caniatáu polareiddio cymysg neu ar ogwydd ar gyfer gwasanaethau amlblecs radio. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaeth ynghylch y ffordd mae'r llwybr trawsyrru yn gallu newid polareiddiad signal wrth iddo gael ei dderbyn, nad yw erialau cerbydau wastad yn fertigol erbyn hyn, a bod tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod defnyddio polareiddio ar ogwydd yn gwella treiddiad signal. Roedd Transplan UK hefyd yn annog Ofcom i gychwyn treial maes o effeithiau ymledu (propogation), ac roedd Moss Media yn awgrymu y gallai polareiddio cymysg wella'r ddarpariaeth dan do. Dywedodd Wetherby Community Radio nad yw polareiddio fertigol yn broblem o gwbl.

5.35 Roedd safbwynt tri ymatebydd ar opsiynau polareiddio eraill yn niwtral ar y cyfan: Roedd Bristol Digital Radio o blaid parhau i adolygu'r mater; dywedodd Future Digital Norfolk y byddai angen gwneud mwy o waith cyn bod modd dod i gasgliadau pendant; ac roedd Cambridge 105 yn croesawu'r cyfle i barhau i asesu'r effaith a ddaw yn sgil cynnwys elfennau polareiddio llorweddol.

5.36 Roedd Viamux o blaid cadw'r gofyniad presennol i ddefnyddio polareiddio fertigol yn unig, tra bo U.DAB yn cefnogi safbwynt yr ymgynghoriad (h.y. caniatáu polareiddio fertigol yn unig, oni bai fod tystiolaeth yn awgrymu'n wahanol).

## Dadansoddiad a chasgliadau

5.37 Roedd rhai ymatebwyr o blaid caniatáu opsiynau eraill o ran polareiddio, roedd rhai yn dadlau dros gadw at y safbwynt presennol o ran polareiddio fertigol, tra bo eraill yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith. Nid oes dim un o'r ymatebwyr wedi cyflwyno tystiolaeth glir i gefnogi ei safbwynt.

[6] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/revisions-to-digital-radio-technical-codes

5.38 Felly byddwn yn cadw’r gofyniad presennol am y tro, ei bod yn rhaid defnyddio signalau sydd wedi’u polareiddio’n fertigol i drawsyrru gwasanaethau amlblecs radio, fel y nodir yn y Cod Technegol Radio Digidol. Byddwn yn parhau i adolygu’r mater hwn, ac yn ystyried newid ein penderfyniad os byddwn yn dod ar draws tystiolaeth gadarn y byddai’n fuddiol caniatáu polareiddio llorweddol a fertigol.

## Gofynion hidlo masg sbectrwm

5.39 Er nad oedd yr ymgynghoriad yn sôn am y mater hwn yn benodol (er bod ein hymgynghoriad ar wahân cynharach6F7 ar addasiadau i’r Cod Technegol Radio Digidol wedi sôn am hynny), roedd rhai ymatebwyr wneud gwneud sylwadau am y mater.

5.40 Dywedodd Bristol Digital Radio y dylid parhau i adolygu'r gofyniad mai dim ond hidlyddion sy’n cydymffurfio â’r nodwedd masg critigol (fel sy’n ofynnol yn ôl ein Cod Technegol Radio Digidol) y dylid eu defnyddio.

5.41 Roedd Opendab CIC/Brighton & Hove Radio, ymysg eraill, yn gwrthwynebu gorfodi gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach i gydymffurfio â’r nodwedd masg critigol. Dywedodd Opendab CIC/Brighton & Hove Radio y dylid caniatáu masg anghritigol, gan fod y fanyleb dechnegol ryngwladol ar gyfer DAB yn ei ganiatáu (ac, yn fwy cyffredinol, nad yw Ofcom yn mabwysiadu safonau technegol ‘rhesymol’ yn hyn o beth). Roedd Future Digital Norfolk yn dadlau nad yw Ofcom wedi cyflwyno tystiolaeth empirig ynghylch yr angen am y masg critigol, ac nid yw’n credu y gellir cyfiawnhau’r gofyniad hidlo critigol ar gyfer safleoedd trawsyrru ‘llanw’ â phŵer isel. Dywedodd Wetherby Community Radio fod y masg critigol yn mynd yn rhy bell fwy na thebyg ar gyfer trosglwyddyddion sy’n gweithredu ar lai na 100 wat.

5.42 Gofynnodd Cambridge 105 Radio a fyddai modd i’r gofyniad hidlo gael ei adolygu fesul safle.

5.43 Dywedodd U.DAB fod y dull rheoleiddio wedi cael ei dynhau yn gyffredinol yn ystod y treial DAB ar raddfa fach, gan ddweud bod y gofyniad ar gyfer y masg critigol yn enghraifft o’r duedd hon.

### Dadansoddiad a chasgliadau

5.44 Mae’n rhaid i bob trosglwyddydd DAB yn y DU gydymffurfio â’r gofynion hidlo sydd wedi’u disgrifio yn y ddogfen safon dechnegol ryngwladol, EN 302 0777F8. Mae’r fanyleb hon yn cynnwys tair nodwedd hidlo: ‘achos anghritigol’, ‘achos critigol’ ac ‘amgylchiadau eithriadol’.  Mae Cod Technegol Radio Digidol Ofcom yn mynnu bod yr holl drosglwyddyddion DAB yn y DU yn cydymffurfio â’r ‘achos critigol’.

5.45 Fel sydd wedi’i nodi uchod, roeddem ni wedi ystyried o’r blaen a ddylid caniatáu i’r nodwedd ‘achos anghritigol’ gael ei defnyddio. Roeddem wedi penderfynu peidio â bwrw

[7] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/revisions-to-digital-radio-technical-codes
[8] https://www.etsi.org/deliver/etsi_en/302000_302099/302077/02.01.01_60/en_302077v020101p.pdf

ymlaen â hyn ar y sail ein bod o'r farn bod angen gwneud mwy o waith technegol, a bod y buddion tebygol o fabwysiadu'r masg anghritigol yn weddol fach ar y pryd o ran lefelau pŵer y trosglwyddyddion a fyddai'n debygol o gael eu rhoi ar waith gan weithredwyr dros y blynyddoedd nesaf.

5.46 Mae'r ymatebion rydym wedi'u cael i'r ymgynghoriad hwn yn awgrymu bod trosglwyddyddion DAB â phŵer cymedrol, gyda phŵer allbwn o lai na 50W ERP, ar gael am bris eithaf isel ar hyn o bryd. Byddai trosglwyddyddion o'r fath yn gallu bod yn ddefnyddiol i lenwi bylchau yn narpariaeth gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach (a rhai lleol ar raddfa fwy o bosib). Er bod y trosglwyddyddion cost isel hyn yn cydymffurfio â'r masg anghritigol, nid ydynt yn bodloni'r nodwedd gritigol. I wneud hynny, byddai'n rhaid defnyddio proses hidlo ddrytach a fyddai'n dadwneud y buddion o ddefnyddio pŵer isel.

5.47 Felly, mae'n bosib y byddai gweithredwyr DAB ar raddfa fach (yn ogystal â thrwyddedeion DAB eraill os byddan nhw'n adeiladu trosglwyddyddion â phŵer isel) yn gallu arbed costau os byddwn ni'n caniatáu i'r masg anghritigol gael ei ddefnyddio. Yn sgil gwneud hynny, byddai unrhyw drosglwyddydd sy'n mabwysiadu hidlydd anghritigol yn rhoi ychydig mwy o bŵer i sianeli cyfagos a allai fod yn cael eu defnyddio gan wasanaethau radio eraill. Er mai bach fyddai'r lefel honno o ynni, byddai'n cael mwy o effaith mewn theori ar dderbyniad unrhyw signalau gwannach sy'n darlledu ar yr amleddau sy'n union wrth ymyl yn ardal trosglwyddydd sy'n defnyddio prosesau hidlo anghritigol, o'i gymharu ag un a oedd yn defnyddio prosesau hidlo critigol.

5.48 Rydym yn derbyn na fyddai caniatáu i'r masg anghritigol gael ei ddefnyddio yn cael llawer o effaith yn ymarferol ar dderbyniad gwasanaethau DAB eraill, nac ar y defnydd o sbectrwm cyfagos gan ddefnyddwyr eraill fel microffonau di-wifr neu radio busnes. Dyma'r rhesymau am hynny:

- Mae'r rhan fwyaf o'r ynni allyrru ychwanegol y byddai'r masg anghritigol yn cael ei belydru yn perthyn i'r bloc amledd DAB sy'n union wrth ymyl, gyda phrin ddim ynni ychwanegol yn cael ei belydru ar amleddau y tu hwnt i'r blociau hynny;
- Mae cyfanswm yr ynni ychwanegol yn y blociau amledd cyfagos hynny yn fach iawn o'i gymharu â'r pŵer sy'n cael ei ddarlledu ar yr amledd trawsyrru (tua 50dB yn llai yn achos trosglwyddydd 25W sy'n cydymffurfio â'r masg anghritigol). Mae hyn yn llai o lawer na chymhareb gwarchod sianeli cyfagos y rhan fwyaf o dderbynyddion DAB, sydd rhwng 25dB a 35dB fel arfer. Felly ni fydd derbynnydd DAB sydd wedi'i diwnio i wasanaethau gwannach, sydd ar amledd wrth ymyl trosglwyddydd masg anghritigol, yn cael y gwasanaeth gwannach hwnnw mwyach oherwydd presenoldeb y prif signal sy'n cael ei drawsyrru (e.e. drwy flocio derbynnydd). Bydd hynny'n digwydd ymhell cyn y bydd unrhyw effaith yn sgil rhoi ynni ychwanegol yn y bloc cyfagos wrth ddefnyddio masg anghritigol. Hefyd, byddai'r risg o ymyriant i wasanaeth DAB ar floc cyfagos yn is byth petai lefel y signal y mae gwasanaeth y bloc cyfagos yn dymuno ei chael yn uwch o lawer na'r llawr sŵn yn ardal y trosglwyddydd DAB ar raddfa fach;

- Mae defnyddwyr radio busnes yn ddigon pell oddi wrth yr holl flociau amledd a ddefnyddir gan DAB, fel nad oes gwahaniaeth o ran lefel yr allyriadau a ganiateir gan y masgiau critigol ac anghritigol ar y pellteroedd hynny[9];
- Mae llawer o'r amleddau a ddefnyddir gan ficroffonau di-wifr hefyd yn ddigon pell o'r blociau amledd DAB i sicrhau na fyddai gwahaniaeth o ran lefel yr allyriadau DAB y tu allan i'r band y byddent yn ei phrofi; ac
- Er bod rhai amleddau sydd ar gael i'w defnyddio gan PMSE yn nes at rai blociau amledd DAB, ac y gallent mewn theori brofi lefelau ychydig yn uwch o allyriadau o drosglwyddydd DAB sy'n defnyddio proses hidlo anghritigol, rydym ni o'r farn ei bod yn annhebygol iawn y bydd hyn yn gostwng yr ansawdd yn sylweddol.  Y rheswm am hynny yw mai dim ond ar rywfaint o amleddau DAB a PMSE y mae hyn yn effeithio, a byddai angen bod y ddau'n cael eu defnyddio yn yr un ardal. Byddai caniatáu'r masg anghritigol ar gyfer dim ond trosglwyddyddion DAB â phŵer cymharol isel yn ei gwneud yn llai tebygol byth y byddai problemau'n codi.

5.49 Wrth ystyried yr uchod, mae Ofcom o blaid caniatáu i'r masg anghritigol gael ei ddefnyddio ar gyfer trosglwyddyddion DAB. Er ein bod yn disgwyl i'r effaith ar ddefnyddwyr eraill y sbectrwm fod yn fach iawn, rydym yn bwriadu bod yn ofalus wrth fwrw ymlaen â hyn. Felly, y masg critigol fydd y nodwedd ofynnol o hyd am y tro, fel y nodwyd yn ein Cod Technegol Digidol.

5.50 Fodd bynnag, byddwn yn ystyried caniatáu i'r masg anghritigol gael ei ddefnyddio ar gyfer trosglwyddyddion DAB â phŵer isel (llai na 50 wat) fesul achos. Bydd y rheini sy'n gwneud cais am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn gallu cynnig defnyddio proses hidlo masg anghritigol ar gyfer trosglwyddyddion sy'n pelydru llai na 50W o bŵer pelydru effeithiol, a byddwn yn ystyried a ddylid caniatáu'r defnydd hwnnw, gan bwyso a mesur effaith hynny ar ddefnyddwyr eraill y sbectrwm. Byddwn hefyd yn ystyried cynigion gan drwyddedeion amlblecs lleol a chenedlaethol ar gyfer trosglwyddyddion DAB â phŵer isel sy'n defnyddio prosesau hidlo anghritigol.

5.51 Byddwn yn parhau i adolygu lefel y galw am ddefnyddio'r masg anghritigol, yn ogystal ag unrhyw effaith ar ddefnyddwyr eraill.

## Ymyriant ar sianeli cyfagos

5.52 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, mynegodd Arqiva bryderon am y goblygiadau technegol wrth gyflwyno gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.  Dywedodd fod problemau technegol sylfaenol yn dal heb eu datrys ar y cam cymharol hwyr yma yn y broses weithredu. Mae pryderon Arqiva yn ymwneud yn bennaf â'r risg y byddai cyflwyno gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn gallu achosi ymyriant ar sianeli cyfagos, ac felly amharu ar dderbyniad y gwasanaethau amlblecs radio lleol a chenedlaethol presennol. Roedd ganddo hefyd bryderon penodol ynghylch cyflwyno gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn ein 'hardaloedd macro'. I liniaru'r risgiau hyn, awgrymodd Arqiva y canlynol:

[9]Mae'r masgiau critigol ac anghritigol yr un fath pan fydd y pellter o amledd canolog y signal DAB yn fwy na 3 MHz.

- Cael gwared ar y meini prawf arfaethedig ar gyfer dyfarnu trwydded, sy'n ffafrio gwasanaethu poblogaethau mawr;
- cyfyngu lefelau pŵer trosglwyddyddion DAB ar raddfa fach i ddim mwy na 100 wat;
- i ddechrau, caniatáu i un trosglwyddydd yn unig gael ei sefydlu ym mhob ardal trwydded, nes byddwn ni'n gwybod mwy am wir effaith yr ymyriant ar sianeli cyfagos; a
- rhoi proses 'saib ac adolygu' ar waith ar ôl dyfarnu'r 20 o drwyddedau cyntaf ar gyfer amlblecsau radio ar raddfa fach. Ni fyddai'r 'saib' hwn yn para am fwy na thri mis, a byddai'n gyfle i asesu gwir efffaith yr ymyriant ar sianeli cyfagos.

5.53 Awgrymodd Future Norfolk Limited y dylai Ofcom ganiatáu i waith gosod gael ei hunanardystio, ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r holl ofynion o ran ymyriant ar sianeli cyfagos ac ymyriant am allan. Awgrymodd Wide FM fod angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran y gofyniad i weithio gyda gweithredwyr amlblecsau eraill, oherwydd y gallai hynny achosi oedi sylweddol gyda gofynion fel tystiolaeth o gytundeb â thrwyddedeion amlblecsau radio eraill ynghylch materion ymyriant ar sianeli cyfagos. (Cafodd y pwyntiau hyn eu codi mewn ymateb i Gwestiwn 5 yr ymgynghoriad, a oedd yn sôn am sut yr oedd Ofcom yn bwriadu asesu cynlluniau technegol ymgeiswyr, ond rydym yn rhoi sylw iddynt yn y fan hon oherwydd eu bod yn berthnasol i'r adran hon).

## Dadansoddiad a chasgliadau

5.54 Rydym yn cydnabod y bydd cyflwyno trosglwyddyddion newydd mewn ardal sydd eisoes yn cael ei gwasanaethu gan wasanaethau DAB eraill, yn gallu effeithio ar dderbyniad y gwasanaethau eraill hynny. Mewn rhai amgylchiadau, mae hyn yn gallu arwain at golli derbyniad yn achos rhai gwasanaethau sy'n agos at y trosglwyddydd newydd – mae hyn yn cael ei alw'n aml yn 'ymyriant ar sianeli cyfagos' (ACI), 'blocio' neu 'torri tyllau'.

5.55 I liniaru'r risg y bydd gwrandawyr yn colli mynediad at wasanaethau sy'n bodoli'n barod, mae Ofcom wedi cyhoeddi Canllawiau[10] ar gyfer trwyddedeion sy'n dymuno rhoi trosglwyddyddion newydd ar yr awyr. Mae'r Canllawiau yn mynnu bod y trwyddedai sy'n cynnig y trosglwyddydd newydd yn dilyn proses asesu effaith a chydweithio, er mwyn dod i gytundeb â thrwyddedeion eraill cyn gofyn am ganiatâd gan Ofcom i roi'r trosglwyddydd newydd ar yr awyr.

5.56 Mae Ofcom yn cydnabod bod y broses hon o gydweithio yn gallu bod yn hir oherwydd nifer y partïon y mae angen ymgynghori â nhw mewn rhai ardaloedd. Mae hefyd yn gallu bod yn anodd i'r partïon hynny gytuno ar gynigion ar gyfer trosglwyddyddion newydd os nad yw'r wybodaeth a roddir iddynt yn cynnwys asesiad digon cadarn, neu os yw'n anghyflawn. Gall y ffactorau hyn arwain at oedi wrth roi trosglwyddyddion newydd ar yr awyr.

5.57 Mae'n bosib y bydd nifer sylweddol o wasanaethau amlblecs radio newydd yn ceisio lansio dros y blynyddoedd nesaf, ac rydym yn deall pam mae Arqiva o'r farn bod angen i effaith hynny ar y gwasanaethau amlblecs radio presennol gael ei rheoli a'i monitro'n ofalus. Rydym hefyd yn sylweddoli ei bod yn bosib na fydd gan y rheini sy'n ymuno â'r farchnad y

[10] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0031/95719/technical-policy-guidance-for-dab-multiplex-licensees.pdf

math o adnoddau na phrofiad sydd gan ddarlledwyr mawr, er mwyn cynnal asesiadau effaith neu i fesur yr effaith.

5.58 Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno y byddai'r mesurau lliniaru penodol a awgrymwyd gan Arqiva yn addas ac yn gymesur i'r risg a nodwyd (nac hyd yn oed yn gallu cael eu rhoi ar waith gan Ofcom, mewn un achos). O ran y meini prawf y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth bwyso a mesur ceisiadau am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, mae'r rhain wedi'u nodi mewn statud ac felly ni all Ofcom eu newid. Sut bynnag, er mwyn defnyddio sbectrwm yn effeithlon a sicrhau cymaint o fuddion â phosib i ddefnyddwyr, rydym ni o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau lefelau uchel o ddarpariaeth yn yr ardaloedd a hysbysebwyd, gan aros o fewn y darpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar y gorgyffwrdd â gwasanaethau amlblecs radio lleol. O ran lefelau pŵer a nifer y lleoliadau ar gyfer trosglwyddyddion, rydym yn poeni y gallai rheolau cyffredinol fel hyn gael effaith niweidiol ar hyfywedd gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, ac yn credu y byddai'n well ystyried y materion hyn ar sail amgylchiadau unigol.

5.59 O ran awgrym Arqiva ynghylch 'saib ac adolygu', mae'r ddeddfwriaeth DAB ar raddfa fach yn dweud bod gan drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach hyd at 18 mis i lansio eu gwasanaeth ar ôl cael y drwydded. Felly, byddai angen i unrhyw saib ffurfiol yn y rhaglen drwyddedu bara am fwy na'r tri mis a awgrymwyd gan Arqiva, er mwyn cynnwys nifer sylweddol o wasanaethau sydd wedi'u lansio. Nid ydym o'r farn bod gohirio'n sylweddol y broses o gyflwyno gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, ac felly'r buddion y bydd hynny yn ei gynnig i wrandawyr radio, yn y ffordd a awgrymwyd yn gymesur i'r mater mae Arqiva wedi'i godi. Fodd bynnag, rydym yn credu bod gwerth i sicrhau bod y broses o ddyfarnu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn dal i gael ei hadolygu'n fewnol, er mwyn asesu i ba raddau mae ein prosesau trwyddedu yn gweithio yn ymarferol o ran ansawdd elfennau technegol y ceisiadau, a'r effaith dechnegol ar drwyddedeion amblecsau presennol wrth i wasanaethau newydd gael eu lansio (gan gynnwys dod i gytundeb ynghylch y trosglwyddyddion newydd, a faint o amser mae'n ei gymryd i ddod i gytundeb). Rydym wedi rhannu'r broses drwyddedu yn rowndiau olynol, er mwyn rhoi cyfle i ni bwyso a mesur y profiad trwyddedu a gwella unrhyw beth ar gyfer rowndiau dilynol fel y bo'n briodol. Os bydd y broses barhaus hon yn awgrymu ei bod yn briodol arafu'r broses ryw fymryn oherwydd bod y gwaith ymarferol o roi hyn ar waith yn anoddach na'r disgwyl, byddem yn ystyried gwneud hynny. Yn yr un modd, efallai y bydd yn bosib cyflymu rowndiau dilynol os bydd y broses o roi hyn ar waith yn mynd yn eithaf llyfn. Mae ein hamserlen ar gyfer cyflwyno hyn yn ddigon hyblyg yn barod i ddelio â'r naill bosibilrwydd neu'r llall. Nid yw'r broses hon o ddysgu o brofiad – sy'n gyffredin ar draws gweithgareddau Ofcom – o reidrwydd yn golygu cynnwys cyfnod saib ffurfiol ni waeth beth fydd y profiad cynnar, fel yr awgrymwyd gan Arqiva.

5.60 Nid yw Ofcom yn bwriadu rhoi baich ychwanegol ar y diwydiant, ac felly byddwn yn ceisio sicrhau nad yw'r broses o drwyddedu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn gwneud hynny. Mae gofalu nad yw unrhyw broses yn hir heb fod angen yn un o'n nodau hefyd. Gan ystyried yr adborth gan randdeiliaid, sydd wedi cael ei grynhoi uchod, byddwn yn gwneud y canlynol:

- egluro safon ac ansawdd yr wybodaeth sydd ei hangen o dan y broses asesu a chydweithio bresennol, wrth asesu'r effaith y gallai trosglwyddydd newydd ei chael ar dderbyniad gwasanaethau presennol;
- cynnal adolygiad mewnol ynghylch agweddau technegol y broses drwyddedu ar ôl iddi gael ei rhoi ar waith, gan gynnwys nifer yr ymgeiswyr, ansawdd y ceisiadau, a'r broses o gydweithio â thrwyddedeion eraill. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn dangos a oes angen i ni addasu gweddill y rhaglen drwyddedu; ac
- ystyried (drwy drafod yn briodol â rhanddeiliaid y diwydiant) sut byddai opsiynau eraill yn hytrach na'r broses bresennol yn gallu gweithio, gyda'r bwriad o leihau'r baich mae'r broses bresennol yn ei rhoi ar drwyddedeion. Os bydd yr ystyriaeth hon yn golygu bod angen i ni ddiwygio'r broses yn ein Canllawiau a'n Cod Technegol Radio Digidol, byddem yn ymgynghori ar y diwygiadau hyn maes o law.

## Materion eraill

5.61 Teimlai Moss Media y gallai diffyg safonau technegol sylfaenol (yn enwedig cyfradd ddidau o ran sain) ar gyfer gwasanaethau rhaglenni nad ydynt yn rhai C-DSP, arwain at effeithiau fel dim rheolaeth gan orsafoedd dros ansawdd y sain maen nhw'n ei chreu; y gallai sain o ansawdd wael arwain at leihau nifer y gwrandawyr; ac y gallai ansawdd y sain amrywio'n fawr rhwng gwahanol amlblecsau. Awgrymodd y dylai Ofcom ystyried cynyddu'r gyfradd ddidau sylfaenol ar gyfer C-DSP, a phennu uchafswm y gwasanaethau DAB+ y gellir eu cludo.

5.62 Gan y byddai angen rhwydweithiau un amledd ar gyfer yr ardaloedd polygon tybiannol, teimlai Digilink LLP y dylai telemetreg a chyfeirnodau amser sy'n seiliedig ar loeren fod yn ofynnol er mwyn atal 'torri tyllau' ac ymyriant ar sianeli cyfagos. Awgrymodd Digilink hefyd y dylid rhoi manylebau sylfaenol ar waith ar gyfer offer trosglwyddydd a chysylltedd, a dywedodd nad oedd sicrwydd y byddai cefnogaeth i systemau trawsyrru ar 'radio digidol agored'. Dywedodd hefyd y dylai Ofcom ystyried cyhoeddi rhestr o sefydliadau cymorth a gosodwyr cymeradwy.

5.63 Nid ydym yn cytuno y dylai'r materion hyn gael eu rheoleiddio na'u nodi'n benodol. Mae Ofcom wedi rhoi'r gorau i bennu cyfraddau didau sain sylfaenol ar gyfer gwasanaethau DAB ers tro10F11, ac nid ydym yn credu bod dadl gref dros eu hailgyflwyno ar gyfer DAB ar raddfa fach. Yn ail, rydym ni o'r farn mai'r diwydiant ei hun sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu neu i ddewis offer trosglwyddydd (a gwasanaethau cysylltiedig) a fydd yn bodloni anghenion y sector DAB ar raddfa fach gystal â phosib. Byddai nodi trefniadau technegol penodol ar gyfer trawsyrru, dosbarthu signal neu fath o offer yn gallu arwain at ganlyniadau niweidiol, fel prisiau uwch am dechnolegau penodol. Yn ein barn ni, byddai hynny'n llesteirio arloesedd yn y sector newydd hwn o fewn y diwydiant radio. Hefyd, yn ein barn ni, ni fyddai amodau o'r fath yn cyd-fynd ag ysbryd y gofyniad yn y ddeddfwriaeth alluogi – sef y dylai gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach gyrraedd safonau 'rhesymol' o ran

[11] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/63065/statement.pdf

ansawdd technegol (yn hytrach na’r safonau ‘uchel’ o ran ansawdd technegol sy’n ofynnol i wasanaethau amlblecs radio lleol a chenedlaethol).

# 6. Trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach: amodau a gofynion

6.1 Yn yr ymgynghoriad nodwyd bod y Gorchymyn, mewn sawl ffordd allweddol, yn rhoi Deddf Darlledu 1996 ar waith heb addasiadau. Felly, roeddem yn cynnig cynnwys amodau trwydded safonol sy'n debyg iawn i'r rheini sydd wedi cael eu cynnwys mewn trwyddedau amlblecs radio lleol a chenedlaethol sy'n bodoli'n barod.

6.2 Fodd bynnag, mae rhai elfennau o Ddeddf 1996 wedi cael eu haddasu gan y Gorchymyn, neu lle mae ystyriaethau ychydig yn wahanol yn berthnasol i drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach.

6.3 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny ac, yn benodol, ar ymatebion i un o gwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch ein ffordd o bennu lefelau'r capasiti sydd wedi'i neilltuo (reserved capacity) ar gyfer gwasanaethau C-DSP ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.

## Cymhwysedd a chyfyngiadau ar berchnogaeth

### Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

6.4 Roedd yr ymgynghoriad yn crynhoi'r gwahanol gyfyngiadau ychwanegol a oedd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth o ran cymhwysedd a pherchnogaeth sy'n berthnasol i drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach (ac felly na all Ofcom eu newid wrth weithredu trefn drwyddedu).

6.5 Mae un o'r cyfyngiadau perchnogaeth yn rhwystro corff corfforaethol rhag cael mwy nag un drwydded amlblecs radio ar raddfa fach, os yw ardaloedd y ddarpariaeth yn gor-gyffwrdd yn sylweddol ag ardal ddarpariaeth yr un gwasanaeth amlblecs radio lleol. Mae'r ddeddfwriaeth yn golygu bod Ofcom yn cael pennu beth sy'n orgyffwrdd "sylweddol". Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn cynnig ystyried bod achos o orgyffwrdd yn un "sylweddol" pe-tai'n golygu bod trwyddedai yn torri'r lefel gorgyffwrdd o 40% o'r boblogaeth gyda'r gwasanaeth amlblecs radio lleol dan sylw, neu'n cynyddu'r ddarpariaeth uwchlaw'r lefel honno.

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

6.6 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn dadlau bod y cyfyngiadau statudol ar berchnogaeth trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn cyfyngu'n ormodol ac y byddai hynny, gyda'r cyfyngiad 40% ar orgyffwrdd â'r gwasanaethau amlblecs radio lleol presennol, yn rhwystro gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach rhag gallu cystadlu'n effeithiol â'r gwasanae-thau amlblecs radio lleol presennol. Dywedodd DC Thomson, er enghraifft, fod ardaloedd trawsyrru llawer o orsafoedd masnachol analog lleol sydd o dan berchnogaeth annibynnol yn fwy o lawer nag ardaloedd trwyddedig y gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach

arfaethedig. Dywedodd hefyd fod hyn yn amlwg yn annheg wrth ystyried holl berchnogaeth deiliaid amlblecsau DAB presennol.

6.7 Cafwyd rhai sylwadau gan ymatebwyr ynghylch sut mae Ofcom yn bwriadu dehongli beth yw ystyr “sylweddol” yng nghyd-destun y gorgyffwrdd rhwng mwy nag un gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach sydd o dan yr un berchnogaeth, a gwasanaeth amlblecs radio lleol presennol (gweler paragraff 6.5 uchod). Er enghraifft, roedd A12 Radio yn gofyn i Ofcom ddehongli hyn yn hyblyg, gan ystyried amgylchiadau lleol. Yn ôl A12 Radio bydd yn haws sefydlu a gweithredu amlblecsau ar raddfa fach drwy wneud arbedion maint a rhannu adnoddau rhwng amlblecsau cyfagos, gan gynnwys rhywfaint o berchnogaeth gyffredin... Roedd yn nodi y bydd angen cludo mewn mwy nag un ardal polygon o bosib er mwyn efelychu darpariaeth gorsafoedd radio masnachol llai, ond na fyddai modd i’r un endid weithredu’r amlblecsau hyn mewn rhai achosion os bydd y terfyn 40% yn cael ei ddefnyddio’n llym. Dywedodd y gallai hyn fod yn rheswm i orsafoedd masnachol llai beidio â buddsoddi yn yr amlblecsau newydd na’u cefnogi.

6.8 Gan nodi cymhlethdod cymharol y cyfyngiadau perchnogaeth a nodwyd yn y ddeddfwriaeth, dywedodd Wireless y dylai Ofcom gynnig arweiniad cynhwysfawr ar y pwnc hwn cyn dechrau trwyddedu DAB ar raddfa fach.

## Dadansoddiad a chasgliadau

6.9 Nid ydym yn rhoi sylw uniongyrchol yn y datganiad hwn i’r feirniadaeth o’r cyfyngiadau perchnogaeth statudol, oherwydd mae’r cyfyngiadau dan sylw wedi’u cynnwys yn yr isddeddfwriaeth a basiwyd gan y Senedd, ac felly ni all Ofcom fynd ati i’w haddasu ei hun.

6.10 O ran ein dehongliad o beth mae gorgyffwrdd “yn sylweddol” yn ei olygu, rydym ni’n dal o’r farn y dylid darllen y cyfyngiad penodol hwn ochr yn ochr â’r gofyniad mwy cyffredinol yn y Gorchymyn na ddylai’r gorgyffwrdd rhwng ardal drwyddedig un gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, ac ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio lleol sy’n bodoli’n barod, effeithio ar fwy na 40% fel arfer o gyfanswm y boblogaeth sy’n cael darpariaeth gan y gwasanaeth amlblecs radio lleol hwnnw. Mae ein ffordd o weithredu yn eithaf hyblyg, gan nad yw’n rhwystro corff corfforaethol rhag dal mwy nag un drwydded lle mae ardal y ddarpariaeth yn gorgyffwrdd â’r un gwasanaeth amlblecs radio lleol. Ond, mae hefyd yn rhoi sylw priodol i ddiben y ddeddfwriaeth, sef cyflwyno trothwy 40% ar gyfer gorgyffwrdd er mwyn atal gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach rhag dyblygu ardaloedd darpariaeth gwasanaethau amlblecs radio lleol mwy. Y rheswm am hynny yw bod y Llywodraeth ac Ofcom wedi ystyried o’r dechrau y byddai DAB ar raddfa fach yn ategu DAB lleol, yn hytrach nag yn gystadleuydd uniongyrchol iddo.

6.11 I ddefnyddio enghraifft ddamcaniaethol, mae sawl ffordd y gallai’r un corff corfforaethol ddal mwy nag un drwydded amlblecs radio ar raddfa fach yn yr ardal ddaearyddol sy’n cael darpariaeth gan wasanaeth amlblecs radio lleol Plymouth a Chernyw. Y rheswm am hyn yw na fyddai mwy na 40% o orgyffwrdd â gwasanaeth amlblecs radio lleol Plymouth a Chernyw, fel y dangosir yn y tabl isod:

| Trwydded/Polygon DAB ar raddfa fach | Amlblecs Lleol | % y gorgyffwrdd | Enghreifftiau o berchnogaeth gan un gweithredwr a ganiateir | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynysoedd Scilly | Plymouth a Chernyw | 1 | O dan berchnogaeth | O dan berchnogaeth | O dan berchnogaeth |
| Newquay, St Austell a Truro | Plymouth a Chernyw | 17 | O dan berchnogaeth | Ddim o dan berchnogaeth | Ddim o dan berchnogaeth |
| Falmouth, Penzance a Redruth | Plymouth a Chernyw | 25 | Ddim o dan berchnogaeth | O dan berchnogaeth | Ddim o dan berchnogaeth |
| Dwyrain Cernyw | Plymouth a Chernyw | 20 | O dan berchnogaeth | Ddim o dan berchnogaeth | Ddim o dan berchnogaeth |
| Plymouth | Plymouth a Chernyw | 37 | Ddim o dan berchnogaeth | Ddim o dan berchnogaeth | O dan berchnogaeth |
| Cyfanswm canran o'r berchnogaeth | | | 38% | 26% | 38% |

6.12 Wrth ystyried cymhlethdod y cyfyngiadau perchnogaeth statudol, a'r ffaith ein bod am annog ystod o ymgeiswyr i gystadlu am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, yn y Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer hysbysebion y trwyddedau amlblecs rydym yn bwriadu cyhoeddi rhagor o fanylion ynghylch y cyfyngiadau perchnogaeth a chymhwysedd sy'n berthnasol i ddal trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach. Fodd bynnag, ni ddylai ymgeiswyr posib ddefnyddio'r nodiadau hynny yn lle cael cyngor cyfreithiol eu hunain ar y materion hyn.

## Capasiti wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau C-DSP

### Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

6.13 Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod trwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach yn neilltuo capasiti darlledu ar gyfer o leiaf dri gwasanaeth C-DSP. Wrth bennu lefel y capasiti wedi'i neilltuo ar gyfer pob darpar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, roeddem yn cynnig ystyried y dystiolaeth o'r galw yn yr ardal ddaearyddol gan sylw, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny) lefel y galw a fynegir gan wahanol fathau o ddarparwyr gwasanaeth (gan gynnwys yn y broses datgan diddordeb a gynhaliwyd

yn 2018); nifer y gorsafoedd radio cymunedol analog presennol sydd â thrwydded (er nad yw pob un ohonynt o reidrwydd ar yr awyr); nifer y gorsafoedd radio masnachol bach sy'n darlledu ar analog (ond ddim ar DAB lleol) yn ardal drwyddedig y darpar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach; ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennym am y galw tebygol gan wasanaethau o'r fath. Roeddem yn dweud hefyd y byddem yn ystyried yr angen i sicrhau hyfywedd ariannol y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach.

6.14 Wrth ystyried faint o gapasiti y mae'n rhaid i drwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach ei neilltuo, roeddem ni'n cynnig y dylid cyfrifo hynny ar y sail ei bod yn rhaid i bob gwasanaeth C-DSP allu darlledu ei wasanaeth ar gyfradd o 48 kdid yr eiliad o leiaf gan ddefnyddio safon DAB+.

6.15 Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach wneud cais i Ofcom er mwyn newid faint o gapasiti y mae angen ei neilltuo, os ydynt wedi bod yn darparu'r gwasanaeth ers o leiaf dair blynedd. Fodd bynnag, dim ond os yw'r capasiti heb gael ei ddefnyddio y gall Ofcom dderbyn cais o'r fath; ac os yw'r trwyddedai wedi cymryd camau rhesymol i ddod o hyd i bartïon sydd â diddordeb mewn defnyddio'r capasiti wedi'i neilltuo, wedi gweithredu'n ddidwyll wrth gynnig llunio contract gyda'r partïon, ac os yw'n annhebygol y bydd y capasiti yn cael ei ddefnyddio am weddill cyfnod y drwydded.

6.16 Wrth asesu a yw trwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach wedi bodloni'r gofynion hyn, roeddem yn cynnig y byddai angen i ni weld tystiolaeth gan y trwyddedai ei fod wedi mynd ati (yn ddiweddar) i gysylltu â'r holl ddeiliaid trwyddedau C-DSP a thrwyddedeion radio cymunedol analog yn ardal ddarlledu'r amlblecs i sicrhau nad ydynt yn dymuno darlledu gwasanaeth ar yr amlblecs, naill ai ar hyn o bryd neu yn y dyfodol agos. Fe ddywedom y byddem yn disgwyl telerau mwy ffafriol i raglenni sain digidol cymunedol ar gyfer defnyddio capasiti wedi'i neilltuo nad yw'n cael ei ddefnyddio, na'r telerau ar gyfer capasiti sydd heb ei neilltuo, ac y byddent yn adlewyrchu ymgais wirioneddol i lenwi'r capasiti wedi'i neilltuo sydd ar gael.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â dull arfaethedig Ofcom ar gyfer gosod y lefel o gapasiti wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau C-DSP ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach?**

6.17 O blith y 121 a oedd wedi ymateb i'r mater hwn, roedd y mwyafrif (91) yn cytuno, neu'n cytuno yn gyffredinol, â'n dull arfaethedig. Roedd 18 yn anghytuno (roedd eraill yn niwtral).

6.18 Wrth benderfynu ar nifer y gwasanaethau C-DSP y dylid neilltuo capasiti ar eu cyfer ar bob gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, roedd rhai ymatebwyr yn dweud ei bod yn rhaid i Ofcom sicrhau bod digon o gapasiti ar gyfer o leiaf nifer y gorsafoedd radio cymunedol sy'n darlledu ar analog yn yr ardal ar hyn o bryd. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni mai'r capasiti neilltuedig sylfaenol sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth (h.y. capasiti ar gyfer tri gwasanaeth C-DSP) fydd y drefn arferol, beth bynnag fo nifer y gwasanaethau radio

cymunedol analog yn y farchnad sydd ar yr awyr mewn gwirionedd. Er enghraifft, dywedodd Blast FM y byddai’n fwy addas petai Ofcom yn pennu capasiti neilltuedig sylfaenol sy’n cyfateb i nifer y gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi’u trwyddedu mewn ardal gan ychwanegu 3 ar ben y nifer hwnnw, er mwyn rhoi’r cyfle i’r sector ddatblygu yn y dyfodol.

6.19 Roedd y Gymdeithas Darlledu mewn Ysbytai yn dadlau y dylai Ofcom hefyd ystyried nifer y gorsafoedd radio ysbyty yn yr ardal yn ogystal â nifer y gwasanaethau radio cymunedol analog sy’n darlledu mewn ardal gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach. Y rheswm am hynny yw nad oes gan y mwyafrif11F12 o wasanaethau radio ysbyty drwyddedau radio cymunedol analog, er bod gan ychydig ohonynt drwydded o’r fath, ac mae’r Gymdeithas Darlledu mewn Ysbytai yn disgwyl y bydd diddordeb mawr mewn DAB ar raddfa fach ymysg y sector radio ysbyty dros y blynyddoedd nesaf.

6.20 Roedd rhai ymatebwyr yn credu na ddylai Ofcom ystyried y datganiadau o ddiddordeb a ddaeth i law yn dilyn ein cais yn 2018. Er enghraifft, roedd Niocast yn honni y byddai ystyried datganiadau o ddiddordeb “damcaniaethol” yn golygu bod gan rai gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach fwy o gapasiti wedi’i neilltuo nag sydd angen, a’i bod yn bosib na fyddai’r capasiti hwnnw’n cael ei werthu am y cyfnod sylfaenol o dair blynedd, gan danseilio hyfywedd nifer o amlblecsau ar raddfa fach yn ystod blynyddoedd ffurfiannol allweddol.

6.21 Ar y llaw arall, roedd nifer fach o ymatebwyr o’r farn y dylai Ofcom wahodd “datganiadau o ddiddordeb” newydd cyn hysbysebu pob swp o drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach. Fodd bynnag, roedd llawer mwy o’r ymatebwyr yn cytuno ag Ofcom y byddai hyn yn feichus o safbwynt gweinyddol, ac yn arwain at oedi wrth gyflwyno DAB ar raddfa fach.

6.22 Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Radiocentre, yn croesawu ein cynnig i ystyried nifer y gorsafoedd radio masnachol bach sy’n darlledu yn yr ardal wrth bennu lefelau’r capasiti i’w neilltuo (er mwyn sicrhau bod lle ar yr amlblecsau i’r rheini sy’n dymuno darparu gwasanaethau radio masnachol gan ddefnyddio trwyddedau DSP). Awgrymodd Radiocentre y dylid defnyddio’r isafswm o dri gwasanaeth C-DSP yn gyffredinol fel y nifer ddiofyn o slotiau i’w neilltuo. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid cytuno ar unrhyw amrywiad sy’n cynnig cynyddu’r capasiti neilltuedig uwchlaw’r lefel hon, pan fydd yr ymgeisydd wedi dangos y galw presennol ar hyn o bryd.

6.23 Roedd Sunrise FM (Bradford) yn dadlau y dylai gorsafoedd radio masnachol lleol bach gael yr hawl hefyd i elwa o gapasiti wedi’i neilltuo ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, tra bo DC Thomson yn teimlo y dylai Ofcom – mewn ysbryd o degwch – neilltuo capasiti ar gyfer gorsafoedd radio masnachol bach ar wasanaethau amlblecs radio lleol (yn hytrach na rhai ar raddfa fach). Fodd bynnag, nid yw’r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i Ofcom weithredu ar unrhyw un o’r awgrymiadau hyn oherwydd dim ond deiliaid trwydded C-DSP sy’n gallu cael mynediad at gapasiti wedi’i neilltuo ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, a does dim gofyniad cyfreithiol ar gyfer ‘capasiti wedi’i neilltuo’

[12] Mae llawer o wasanaethau radio ysbyty yn cael eu trwyddedu gan Ofcom o dan Drwyddedau Gwasanaeth Cyfyngedig tymor hir.

ar wasanaethau amlblecsau radio lleol y tu hwnt i hynny ar gyfer gwasanaethau radio'r BBC yn lleol ac yn genedlaethol.

6.24 Roedd Niocast a rhai ymatebwyr eraill yn galw ar Ofcom i wneud datganiad cliriach am y meini prawf mae'n bwriadu eu defnyddio i bennu lefelau'r capasiti sydd wedi'i neilltuo ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, gan fod hyn mor bwysig i'r sector.

6.25 Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod cynigion Ofcom i bennu cyfradd ddidau sylfaenol (48 kdid yr eiliad gan ddefnyddio DAB+), ar gyfer gwasanaethau C-DSP sy'n defnyddio capasiti wedi'i neilltuo, yn rhy ragnodol; yn hytrach na hynny, dylai trwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach allu pennu cyfraddau didau'r gwasanaethau hyn eu hunain. Yn y cyfamser, awgrymwyd y gallai cyfradd ddidau sylfaenol olygu bod deiliaid trwydded C-DSP yn gorfod talu am gapasiti nad oes ei angen arnynt mewn gwirionedd, ac nad ydynt yn dymuno talu amdano.

6.26 Yn ôl Nation Broadcasting, nid yw'r broses o bennu cyfradd ddidau sylfaenol yn ystyried y gadwyn drawsyrru ei hun. Roedd yn honni bod cyfraddau didau is na 48 kdid yr eiliad (gan ddefnyddio DAB+) yn gallu darparu sain o ansawdd derbyniol i'r gwrandäwr – gan ddibynnu ar ffactorau fel gosodiad y stiwdio, cyfraniad (y cylch o bob un o leoliadau ffynhonnell y gwasanaethau rhaglenni i leoliad yr offer amlblecs) a'r math o amgodydd a ddefnyddir. Ychwanegodd Nation Broadcasting: Byddai caniatáu cyfraddau didau is na 48 kdid yr eiliad yn golygu y byddai mwy o wasanaethau'n gallu cael eu darparu'n gyffredinol ar yr amlblecs mewn ardaloedd â phoblogaeth uchel, ac y byddai amrywiaeth gryfach o ddarlledwyr llai yn gallu cael mynediad at DAB yn sgil hynny.

6.27 Teimlai ymatebwyr, gan gynnwys Bristol Digital Radio ac U.DAB, y dylid mesur y capasiti neilltuedig o ran unedau capasiti yn hytrach na chyfraddau didau. Roedd y rhesymau a roddwyd dros hyn yn cynnwys yr angen am lefelau uwch o warchodaeth, sy'n defnyddio mwy o unedau capasiti, mewn rhai amgylcheddau; a'r gallu i gael mwy o wasanaethau. Awgrymodd Bristol Digital Radio hefyd y gallai trwyddedau gynnwys cymal sy'n atal gweithredwr yr amlblecs rhag pennu sut mae'n rhaid i orsaf radio cymunedol ddyrannu'r gyllideb ddidau a brynwyd rhwng ansawdd y sain (cyfradd ddidau) a gwarchodaeth.

6.28 Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am y posibilrwydd na fyddai capasiti amlblecs yn cael ei ddefnyddio os byddai llai na thri gwasanaeth C-DSP yn darlledu ar amlblecs, neu os byddai un neu fwy o'r gwasanaethau C-DSP ar yr amlblecs yn dewis peidio â defnyddio eu dyraniad o'r gyfradd ddidau yn llawn. Er enghraifft, mynegodd Niocast bryderon na fyddai cael llawer iawn o gapasiti neilltuedig nad yw'n cael ei ddefnyddio yn helpu i sicrhau hyfywedd y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, sy'n bwysig i bob darlledwr – gan gynnwys trwyddedeion C-DSP eu hunain. Pan fyddai trwyddedai C-DSP yn cludo, ond yn gwrthod defnyddio'r holl ddyraniad 48 kdid yr eiliad sydd wedi'i neilltuo (DAB+), dywedodd A12 Radio y byddai'n dadlau bod pwrpas y polisi cyhoeddus – cludo'r gwasanaeth hwnnw – felly wedi cael ei gyflawni, ac y gall y capasiti heb ei ddefnyddio gael ei ddarparu'n syth i wasanaethau eraill er mwyn cynnig cymaint o ddewis â phosib i wrandawyr.

6.29 Er mwyn gallu cael mynediad at y capasiti wedi'i neilltuo ar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni wneud cais am drwydded C-

DSP sy'n benodol i'r amlblecs penodol hwnnw. Bydd trwydded C-DSP yn cynnwys ymrwymiadau i gynnig buddion cymdeithasol sy'n ymwneud â'r ardal leol a wasanaethir. Bwriad hyn yw sicrhau bod unrhyw wasanaeth rhaglenni sy'n defnyddio capasiti wedi'i neilltuo (hyd yn oed os yw'n wasanaeth ar gyfer "cymuned fuddiant") yn un sydd wir wedi'i wreiddio yn y gymuned leol. Felly, mae'n golygu na ellir defnyddio un drwydded C-DSP i ddarlledu gwasanaeth rhaglenni ar gapasiti wedi'i neilltuo ar fwy nag un amlblecs. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol, yn dadlau bod cyfyngu'r defnydd o drwydded C-DSP i gapasiti neilltuedig un gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach – fel y dywedodd Future Digital Norfolk – yn gyfyngol heb fod angen, ac yn simsan yn economaidd. Fodd bynnag, mae'r gofyniad hwn wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth, felly nid oes gan Ofcom y pŵer i'w newid.

6.30 Roedd Radio Verulam yn dadlau na fydd gan wasanaethau radio cymunedol analog, sydd hefyd yn gweithredu'r gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach yn y gymuned lle maent wedi'u lleoli, unrhyw gymhelliant i wneud cais am drwydded C-DSP. Y rheswm am hyn yw y byddai'r cwmni, fel gweithredwr yr amlblecs, yn gallu gwarantu bod ei wasanaeth rhaglenni ei hun yn cael eu cludo fel trwyddedai DSP, gan gadw'r gallu hefyd i wneud cais am grantiau gan y Gronfa Radio Cymunedol o dan ei drwydded radio cymunedol analog.

## Dadansoddiad a chasgliadau

6.31 Nodwn fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n dull arfaethedig ar gyfer neilltuo capasiti ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.

6.32 O ystyried rhai o'r gwahaniaethau rhwng gwahanol farchnadoedd radio ar draws y DU, o ran pennu lefelau'r capasiti neilltuedig ar gyfer pob trwydded amlblecs radio ar raddfa fach, rydym yn dymuno cadw digon o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau lleol, gan fod yn glir ac yn agored ynghylch y ffactorau y byddwn yn eu hystyried bob amser wrth benderfynu ar lefelau'r capasiti neilltuedig.

6.33 Rydym yn deall rhesymeg y cais gan lawer o ymatebwyr y dylai capasiti neilltuedig gyfateb bob amser i (o leiaf) nifer y gwasanaethau radio cymunedol analog yn y farchnad o fewn ardal gwasanaeth tybiedig yr amlblecs radio ar raddfa fach. Fodd bynnag, er y byddai'n ddelfrydol gallu cynnig digon o gapasiti neilltuedig i ddarparu ar gyfer yr holl wasanaethau hynny a sicrhau lle i gael gwasanaethau ychwanegol yn y dyfodol, mae angen i ni hefyd ystyried – fel y nodir yn ein hymgynghoriad, ac fel y mae llawer o'r ymatebwyr hefyd wedi cydnabod – hyfywedd ariannol cyffredinol y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach. Mae angen i ni hefyd sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i orsafoedd masnachol lleol bach allu darlledu ar yr amlblecs, gan mai pwrpas DAB ar raddfa fach oedd galluogi'r gwasanaethau hyn, yn ogystal â gwasanaethau radio cymunedol, i gael llwybr at DAB. Yn olaf, byddem yn dweud bod gan Ofcom – wrth adnewyddu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach – y gallu o dan adran 58(4)(c) o Ddeddf 1996 fel y mae wedi'i haddasu gan y Gorchymyn, i ddiweddaru'r capasiti a neilltuir ar gyfer gwasanaethau C-DSP.

6.34 Nodwn amrywiaeth y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch i ba raddau y dylem ystyried y datganiadau blaenorol o ddiddordeb a gyflwynwyd i Ofcom, ynghylch darlledu gwasanaethau rhaglenni ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Rydym yn derbyn bod y broses hon (a gafodd ei dylunio'n bennaf i'n helpu i gynllunio'r sbectrwm ar gyfer DAB ar raddfa fach) yn gyfyngedig, a'i bod yn anochel y bydd yr wybodaeth yn dod yn llai dibynadwy wrth i amser fynd rhagddo. Serch hynny, rydym ni'n dal o'r farn bod y datganiadau o ddiddordeb a gawsom yn 2018 yn gallu bod yn ddefnyddiol i roi syniad o'r galw, yn enwedig mewn rhannau o'r wlad lle mae argaeledd sbectrwm analog wedi bod yn gyfyngedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, dim ond un ffactor yw'r datganiadau o ddiddordeb ymysg llawer o ffactorau eraill y byddwn ni'n eu hystyried, gan gynnwys – fel y nodwyd uchod – hyfywedd ariannol posib gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach.

6.35 Nid ydym ni o'r farn y byddai'n briodol i Ofcom ystyried y gofyniad yn y ddeddfwriaeth i neilltuo capasiti ar gyfer o leiaf dri gwasanaeth C-DSP fel y "drefn ddiofyn" i'r rhan fwyaf o wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach. Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan yn glir y dylid ystyried hyn fel y lefel sylfaenol statudol, a thu hwnt i hynny bydd Ofcom yn ystyried yn ofalus y gwahanol ffactorau ym mhob marchnad rydym wedi dweud y byddwn yn eu hystyried.

6.36 Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi gofyn am fwy o eglurder ynghylch y ffactorau y byddwn ni'n eu hystyried wrth bennu lefelau'r capasiti neilltuedig. Yn benodol, nodwyd yn yr ymgynghoriad y byddai Ofcom, yn ogystal ag ystyried yr holl ffactorau a restrir ym mharagraff 6.13 (uchod), yn ystyried hefyd "unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennym ar y galw tebygol am wasanaethau o'r fath". Gallwn gadarnhau y byddai hyn yn cynnwys unrhyw arwyddion clir i Ofcom o ddiddordeb mewn cynnal gwasanaethau C-DSP mewn ardaloedd daearyddol penodol yn dilyn yr arwyddion o ddiddordeb a gafodd Ofcom yn sgil ein gwahoddiad i ddatgan diddordeb yn 2018. Rydym yn cydnabod mai cipolwg o'r galw ar y pryd oedd yr ymarfer yn 2018, a oedd yn ddefnyddiol i Ofcom wrth gynllunio sbectrwm ond a allai ddatblygu dros y blynyddoedd.

6.37 O ran ein cynnig i bennu cyfradd ddidau sylfaenol (48 kdid yr eiliad gan ddefnyddio DAB+) ar gyfer pob gwasanaeth C-DSP sy'n defnyddio capasiti wedi'i neilltuo, rydym yn deall dyhead darpar drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach i allu rheoli eu hamlblecsau mor effeithlon â phosib drwy ddefnyddio'r holl gapasiti sydd ar gael ar yr amlblecs, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae galw mawr. Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn y dylai fod gan drwyddedeion C-DSP hawl i gael digon o gapasiti neilltuedig i sicrhau bod eu gwasanaeth rhaglenni ar gael i wrandawyr mewn sain sydd o ansawdd derbyniol ym marn Ofcom, gan gynnwys defnyddio stereo – sef o leiaf 48 kdid yr eiliad (DAB+) yn ôl ein diffiniad ni.

6.38 Rydym yn ymwybodol nad yw rhai trwyddedeion C-DSP o bosib yn dymuno defnyddio'r holl gapasiti neilltuedig – sef 48 kdid yr eiliad – ac rydym yn cytuno â'r trwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach bod swm llai yn ddigon i sicrhau ansawdd digonol wrth ystyried eu cyllideb. Fodd bynnag, mae'n bwysig dweud nad yw hyn yn golygu y bydd lefel y capasiti neilltuedig ar gyfer pob gwasanaeth C-DSP ar yr amlblecs yn lleihau yn unol â hynny. Yn gyntaf, byddai hyn yn creu cymhelliant masnachol cryf i drwyddedeion amlblecs radio ar

raddfa fach wthio trwyddedeion C-DSP i gyfradd ddidau sydd efallai yn is na'r safon er mwyn rhyddhau sbectrwm neilltuedig, a fyddai wedyn yn gallu cael ei ddarparu am bris uwch i drwyddedeion DSP. Yn ail, pe bai gwasanaeth C-DSP sy'n defnyddio llai na 48 kdid yr eiliad yn gadael gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach yn y dyfodol, mae'n bosib y byddai lefel y capasiti a fyddai ar gael yn llai na'r hyn y byddai ei angen yn rhesymol ar wasanaeth newydd er mwyn darparu sain o ansawdd boddhaol. Nid yw hyn yn golygu na fyddai'r capasiti "dros ben" yn cael ei ddefnyddio petai gwasanaeth C-DSP yn cytuno ar raddfa ddidau is. Er enghraifft, efallai y byddai'n ddigon i ddarparu gwasanaeth C-DSP ychwanegol uwchlaw'r lefel sylfaenol sy'n angenrheidiol o fewn y capasiti neilltuedig (efallai y bydd gwasanaeth ychwanegol o'r fath yn defnyddio rhywfaint o gapasiti wedi'i neilltuo a rhywfaint o gapasiti sydd heb ei neilltuo).

6.39 Rydym yn sylweddoli y bydd rhai trwyddedeion C-DSP yn dymuno darlledu gan ddefnyddio'r safon DAB 'wreiddiol' o bosib, yn hytrach na DAB+. Yn adran 5 y ddogfen hon, rydym wedi egluro na fyddwn yn gweithredu ein cynnig gwreiddiol i orfodi DAB+ ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach ar hyn o bryd. Rydym wedi ystyried a ddylem gynyddu'r capasiti neilltuedig yn sgil y penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, er nad ydym yn mynnu bod DAB+ yn cael ei ddefnyddio – fel y nodir yn adran 5 – mater i drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach unigol yw penderfynu a ydynt am ddarparu gwasanaethau gan ddefnyddio'r safon DAB wreiddiol ai peidio. Mae tuedd i symud tuag at DAB+ sy'n fwy effeithlon o ran sbectrwm, yn wyneb ystyriaethau capasiti a'r newid mewn cydbwysedd rhwng nifer y setiau radio DAB+ mwy newydd a'r hen setiau radio. Am resymau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd sbectrwm, nid ydym yn credu bod achos i gynyddu'r capasiti neilltuedig y tu hwnt i'r gyfradd arfaethedig o 48 kdid yr eiliad fesul gwasanaeth, sy'n ddigon o gapasiti i ddarlledu gwasanaeth cerddoriaeth drwy stereo gan ddefnyddio DAB+. Mae hyn hefyd yn ystyried yr angen i wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach fod yn hyfyw, a chostau i ddarparwyr gwasanaeth DSP. Wrth fynnu bod digon o gapasiti wedi'i neilltuo i ddarparu ar gyfer tri neu fwy o wasanaethau ar y safon DAB wreiddiol, byddai'n rhaid neilltuo dros ddwywaith gymaint o gapasiti ar bob gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, gan leihau'r capasiti sydd ar gael i eraill. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd yn rhaid i'r holl wasanaethau C-DSP sy'n defnyddio capasiti wedi'i neilltuo ddefnyddio codecs DAB+ wrth ddarlledu. Byddai ganddynt ryddid i geisio trafod cludo gyda chapasiti digonol er mwyn gallu darlledu gan ddefnyddio'r safon DAB wreiddiol (fel arfer, 112 kdid yr eiliad ar gyfer gwasanaeth cerddoriaeth stereo), ond gallai hyn olygu prynu 48 kdid yr eiliad o gapasiti wedi'i neilltuo a'r gweddill o gapasiti heb ei neilltuo. Fodd bynnag, byddai ganddynt fynediad at o leiaf 48 kdid yr eiliad o gapasiti wedi'i neilltuo os oes gan y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach dan sylw lai na'r nifer sylfaenol o wasanaethau C-DSP eisoes yn defnyddio'r capasiti hwnnw.

6.40 Dylid pwysleisio mai unig bwrpas capasiti wedi'i neilltuo, fel y mynnir o dan y ddeddfwriaeth, yw darlledu gwasanaethau C-DSP, felly ni all gwasanaethau rhaglenni eraill ei ddefnyddio o gwbl – hyd yn oed dros dro. I egluro sut caiff hyn ei ymgorffori mewn trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, lle mae angen trwydded amlblecs radio ar raddfa fach i neilltuo capasiti ar gyfer tri gwasanaeth C-DSP:

- os nad oes gan yr amlblecs wasanaethau C-DSP ar hyn o bryd, rhaid iddo gadw 144 kdid yr eiliad (48 kdid yr eiliad x 3) o gapasiti yn wag ac yn barod ar gyfer tri gwasanaeth C-DSP bob amser;
- os oes gan yr amlblecs un gwasanaeth C-DSP sy'n darlledu ar gyfradd ddidau o 48 kdid yr eiliad neu uwch ar hyn o bryd, rhaid iddo sicrhau bod ganddo 96 kdid yr eiliad (48 kdid yr eiliad x 2) yn wag ac yn barod; ac
- os oes gan yr amlblecs ddau wasanaeth C-DSP sy'n darlledu ar gyfradd ddidau o 48 kdid yr eiliad neu uwch, rhaid iddo sicrhau bod ganddo 48 kdid yr eiliad yn wag ac yn barod.

6.41 Fel y nodwyd eisoes, os yw gwasanaeth C-DSP unigol yn dymuno defnyddio llai na 48 kdid yr eiliad, bydd gweddill y capasiti wedi'i neilltuo yn dal yn gorfod cael ei gadw'n rhydd. Hynny yw, yn yr enghraifft uchod, os dim ond un gwasanaeth C-DSP sy'n darlledu ar gyfradd ddidau o 30 kdid yr eiliad ar hyn o bryd yn yr amlblecs, rhaid i'r amlblecs sicrhau bod ganddo 114 kdid yr eiliad (48 kdid yr eiliad x 2, yn ogystal â'r 18 kdid yr eiliad "sbâr") yn wag ac yn barod.

6.42 Roeddem hefyd yn ymwybodol o sylwadau ymatebwyr ynghylch y gwahanol ffyrdd o fesur capasiti wedi'i neilltuo (h.y. drwy gyfraddau didau neu 'unedau capasiti'), a'r materion sy'n ymwneud ag amrywiadau posib mewn lefelau gwarchod. Felly, byddwn yn pennu lefel y capasiti neilltuedig ar gyfer pob gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach o ran cyfraddau didau ac unedau capasiti, gydag unedau capasiti yn ystyried lefel dybiedig y warchodaeth. At y diben hwn, byddwn yn tybio mai EEP3A yw lefel ddiofyn y warchodaeth (a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o wasanaethau DAB+), sy'n arwain at gapasiti neilltuedig sy'n gyfystyr â 36 o unedau capasiti ar gyfer pob gwasanaeth 48kdid yr eiliad.

6.43 O ran pwynt penodol Radio Verulam ynghylch y cymhelliant i wneud cais am drwydded C-DSP ymysg gwasanaethau cymunedol analog sy'n darparu gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, rydym yn derbyn y bydd manteision ac anfanteision i bob darlledwr posib wrth ddal trwydded C-DSP yn hytrach na thrwydded DSP. Yn fras, mae trwydded C-DSP yn rhoi mynediad at gapasiti wedi'i neilltuo, sy'n debygol o fod yn rhatach na chapasiti sydd heb ei neilltuo gan nad yw rhaglenni sain digidol (DSPs) yn gallu cael mynediad ato (tra bo rhaglenni sain digidol cymunedol (C-DSPs) yn gallu darlledu ar gapasiti wedi'i neilltuo neu gapasiti heb ei neilltuo), ac mae'r Llywodraeth hefyd wedi awgrymu y bydd y Gronfa Radio Cymunedol ar gael ar gyfer gwasanaethau C-DSP. Ar y llaw arall, mae'n rhaid i wasanaethau C-DSP fodloni amodau trwydded ynghylch buddion cymunedol a chyllid nad ydynt yn berthnasol i wasanaethau DSP. O ran ein dealltwriaeth ni o bwynt Radio Verulam, mae gan wasanaeth analog cymunedol fynediad yn barod at y Gronfa Radio Cymunedol. Fodd bynnag, yn yr un modd, mae eisoes yn cynnig buddion cymunedol. Nid ydym yn cytuno bod sicrwydd llwyr o gael mynediad at gapasiti – nid yn unig oherwydd y byddai'n rhaid i'r trwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach gadw at amodau trwydded safonol ynghylch di-ogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, ond hefyd oherwydd byddai gweithredu fel gwasanaeth DSP yn hytrach na gwasanaeth C-DSP yn golygu defnyddio capasiti heb ei neilltuo a allai gael ei ddarparu am bris uwch na chapasiti wedi'i neilltuo i drydydd parti. Felly mae'r sefyllfa yn gymhleth, ond mae'n dal i roi cymhelliant clir i wasanaethau

cymunedol sydd hefyd yn drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach i ddal trwydded C-DSP.

## Materion eraill

### Gofynion gwybodaeth o ran ffioedd cludo a gwasanaethau sy'n cael eu cludo

6.44 Yn sgil y gofynion cyfreithiol o dan adran 54 o Ddeddf 1996 fel y mae wedi’i haddasu gan y Gorchymyn, roeddem yn cynnig bod pob trwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach yn cyhoeddi ar ei wefan ‘gerdyn cyfraddau’ cyfredol ar gyfer cludo gwasanaethau rhaglenni, ac yn cyflwyno manylion i Ofcom ynghylch y ffioedd cludo y mae darparwyr gwasanaethau rhaglenni presennol ar yr amlblecs yn eu talu ar hyn o bryd.

6.45 Roeddem hefyd yn cynnig cynnwys amodau trwydded sy'n mynnu bod trwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach yn cynnal ar eu gwefannau yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwasanaethau rhaglenni maent yn eu cludo, yn ogystal â rhoi gwybod i Ofcom cyn newid y rhestr honno (gan gynnwys a yw'r gwasanaethau sy'n cael eu rhestru yn defnyddio capasiti wedi’i neilltuo ai peidio).

6.46 Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Switch Radio, yn teimlo na ddylai trwyddedeion orfod cyhoeddi eu cardiau cyfraddau. Roedd yn dadlau y byddai mynnu bod gweithredwyr yn cyhoeddi cardiau cyfraddau yn wrthgynhyrchiol, ac nad oedd tystiolaeth i gefnogi hynny. Y rheswm am hynny, yn ôl Switch Radio, oedd bod costau sefydlu pob gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach yn debygol o fod yn wahanol, ac felly y bydd ffioedd cludo pob gwasanaeth hefyd yn wahanol. Nid yw hyn yn golygu bod gweithredwr yr amlblecs yn ymddwyn yn annheg. Ychwanegodd Switch Radio y byddai gweithredwyr amlblecsau radio ar raddfa fach sydd wir â chostau uwch yn gallu caniatáu i wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach â chostau llai godi tariff artiffisial o uchel ar y sail mai dyna yw’r gyfradd a godir ar hyn o bryd. Roedd hefyd yn ofni y gallai rhai gweithredwyr amlblecs radio ar raddfa fach gyfaddawdu ar ansawdd eu gwasanaeth trawsyrru er mwyn cadw’r cyfraddau’n isel ar eu cardiau cyfraddau.

6.47 Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, mae adran 54(1)(i) o Ddeddf 1996 fel y mae wedi’i haddasu gan y Gorchymyn, yn mynnu bod Ofcom – drwy amod trwydded – yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedeion gyhoeddi gwybodaeth mewn modd sy’n briodol ym marn OFCOM, ynghylch y taliadau sydd i'w gwneud gan ddeiliaid trwyddedau rhaglenni sain digidol lleol a chymunedol ar gyfer darlledu eu gwasanaethau o dan y drwydded. Oherwydd ystyr y gair “cyhoeddi”, sy’n awgrymu darparu gwybodaeth i’r cyhoedd, rydym ni’n credu – er bod gennym rywfaint o hyblygrwydd ynghylch y dull cyhoeddi – bod y ddarpariaeth statudol yn golygu ei bod yn rhaid i drwyddedeion gyhoeddi rhywbeth. Rydym ni o’r farn bod rhoi cardiau cyfraddau (h.y. y taliadau sydd i’w gwneud) mewn man cyhoeddus yn ddehongliad priodol o’r amod hwn. Rydym ni’n credu y dylai’r taliadau a wneir mewn gwirionedd (os ydynt yn wahanol i’r rheini a nodwyd ar gerdyn cyfraddau) aros yn gyfrinachol am rai o’r rhesymau sy’n ymwneud â chyfrinachedd busnes a roddwyd gan ymatebwyr i’r ymgynghoriad, ond bydd trwyddedeion yn dal yn gorfod cyflwyno’r wybodaeth hon i ni o

dan adran 54(1)(j), sy’n mynnu bod trwyddedeion yn rhoi gwybodaeth i Ofcom am wasanaethau ar yr amlblecs.

## Lansio ar ôl dyfarnu trwydded

6.48 Yn yr ymgynghoriad, roeddem ni o’r farn bod y ffenestr o 18 mis a ganiateir gan y ddeddfwriaeth yn gyfnod digon hir i lansio gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach – a hefyd yn ddarpariaeth statudol glir – felly fe wnaethom gynnig gorfodi hyn yn llym.

6.49 Roedd rhai ymatebwyr yn poeni bod rhoi’r gofyniad ar waith yn llym yn golygu na fyddai unrhyw hyblygrwydd i weithredwr amlblecs ddatblygu ei amlblecs ymhellach gyda throsglwyddyddion ychwanegol dros gyfnod o amser. Roedd Opendab, er enghraifft, yn dadlau y bydd economeg y broses o ddatblygu trosglwyddyddion mewn ardal drwyddedig yn golygu y bydd yn amhosib yn aml o safbwynt ariannol i ddechrau gyda phob trosglwyddydd yn trawsyrru ar ddiwrnod cyntaf y drwydded.

6.50 Rydym wedi ystyried dadleuon rhai ymatebwyr o ran hyblygrwydd Ofcom wrth ddehongli’r gofyniad 18 mis. Fodd bynnag, rydym ni’n dal o’r farn y dylid gorfodi’r terfyn amser hwn yn llym. I fod yn glir, byddai hyn yn golygu ei bod yn rhaid i drwyddedai amlblecs lansio gyda’r trosglwyddyddion y mae wedi ymrwymo iddynt yn ei gynllun technegol ar gyfer lansio’r gwasanaeth. Nid yw’n golygu na fyddai trwyddedai’r amlblecs, ar ôl lansio’r gwasanaeth, yn gallu cynyddu’r ddarpariaeth drwy ddatblygu ei rwydwaith trawsyrru ymhellach (gweler paragraff 3.27).

6.51 Yn y cyd-destun hwn, mae’n bwysig dweud mai un o’r meini prawf statudol ar gyfer dyfarnu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach yw graddfa’r ddarpariaeth y mae ymgeisydd yn bwriadu ei chynnig yn yr ardal a hysbysebwyd gan Ofcom. Os na fyddai newid mawr fel arall, ymgeisydd sy’n cynnig darpariaeth ehangach yn yr ardal a hysbysebwyd fyddai’n derbyn y drwydded, yn hytrach nag ymgeisydd sy’n cynnig darpariaeth lai. Felly, mae dyletswydd ar ymgeiswyr i fod yn realistig, ac i gynnwys yn eu cynllun technegol dim ond yr elfennau hynny y gallant fod yn hyderus o’u cyflawni o fewn y cyfnod a ganiateir.

# 7. Trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach: hysbysebu a dyfarnu trwyddedau

7.1 Mae'r adran hon yn egluro sut bydd Ofcom yn hysbysebu'r trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, y meini prawf a ddefnyddir i bwyso a mesur ceisiadau, a sut gellir disgwyl i ni ddehongli'r meini prawf hyn wrth wneud penderfyniadau o ran dyfarnu trwyddedau. Mae hefyd yn cynnwys manylion y drefn rydym yn bwriadu ei dilyn wrth hysbysebu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach.

## Hysbysebu trwyddedau amlblecs

### Yr hyn roeddem ni’n ei gynnig

7.2 Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn cynnig hysbysebu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach mewn sypiau. Wrth benderfynu ar y drefn ar gyfer hysbysebu'r trwyddedau, ac amserlen dyfarnu’r trwyddedau, roeddem yn cynnig rhoi sylw i'r ffactorau canlynol:

a) Lefel y galw tebygol gan ddarparwyr gwasanaeth ar sail y datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd;

b) Pa mor ddymunol yw sicrhau bod gwasgariad daearyddol eang ar draws y DU yn gynnar yn y broses o ddyfarnu trwyddedau;

c) Maint y boblogaeth (h.y. rhoi blaenoriaeth i ardaloedd lle mae'r nifer fwyaf o ddefnyddwyr yn debygol o elwa o wasanaethau newydd amlblecs radio ar raddfa fach);

d) Argaeledd sbectrwm ac ystyriaethau rheoli;

e) Blaenoriaethu ardaloedd treialu amlblecs, gan nodi bod trwyddedau treialu i ddod i ben yn gynnar yn 2020 ac na fyddai’n ddelfrydol i ddefnyddwyr sy’n derbyn gwasanaeth drwy amlblecs sy’n cael ei dreialu, golli gwasanaeth;

f) Blaenoriaethu ardaloedd sydd â gwasanaethau amlblecs radio lleol llawn cyn y rheini lle mae gwasanaethau amlblecs radio lleol presennol â chapasiti gwag ar hyn o bryd; a

g) Rheoli'r llwyth gwaith sylweddol sy’n gysylltiedig â thrwyddedu niferoedd sylweddol o wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach (a'r gwasanaethau C-DSP cysylltiedig, wrth ystyried y bydd ceisiadau yn agor ochr yn ochr â'r rheini ar gyfer trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach) gyda’r adnoddau sydd ar gael i Ofcom.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

**Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â'r ffactorau rydym yn bwriadu eu hystyried wrth benderfynu ar y drefn a'r amserlen a ddefnyddir gan Ofcom i hysbysebu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach?**

7.3 Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r ffactorau uchod yr oeddem yn cynnig eu hystyried wrth benderfynu ar y drefn a'r amserlen ar gyfer hysbysebu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach. Er enghraifft, dywedodd Proper Community Media fod yr egwyddorion a gynigiwyd yn gwneud synnwyr, a dywedodd Winchester Radio fod y ffactorau a gynigiwyd yn ymddangos yn rhesymol. Roedd ymatebwyr eraill yn cytuno ar y cyfan, ond wedi cynnig sylwadau ar elfennau penodol o'r cynigion.

7.4 Roedd nifer fach o ymatebwyr, gan gynnwys NI Live Radio, yn anghytuno â'n dull gweithredu cyffredinol. Yn hytrach na thrwyddedu'r ardaloedd polygon mewn sypiau, fe awgrymodd NI Live Radio y dylai Ofcom ddarparu adnoddau ychwanegol yn lle hynny, er mwyn iddo allu trwyddedu gwasanaethau amlblecs ar raddfa fach ar draws y DU i gyd ar yr un pryd. Dywedodd Radio Ninesprings fod angen i Ofcom gyflogi mwy o staff neu drefnu bod rhannau o'r broses yn cael eu gwneud yn allanol, fel sy'n digwydd gydag unrhyw fusnes modern.

7.5 Roedd llawer o ymatebwyr yn awyddus i sicrhau na ddylai'r ardaloedd trwydded polygon gael eu hysbysebu fesul rhanbarth. Er enghraifft, dywedodd Transplan UK fod derbyn ceisiadau ar system ddaearyddol ar hap yn cosbi'r rheini sydd, heb fod unrhyw fai arnyn nhw eu hunain, ar waelod y rhestr.

7.6 Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig y dylid rhoi blaenoriaeth i drwyddedu'r 10 o ardaloedd treialu amlblecs. Er enghraifft dywedodd Niocast, sy'n gweithredu amlblecs sy'n cael ei dreialu ym Manceinion, na fyddai'n ddelfrydol petai defnyddwyr sy'n derbyn gwasanaethau drwy amlblecsau sy'n cael eu treialu yn colli gwasanaeth, wrth i drwyddedau treialu ddod i ben. Roedd Your FM yn dadlau y dylai ardaloedd daearyddol sy'n agos at ardaloedd treialu presennol gael eu blaenoriaethu hefyd, oherwydd bod yr ardaloedd cyfagos hyn yn disgwyl i DAB ar raddfa fach gael ei gyflwyno'n gynnar yn eu hardal.

7.7 Ond teimlai ymatebwyr eraill – gan gynnwys Media Ireland, Blast 106 Limited a BE FM Belfast Ltd – y dylid blaenoriaethu ardaloedd fel Gogledd Iwerddon yn lle, a oedd heb gael eu cynnwys yn y treialon ar gyfer amlblecs radio ar raddfa fach.

7.8 Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a ddylid blaenoriaethu ardaloedd â phoblogaeth fwy, fel yr oeddem wedi awgrymu yn yr ymgynghoriad. Dywedodd Brian Lister nad oedd yn deall pam y dylai maint y boblogaeth fod yn berthnasol, o ystyried y gellid dadlau y bydd DAB ar raddfa fach yn cael effaith sylweddol mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai metropolitan lle bydd gwasanaethau radio newydd (a mwy perthnasol o bosib), sy'n cael eu cyflwyno yn gynnar, yn werthfawr ac yn bwysig iawn. Roedd Susy Radio yn poeni y gallai'r polisi arfaethedig gael effaith niweidiol ar ardaloedd mwy gwledig, gan eu gwthio i gefn y ciw.

Dywedodd fod y defnyddwyr hyn, yn draddodiadol, yn cael llai o flaenoriaeth mewn llawer o agweddau eraill. Yn hytrach, teimlai'r ymatebydd fod angen cydbwysedd, lle gellid blaenoriaethu ardaloedd trwydded polygon yn ôl y boblogaeth, ac effaith y gwasanaethau radio cymunedol presennol yn ardal yr amlblecs arfaethedig.

7.9 Yn yr un modd, roedd rhai ymgeiswyr yn anghytuno â chynnig Ofcom i flaenoriaethu ardaloedd ag amlblecsau lleol llawn. Ardaloedd trefol yw'r rhain gan amlaf, sydd â phoblogaeth eithaf mawr. Dadl Moss Media oedd, yn hytrach na chynnig gwasanaeth gwell byth i ardal sydd â llawer o ddewis digidol yn barod – a allai arwain at rannu'r gynulleidfa ddigidol yn hytrach nag at dwf gwirioneddol o ran y gynulleidfa – byddai gwneud i'r gwrthwyneb yn cynnig budd mwy cadarnhaol, sef ehangu'r dewis digidol sydd ar gael i gymaint â phosib o wrandawyr nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd.

7.10 Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid ystyried meini prawf eraill, nad yw Ofcom wedi ymgynghori arnynt, wrth benderfynu ym mha drefn y dylid hysbysebu ardaloedd trwydded polygon. Awgrymodd West Kent Community Radio y dylid blaenoriaethu ardaloedd lle mae ceisiadau radio FM cymunedol wedi cael eu gwrthod yn y gorffennol oherwydd nad oedd digon o amleddau ar gael, a dywedodd Witney Media y dylai Ofcom roi blaenoriaeth i hysbysebu ardaloedd polygon lle mae ymgeiswyr posib sy'n gallu dangos eu bod yn barod yn ariannol i lansio amlblecs.

## Dadansoddiad a chasgliad

7.11 Nodwn fod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r ffactorau roeddem wedi'u cynnig ar gyfer penderfynu ar y drefn a'r amserlen y bydd Ofcom yn ei defnyddio wrth hysbysebu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach.

7.12 Wrth benderfynu ar drefn yr hysbysebion am drwyddedau, roeddem wedi ystyried yn ofalus y sylwadau am y saith ffactor a nodwyd yn ein hymgynghoriad, yn ogystal â rhywfaint o ffactorau eraill a godwyd gan ymatebwyr.

7.13 Nid oes gan Ofcom ddigon o adnoddau i gyflwyno gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach ar draws y DU i gyd ar yr un pryd. Rydym hefyd yn nodi rhinweddau dull gweithredu fesul cam, a fydd yn ein galluogi i wella ein proses mewn rowndiau olynol yn sgil profiad.

7.14 Rydym wedi cynllunio ar sail wyth rownd drwyddedu i ddechrau, ac yn rhagweld y bydd pob rownd yn cymryd tua naw mis, o ddyddiad hysbysebu'r trwyddedau i ddyfarnu'r drwydded olaf. Mae hyn yn cynnwys cyfnod o 12 wythnos i gyflwyno ceisiadau, a chwe mis arall i Ofcom asesu'r ceisiadau ac i ddyfarnu trwyddedau. Rydym yn disgwyl y bydd pob swp o drwyddedau yn cael ei hysbysebu tua 12 wythnos cyn i ni gwblhau ein hasesiad o'r ceisiadau a ddaeth i law yn y rownd flaenorol. Felly, byddem yn hysbysebu swp o drwyddedau bob tua chwe mis. Dim ond amcangyfrif yw hwn – bydd yr union amser y bydd yn ei gymryd i ni ddyfarnu trwyddedau yn dibynnu ar nifer a nodweddion y ceisiadau a gyflwynir, ymysg pethau eraill. Dylid cydnabod hefyd y byddwn ni'n asesu ceisiadau am drwyddedau C-DSP ar yr un pryd ag y byddwn ni'n asesu ceisiadau am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach (paragraffau 9.15 – 9.20).

7.15 Rydym wedi cydnabod y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad, ac wedi delio â'r ffactorau hyn mewn ffordd mor gytbwys â phosib. Yn benodol, rydym wedi cydnabod y byddai’n ddymunol sicrhau bod trwyddedau wedi’u gwasgaru’n eang yn ddaearyddol ar draws y DU yn y rowndiau trwyddedu cynnar, felly nid ydym yn mabwysiadu dull fesul rhanbarth.

7.16 Ond yn sgil cyfyngiadau posib o ran argaeledd sbectrwm, a goblygiadau hyn i gynllunio sbectrwm, ar gyfer y ddwy ‘ardal macro’ (sy’n cynnwys Gogledd-orllewin Lloegr a rhannau o Ogledd-ddwyrain Cymru, a De-ddwyrain Lloegr) bydd angen i ni hysbysebu’r holl ardaloedd polygon ym mhob ardal macro fel un swp.

7.17 Rydym wedi penderfynu rhoi blaenoriaeth i hysbysebu’r ardaloedd treialu amlblecs, pan fydd modd. Rydym yn gwneud hynny er mwyn rhoi rhywfaint o sicrwydd o safbwynt rheoleiddio i weithredwyr yr amlblecsau sy’n cael eu treialu, ac i’r gwasanaethau rhaglenni sy’n darlledu arnyn nhw ar hyn o bryd. Felly, bydd pedair o’r deg ardal treialu amlblecs yn cael eu hysbysebu yn y rownd drwyddedu gyntaf, gydag ardal macro Gogledd-orllewin Lloegr – sy’n cynnwys yr ardal sy’n dod o dan yr amlblecs treialu ar gyfer Manceinion – yn cael ei chynnwys yn yr ail rownd.

7.18 Bydd yn rhaid aros am ychydig mwy i’r ardaloedd treialu amlblecs yn Ne-ddwyrain Lloegr gael eu trwyddedu – tan y bedwaredd rownd. Y rheswm am hynny yw nad ydym eto wedi dod i gytundeb rhyngwladol llawn ynghylch defnyddio sbectrwm yn y rhan honno o’r DU.

7.19 Rydym wedi nodi’r ymatebion a gafwyd i’n cynnig i gynnwys maint y boblogaeth a chyfyngiadau o ran capasiti fel ffactorau. Mae’r ddau ffactor hyn yn tueddu i wyro tuag at flaenoriaethu ardaloedd trefol dwys eu poblogaeth. Er ein bod yn dal o’r farn bod y ffactorau hyn yn berthnasol, oherwydd mae gwasanaethau amlblecs yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol o ran nifer y gwasanaethau radio digidol sydd ar gael i nifer sylweddol o bobl, rydym yn cytuno ag ymatebwyr a awgrymodd fod angen sicrhau cydbwysedd rhwng hyn ac anghenion ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol. Rydym yn cydnabod y byddai gwasanaethau radio digidol ychwanegol – yn enwedig rhai â phwyslais lleol – mewn ardal sy’n llai dwys ei phoblogaeth sydd heb lawer o wasanaethau o’r fath, yn gallu cynnig mwy o fuddion cyhoeddus na gwasanaeth o’r fath mewn ardal drefol sydd eisoes yn cael ei gwasanaethu’n dda. Er mwyn ehangu’r dewis o wasanaethau radio digidol DAB sydd ar gael i gymaint â phosib o wrandawyr nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol ar hyn o bryd, rydym wedi penderfynu ychwanegu wythfed ffactor – sef blaenoriaethu ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol gan radio digidol DAB, ond lle mae galw amlwg am wasanaethau newydd. Mae hyn yn arwain at ddull cytbwys a fydd – fesul rownd – yn cyfuno hysbysebion ar gyfer ardaloedd polygon â phoblogaeth fawr a/neu amlblecsau lleol llawn, ac ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol.

7.20 O ran y ffactorau eraill yr awgrymodd ymatebwyr y dylem eu hystyried wrth benderfynu pa ardaloedd i’w hysbysebu gyntaf, roeddem yn teimlo y byddai unrhyw asesiad i ystyried “parodrwydd” ymgeiswyr posib yn y gwahanol ardaloedd polygon yn ychwanegu haen arall o gymhlethdod (ac felly oedi) at y broses drwyddedu. O ran y pwynt am amleddau FM – pan nad yw amleddau FM ar gael, yn yr ardaloedd mwy poblog y bydd hynny’n digwydd fel

arfer, ac roedd yr ymgynghoriad eisoes yn cynnig blaenoriaethu'r ardaloedd hynny (gweler y paragraff uchod).

## Manylion y ddwy rownd drwyddedu gyntaf

7.21 Mae’r ardaloedd polygon rydym yn bwriadu hysbysebu trwyddedau ar eu cyfer yn Rownd 1 a Rownd 2 wedi’u nodi yn y tabl a’r mapiau isod. At ddibenion llunio’r rhestr hon ar gyfer Rownd 1, roeddem wedi rhannu’r DU yn rhanbarthau (fel y gwelir ar y mapiau yn Atodiad 1), ac wedyn wedi dewis ardaloedd polygon penodol o bob un o’r rhanbarthau hyn – ac eithrio’r rheini yn y ddwy ardal macro. Mae’r rhestr ar gyfer Rownd 2 yn cynnwys pob polygon mewn un o’r ardaloedd macro hynny. Dylai rhanddeiliaid gyfeirio at y mapiau yn Atodiad 1 i gael manylion am bob ardal (‘trwydded’) polygon.

7.22 Wrth ddewis trwyddedau i gael eu hysbysebu yn Rownd 1, rydym wedi ystyried y ffactorau canlynol (mae’r rhain yn cynnwys yr holl ffactorau yr oeddem wedi ymgynghori arnynt, yn ogystal â’r wythfed ffactor a nodwyd ym mharagraff 7.19 uchod, a gafodd ei ychwanegu yn dilyn yr ymatebion i’r ymgynghoriad):

a) Lefel y galw tebygol gan ddarparwyr gwasanaeth ar sail y datganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd;

b) Pa mor ddymunol yw sicrhau bod gwasgariad daearyddol eang ar draws y DU yn gynnar yn y broses o ddyfarnu trwyddedau;

c) Maint y boblogaeth (h.y. rhoi blaenoriaeth i ardaloedd lle mae'r nifer fwyaf o ddefnyddwyr yn debygol o elwa o wasanaethau newydd amlblecs radio ar raddfa fach);

d) Argaeledd sbectrwm ac ystyriaethau rheoli;

e) Blaenoriaethu ardaloedd treialu amlblecs, gan nodi bod trwyddedau treialu i ddod i ben ddiwedd y flwyddyn nesaf, ac na fyddai’n ddelfrydol i ddefnyddwyr sy’n derbyn gwasanaethau drwy amlblecs sy’n cael ei dreialu, golli gwasanaeth;


f) Blaenoriaethu ardaloedd sydd â gwasanaethau amlblecs radio lleol llawn cyn y rheini lle mae gwasanaethau amlblecs radio lleol presennol â chapasiti gwag ar hyn o bryd;

g) Rheoli'r llwyth gwaith sylweddol sy’n gysylltiedig â thrwyddedu niferoedd sylweddol o wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach (a'r gwasanaethau C-DSP cysylltiedig, wrth ystyried y bydd ceisiadau yn agor ochr yn ochr â'r rheini ar gyfer trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach) gyda’r adnoddau sydd ar gael i Ofcom; a


h) Blaenoriaethu ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol gan radio digidol DAB, ond lle mae galw amlwg am wasanaethau newydd.

## Trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach a fydd yn cael eu hysbysebu yn Rowndiau 1 a 2

**Map o'r trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach a fydd yn cael eu hysbysebu yn Rownd 1**
**Mae'r cynnwys isod ar gael yn Saesneg yn unig.**




**Map o'r trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach a fydd yn cael eu hysbysebu yn Rownd 2**
**Mae'r cynnwys isod ar gael yn Saesneg yn unig.**




7.23 Ac eithrio'r trwyddedau a fydd yn cael eu hysbysebu ar gyfer y polygonau yn yr ardaloedd macro, rydym yn bwriadu dewis y trwyddedau/ardaloedd polygon a fydd yn cael eu hysbysebu mewn rowndiau dilynol ar sail debyg, yn agos at yr amser pan fyddan nhw'n cael eu hysbysebu – gan ystyried yr holl ffactorau sydd wedi cael eu disgrifio'n barod, yn ogystal ag amodau presennol y farchnad a/neu brofiad Ofcom o drwyddedu gwahanol fathau o ardaloedd polygon hyd at y pwynt hwnnw.

7.24 Ar ôl Rowndiau 1 a 2, bydd adolygiad mewnol byr yn cael ei gynnal, lle byddwn o bosib yn addasu'r broses drwyddedu a/neu'r amserlen. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu hegluro pan fyddwn yn gwahodd ceisiadau ar gyfer Rownd 3.

## Meini prawf ar gyfer dyfarnu trwydded

7.25 Fel yr oeddem wedi nodi yn y ddogfen ymgynghori, mae'r Ddeddf – fel y mae wedi'i haddasu gan y Gorchymyn – yn mynnu bod trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn cael

eu dyfarnu'n gystadleuol, ac mae'n diwygio adran 51 o Ddeddf 1996 i ddarparu'r meini prawf canlynol ar gyfer dyfarnu trwydded:

a) maint ardal y ddarpariaeth (o fewn yr ardal neu'r ardal leol a bennir yn hysbyseb Ofcom) y mae'r ymgeisydd yn cynnig darparu ar ei chyfer, fel y nodir yn ei gynllun technegol;

b) gallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth arfaethedig;

c) pa mor ddymunol yw dyfarnu'r drwydded i ymgeisydd sydd (i) yn berson sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r ardal leol honno, neu (ii) sydd gan, fel cyfranogwr, berson sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r ardal leol honno;

d) i ba raddau y mae tystiolaeth fod galw neu gefnogaeth i ddarparu'r gwasanaeth arfaethedig, ymysg pobl sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol yn yr ardal neu'r ardal leol honno; ac

e) a yw'r ymgeisydd, drwy gontractio neu gynnig contractio gyda phobl sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol neu gymunedol, wedi gweithredu mewn modd sy'n sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

7.26 Yna fe nodwyd sut roeddem yn bwriadu rhoi'r meini prawf hyn ar waith wrth asesu ceisiadau am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, gan ofyn am farn ynghylch ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y ddau faen prawf cyntaf yn benodol – maint ardal ddarpariaeth arfaethedig yr ymgeisydd, a'i allu i sefydlu ei wasanaeth arfaethedig.

## Meini prawf ar gyfer dyfarnu trwydded: maint yr ardal ddarpariaeth arfaethedig

7.27 Mae Adran 50(4)(b) o Ddeddf 1996, fel y mae wedi'i haddasu, yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cynllun technegol fel rhan o'u cais. Mae'n mynnu bod y cynllun hwn yn cynnwys:

a) y rhannau o'r ardal neu'r ardal leol a bennir gan Ofcom wrth hysbysebu'r drwydded a fyddai o fewn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth;

b) yr amserlen y byddid yn ei dilyn er mwyn cyflawni'r ddarpariaeth honno; a

c) y dulliau technegol y byddid yn eu defnyddio i gyflawni hynny.

7.28 Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cynllun technegol oherwydd, fel y nodwyd uchod, mae'n rhaid i Ofcom asesu maint yr ardal ddarpariaeth maent yn cynnig darparu ar ei chyfer.

## Yr hyn roeddem ni’n ei gynnig

7.29 Mae Adran 50(3) o Ddeddf 1996, fel y mae wedi’i haddasu, yn caniatáu i Ofcom gyhoeddi canllawiau fel rydym ni’n credu sy'n briodol. Oherwydd pwysigrwydd maint yr ardal ddarpariaeth arfaethedig, mae’r cynllun technegol yn rhan bwysig iawn o'r cais. Roeddem yn cynnig y dylai’r cynllun technegol gynnwys y canlynol o leiaf:

a) disgrifiad o'r ardal y bwriedir ei gwasanaethu a rhagfynegiad o'r ddarpariaeth ddisgwyliedig;

b) asesiad o'r gorgyffwrdd â gwasanaethau amlblecs radio lleol;

c) gwybodaeth am safle trosglwyddydd;

d) asesiad o'r risg o ‘dorri tyllau’ yn narpariaeth gwasanaethau amlblecsau radio eraill; ac

e) amserlen ar gyfer cyflawni.

7.30 Wrth wahodd ceisiadau am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, roeddem yn dweud y byddem yn diffinio ardaloedd darpariaeth ymlaen llaw, gan eu galw'n ‘ardaloedd polygon’ (gweler Adran 4). Mewn dwy ardal fwy, sy’n cael eu galw’n ‘ardaloedd macro’, roeddem wedi grwpio ardaloedd polygon gyda’i gilydd oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd digon o sbectrwm ar gael i ddyrannu amleddau i bob ardal polygon yn yr ardaloedd macro hyn. Roeddem yn dweud y byddem, ym mhob ardal, yn gofyn am gynigion gan ymgeiswyr ar gyfer ardaloedd darpariaeth ar sail y polygonau.

7.31 Dyma’r ystyriaethau yr oeddem yn cynnig eu hasesu o dan y maen prawf ‘maint yr ardal ddarpariaeth’ wrth ddyfarnu trwydded:

- **Maint y ddarpariaeth arfaethedig** – faint o'r boblogaeth o fewn polygon yr ardal ddarpariaeth a ragwelir a fydd yn cael ei gwasanaethu gan y trosglwyddyddion a gynigir yng nghynllun technegol yr ymgeisydd, a faint o’r gorlif poblogaeth sydd y tu allan i ardal y polygon.
- **Cydnawsedd â’r cynllun sbectrwm cyffredinol** – yr ymyriant y rhagwelir y bydd trosglwyddyddion arfaethedig yr ymgeisydd yn ei achosi yn yr ardaloedd lle mae’r un amledd yn cael ei ddefnyddio (neu y bwriedir i’r un amledd gael ei ddefnyddio).
- **Lefel y gorgyffwrdd â gwasanaethau amlblecs radio lleol –** y boblogaeth yn y mannau lle ceir gorgyffwrdd o ran darpariaeth gydag ardal drwyddedig unrhyw wasanaethau radio amlblecs lleol. Ni ddylai’r gorgyffwrdd ag amlblecs lleol fod yn fwy na 40%.

7.32 O ran darpariaeth ‘gorlif’, roeddem yn dweud y byddem o bosib yn caniatáu i ymgeiswyr fynd y tu hwnt i ardal ddarpariaeth y polygon, gyda dau amod pwysig. Yn gyntaf, dylai'r gorlif fod mor fach ag sy'n rhesymol bosib a, sut bynnag, ni ddylai fod yn fwy na 30% o'r boblogaeth yn y polygon gwreiddiol at ei gilydd. Yn ail, lle mae'r gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach (gan gynnwys unrhyw orlif) yn gorgyffwrdd ag ardal drwyddedig gwasanaeth amlblecs radio lleol, ni ddylai’r boblogaeth o fewn y gorgyffwrdd fod yn fwy na 40% o gyfanswm y boblogaeth yn ardal drwyddedig y gwasanaeth amlblecs radio lleol.

7.33 Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn dweud y byddem yn ffafrio ymgeiswyr sy'n cynnig darparu ar gyfer cyfran fwy o'r boblogaeth sy'n cael darpariaeth gan y polygon a hysbysebwyd, dros yr ymgeiswyr sy'n cynnig darparu ar gyfer cyfran lai o'r boblogaeth honno, gan leihau'r gorlif gymaint â phosib. Y rheswm am hynny yw bod darparu ar gyfer cyfran fwy o'r boblogaeth yn ffordd fwy effeithlon o ddefnyddio sbectrwm, ac yn debygol o fod yn fwy deniadol i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni. Hefyd, rydym ni o'r farn mai dyna yw bwriad clir y maen prawf statudol cyntaf ar gyfer dyfarnu trwydded.

7.34 Roeddem hefyd yn cynnig ei bod yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ddilyn y broses o gydweithio ar ôl i'r drwydded gael ei dyfarnu. Mae'r broses hon yn datgan ei bod yn rhaid i'r trwyddedai newydd gyflwyno tystiolaeth i Ofcom ei fod wedi dod i gytundeb ar faterion ACI gyda deiliaid trwyddedau amlblecs radio eraill, yn ystod y cyfnod rhwng dyfarnu'r drwydded a lansio'r gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

**Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer asesu'r cynlluniau technegol a gyflwynwyd yn y ceisiadau am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach?**

7.35 At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n dull gweithredu ar y cyfan. Roedd rhai ymatebwyr eraill yn cytuno'n gyffredinol, ond wedi cyflwyno sylwadau manwl am bryderon ynghylch agweddau penodol ar y cynigion. Roedd 2% yn anghytuno'n llwyr â'n cynigion.

7.36 Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am gymhlethdod y gofynion ar gyfer y cynllun technegol, a lefel y manylder yr oedd ei hangen. Roedd Winchester Radio yn dadlau y byddai cymhlethdod gofynion y cynllun technegol, a'r teclyn cynllunio penodol y byddai ei angen o bosib i helpu i greu'r cynllun technegol, yn gallu golygu nad yw'r darpar orsafoedd radio cymunedol – neu rai presennol – yn gallu cyflwyno cais i weithredu trwydded. Roedd Moss Media yn poeni y byddai'r gwaith technegol cyffredinol y mae angen ei wneud er mwyn dod â'r wybodaeth angenrheidiol at ei gilydd, yn rhwystr i'r rheini sy'n ymuno â'r farchnad.

7.37 Teimlai ymatebwyr – gan gynnwys Nation Broadcasting, Angel Radio, y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol, Wireless a Future Digital Norfolk – na ddylai maint y ddarpariaeth y byddai cynllun technegol ymgeisydd yn ei chynnig i ardal polygon fod yn ffactor pwysig wrth ddyfarnu trwyddedau. Dywedodd Nation Broadcasting y gallai hynny annog ceisiadau sy'n achosi risg, ar draul gweithredwyr sydd â chynlluniau darpariaeth synhwyrol ac sy'n hyfyw o safbwynt ariannol. Ac yn ôl Future Digital Norfolk, mae rhoi blaenoriaeth i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf bosib yn y tymor byr yn golygu y gallai bidiau â risg uchel yn economaidd gael eu cyflwyno yn erbyn dulliau gweithredu mwy cynaliadwy. Dywedodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol na ddylai Ofcom roi gormod o bwyslais ar faint ardal ddarpariaeth polygon y mae ymgeisydd yn cynnig darparu ar ei chyfer.

7.38 Ar y llaw arall, dywedodd Dee Radio Group y dylai Ofcom fod yn barod i ystyried cynlluniau technegol sy'n seiliedig ar y diffiniad o'r ardal polygon a hysbysebwyd, ond sy'n cynnwys

rhywfaint o hyblygrwydd ac sy'n fwy o ran maint (yn unol â'r ddeddfwriaeth). Roedd yn dadlau y byddai bod yn fwy o ran maint yn debygol o wneud y gwasanaeth amlblecs yn fwy hyfyw, ac y gallai fod o fudd mewn ardaloedd 'macro' yn arbennig, lle byddai ardaloedd polygon sydd wedi cael eu diffinio'n rhy gaeth yn gallu golygu bod gorsafoedd analog presennol yn cael eu cau allan. Yn yr un modd, teimlai y byddai polygonau sydd wedi'u diffinio'n gaeth mewn ardaloedd gwledig neu led-wledig yn gallu golygu nad oes llawer o'r capasiti yn cael ei ddefnyddio, ac felly y byddai'n ffordd aneffeithlon o ddefnyddio sbectrwm ac yn risg i gynaliadwyedd.

7.39 Gofynnodd Wireless am resymeg gliriach dros ein cynnig na ddylai unrhyw ddarpariaeth gorlif y tu allan i bolygon fod yn fwy fel arfer na 30% o'r boblogaeth yn y polygon a hysbysebwyd.

7.40 Roedd ychydig o ymatebwyr yn poeni am ymyriant ar sianeli cyfagos. Awgrymodd Wireless y dylai Ofcom gynnwys mesurau gwarchod priodol yn y broses o gymeradwyo cynlluniau technegol, ac y dylid darparu adnoddau priodol ar gyfer asesu ymyriant ar sianeli cyfagos.

## Dadansoddiad a chasgliad

7.41 Rydym yn deall pryderon rhai ymatebwyr am gymhlethdod rhywfaint o'r wybodaeth y bydd angen i ni ei gweld mewn cynllun technegol. Mae Adran 50(4)(b) o'r Ddeddf, fel y mae wedi'i haddasu, yn mynnu bod y rheini sy'n gwneud cais am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach yn cyflwyno cynllun technegol, ac mae Adran 50(3) o Ddeddf 1996, fel y mae wedi'i haddasu, yn caniatáu i Ofcom gyhoeddi canllawiau rydym ni'n credu sy'n briodol. O ran cyhoeddi canllawiau, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi Nodiadau Cyfarwyddyd manwl ochr yn ochr â'r hysbysebion am drwyddedau amlblecs, a fydd yn helpu ymgeiswyr i wybod beth mae angen iddyn nhw ei ddarparu, ac ym mha fformat mae angen iddyn nhw wneud hynny.

7.42 Fel sydd wedi cael ei nodi'n barod, mae maint yr ardal ddarpariaeth (o fewn yr ardal leol a nodwyd yn hysbyseb Ofcom ar gyfer y drwydded) y mae'r ymgeisydd yn cynnig darparu ar ei chyfer, yn un o'r meini prawf ar gyfer dyfarnu trwyddedau amlblecs a bennwyd gan y ddeddfwriaeth. Felly, nid oes gan Ofcom ddisgresiwn yn yr elfen hon, ac felly bydd maint y ddarpariaeth yn cael ei asesu fel rhan o'r meini prawf ar gyfer dyfarnu trwydded. Fodd bynnag, mae croeso i ymgeiswyr gynnig gwasanaethu dim ond rhan o'r ardal polygon os byddan nhw o'r farn bod hynny'n gynaliadwy a bod modd cyflawni hynny.

7.43 Er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ymgeiswyr, gallant hefyd gynnig cynnwys lefel gyfyngedig o ddarpariaeth sydd y tu allan i'r ardal polygon. Ond, rydym yn mynnu na ddylai darpariaeth gorlif gynnwys poblogaeth ychwanegol sy'n fwy na 30% o'r boblogaeth sydd wedi'i chynnwys yn y polygon. Rydym wedi rhoi'r cyfyngiad hwn ar waith er mwyn sicrhau bod y cynllun sbectrwm cyffredinol yn dal yn gadarn, a bod digon o sbectrwm ar gael ar gyfer yr holl ardaloedd polygon arfaethedig.

7.44 Rydym yn nodi cais Wireless am gyfiawnhad pellach dros bennu'r terfyn gorlif ar 30%. O ran hynny, rydym yn dweud y byddai'r hyn sy'n orlif derbyniol yn dibynnu ar bob math o ffactorau, gan gynnwys cyfyngiadau sbectrwm, dymuniadau sbectrwm y gymuned a

gweithredwyr masnachol bach yn yr ardal leol, a ffactorau masnachol sy'n dylanwadu ar hyfywedd. Byddai pob un o'r rhain yn amrywio yn ôl lleoliad, ac nid ydym o'r farn y byddai asesu hyn ar wahân ar gyfer pob ardal polygon y byddwn ni'n ei hysbysebu yn ffordd gymesur o ddefnyddio adnoddau, nac yn addas o ran cynnig eglurder i randdeiliaid. Rydym ni o'r farn bod terfyn o 30% yn cynnig eglurder i ymgeiswyr posib, ac yn debygol o sicrhau bod ardaloedd darpariaeth gwasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach yn adlewyrchiad agos rhesymol o'r polygonau a gafodd eu datblygu a'u hysbysebu gan Ofcom yn unol â'r broses a nodwyd yn y ddogfen hon, gan beidio â chosbi achosion o orlifo sy'n siŵr o ddigwydd i weithredwyr amlblecs posib sydd wir yn ceisio darparu gwasanaeth i'r rheini sydd ar ymylon unrhyw bolygon penodol.

7.45 Mae Adran 5 yn trafod yn fwy manwl y broses o reoli ymyriant ar sianeli cyfagos (neu 'torri tyllau') pan fydd trwyddedeion amlblecsau ar raddfa fach yn gweithredu eu trosglwyddyddion arfaethedig. O ran sylwadau Wireless bydd Ofcom, fel rhan o'r broses o ystyried ceisiadau, yn pwyso a mesur y risg y mae trosglwyddyddion newydd ar gyfer DAB ar raddfa fach yn ei hachosi i dderbyniad gwasanaethau radio DAB eraill. Rydym yn bwriadu cynnwys gwybodaeth fanwl ychwanegol yn y nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, a fydd yn egluro sut gall ymgeiswyr asesu effaith bosib eu trosglwyddyddion arfaethedig ar dderbyniad gwasanaethau eraill, a'r camau y gellir eu cymryd i osgoi neu i leihau'r effaith honno.

## Meini prawf ar gyfer dyfarnu trwydded: y gallu i sefydlu'r gwasanaeth arfaethedig

### Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

7.46 Wrth asesu ceisiadau am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn erbyn y maen prawf statudol hwn, roeddem yn cynnig canolbwyntio ar dair prif elfen:

- Ariannol – roeddem yn dweud y byddem eisiau gwybod beth yw cost sefydlu'r gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach newydd, a sut bydd y costau hyn yn cael eu talu.
- Arbenigedd a phrofiad – roeddem yn dweud y byddem eisiau gwybod pwy fydd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach.
- Technegol – roedden yn dweud y byddem yn awyddus i wybod sut caiff y cyfleusterau technegol eu sefydlu, ac a yw'r cynllun technegol arfaethedig yn realistig ac yn gyraeddadwy.

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

**Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer asesu gallu ymgeiswyr i sefydlu eu hamlblecs radio ar raddfa fach arfaethedig?**

7.47 At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n eithaf cyfartal rhwng y rheini a oedd yn cytuno â'n dull gweithredu, a'r rheini a oedd yn cytuno'n gyffredinol, ond a oedd wedi cyflwyno sylwadau manwl am bryderon ynghylch agweddau penodol ar y cynigion. Roedd lleiafrif bach yn anghytuno â'n dull gweithredu arfaethedig yn ei gyfanrwydd.

1.2. Roedd ymatebwyr – gan gynnwys Transplan UK a Radio Ninesprings – yn cytuno'n gyffredinol â dull gweithredu arfaethedig Ofcom, ond yn awgrymu nad oedd yn mynd yn ddigon pell i warchod ymgeiswyr dielw bona fide rhag cael eu boddi gan grwpiau darlledu sefydledig sy'n llawer mwy o ran maint.

7.48 Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am ddibynadwyedd a hyfywedd tymor hir trwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach, gyda rhai'n awgrymu y dylai Ofcom roi blaenoriaeth glir iawn i ymgeiswyr sydd eisoes yn darparu gwasanaethau radio analog yn yr ardal. Er enghraifft, dywedodd Exeter Community Radio a Phonic FM y byddent yn dymuno cael sicrwydd o allu hirdymor y darparwr a ddewisir i gynnal y gwasanaeth drwy gydol cyfnod y drwydded. Dywedodd Moss Media ei bod yn bwysig bod unrhyw weithredwyr amlblecs radio ar raddfa fach yn dangos eu gallu i gynnal y gwasanaeth, nid dim ond ei sefydlu, gan awgrymu bod angen i ymgeiswyr ddangos cynlluniau wrth gefn. Roedd Wide FM, Radio Centre a Dee Radio Group – ymysg ymatebwyr eraill – wedi pwysleisio pa mor bwysig yw hyfywedd ariannol trwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach er mwyn cynnal y gwasanaeth.

7.49 Roedd Nation Broadcasting ac Angel Radio yn cytuno'n gyffredinol â'r dull gweithredu arfaethedig, ond yn teimlo hefyd y dylem ystyried gwasanaethau rhaglenni arfaethedig yr amlblecs wrth asesu'r trwyddedau i'w dyfarnu, gan gynnwys tystiolaeth o gytundebau â darparwyr gwasanaeth a thystiolaeth y bydd gweithredwr posib amlblecs radio ar raddfa fach yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar yr amlblecs. Roedd Future Digital Norfolk yn cytuno â hynny, ac yn dweud y dylai Ofcom ystyried sut byddwn ni'n sicrhau y bydd trwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach yn cludo ystod amrywiol o wasanaethau.

## Dadansoddiad a chasgliad

7.50 Nid yw'r ddeddfwriaeth yn galluogi Ofcom yn uniongyrchol – pan fydd yn gwneud penderfyniadau am ddyfarnu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach – i roi blaenoriaeth i ymgeiswyr dielw, neu i ymgeiswyr sydd eisoes yn gweithredu gwasanaethau radio cymunedol neu fasnachol ar raddfa fach yn ardal drwydded yr amlblecs arfaethedig, fel y gofynnodd rhai ymatebwyr. Ond, mae un o'r meini prawf statudol ar gyfer dyfarnu trwydded (gweler paragraffau 7.54-7.56 isod) yn mynnu bod Ofcom yn ystyried pa mor ddymunol yw dyfarnu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach i gorff corfforaethol sy'n darparu – neu sy'n cynnig darparu – gwasanaeth C-DSP yn yr ardal leol sy'n cael ei hysbysebu. Rydym hefyd yn nodi ei bod yn rhaid i ni ystyried i ba raddau mae tystiolaeth o'r galw am wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach arfaethedig, neu gefnogaeth i hynny, ymysg darparwyr neu ddarpar ddarparwyr gwasanaethau C-DSP a DSP lleol. Mae gennym resymau dros ddisgwyl y byddai amlblecsau dielw, a'r rheini sy'n cynnwys gwasanaethau presennol llai yn yr ardal leol, yn debygol o ddenu datganiadau o gefnogaeth gan ddarparwyr o'r fath (ond bydd ffactorau eraill fel darpariaeth a safonau technegol yn berthnasol hefyd).

7.51 Er bod adran 51(2)(c) o Ddeddf 1996, fel y mae wedi'i haddasu, yn mynnu bod Ofcom yn asesu gallu ymgeisydd i sefydlu ei wasanaeth arfaethedig, nid yw'r Gorchymyn yn mynnu bod Ofcom yn ystyried gallu ymgeisydd am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach i gynnal ei wasanaeth arfaethedig. Yn wir, mae'r Gorchymyn yn addasu adran 51(2)(c) i

ddileu'r geiriau a'i gynnal drwy gydol y cyfnod y bydd y drwydded mewn grym, o ran dyfarnu trwyddedau amlblecs ar raddfa fach yn unig. Mae'r newid hwn hefyd yn cyd-fynd ag ethos 'llai llawdrwm' y drefn trwyddedu DAB ar raddfa fach.

7.52 Yn yr un modd, nid oes gofyniad yn y fframwaith statudol i ymgeiswyr gyflwyno rhestr lawn i Ofcom o'r gwasanaethau rhaglenni maen nhw'n bwriadu eu darparu ar eu gwasanaethau amlblecs, na darpariaeth i ni fantoli ceisiadau am drwydded ar sail i ba raddau y bydden nhw'n darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau cynulleidfaoedd yn yr ardal leol. Yn wir, mae'r Gorchymyn yn addasu Deddf 1996 i ddileu'r maen prawf hwnnw ar gyfer dyfarnu trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach yn unig. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod adran 51(2)(f) yn mynnu ein bod yn ystyried tystiolaeth o'r gefnogaeth i'r gwasanaeth ymysg pobl sy'n darparu, neu sy'n cynnig darparu, gwasanaethau C-DSP a DSP lleol. Felly, er na fyddwn yn cymharu pa mor eang yw apêl y gwasanaethau rhaglenni ar wahanol amlblecsau posib (h.y. cydnawsedd fformatau gwasanaethau), byddwn yn ystyried bodolaeth datganiadau clir o gefnogaeth gan y rheini sy'n dymuno darparu gwasanaethau ar gapasiti wedi'i neilltuo, ac ar gapasiti heb ei neilltuo. Bydd datganiadau o'r fath gan wasanaethau analog lleol a chymunedol sy'n bodoli'n barod yn ddylanwadol iawn (h.y. y rheini lle mae eu gwasanaeth eisoes yn weithredol, ac sydd felly'n debygol iawn o ddilyn y llwybr at ddarlledu digidol a gynigir gan DAB ar raddfa fach).

# Meini prawf eraill ar gyfer dyfarnu trwydded

## Cynnwys darparwyr gwasanaeth C-DSP yn y grŵp ymgeiswyr

7.53 Fel sydd wedi'i nodi uchod yn barod, mae Adran 51(2)(ca) o Ddeddf 1996 – fel y mae wedi'i haddasu gan y Gorchymyn – yn mynnu bod Ofcom yn ystyried pa mor ddymunol yw dyfarnu trwydded amlblecs radio ar raddfa fach i gorff corfforaethol sy'n darparu, neu sy'n cynnig darparu, gwasanaeth C-DSP yn yr ardal leol sy'n cael ei hysbysebu.

7.54 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, roedd Wireless yn dadlau y dylai fod yn ofyniad hanfodol – yn hytrach na dymunol – bod darparwyr gwasanaeth C-DSP yn cael eu cynnwys yn y grŵp ymgeiswyr. Hefyd, fe awgrymodd y dylai Ofcom roi mwy o bwyslais ar fuddion cymdeithasol a chymunedol, yn hytrach na chreu elw.

7.55 Er y byddwn ni'n ystyried y maen prawf hwn wrth wneud penderfyniadau am ddyfarnu trwydded, mae'r ddeddfwriaeth yn dweud yn glir mai nodwedd ddymunol yw hon yn hytrach nag un ofynnol, ac ni fyddai'n rhwystro trwydded rhag cael ei dyfarnu i ymgeiswyr amlblecs nad ydynt yn cynnwys darparwr gwasanaeth C-DSP yn uniongyrchol. Byddwn yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n cynnwys darparwyr gwasanaeth C-DSP yn uniongyrchol yn eu grŵp, a'r rheini sy'n gallu dangos fel arall fod galw a chefnogaeth ymysg darparwyr o'r fath.

## Galw neu gefnogaeth ymysg darparwyr gwasanaethau rhaglenni posib

7.56 Fel y nodir uchod, mae adran 51(2)(f) o Ddeddf 1996 – fel y mae wedi'i haddasu – yn mynnu bod Ofcom yn ystyried tystiolaeth bod gan yr ymgeisydd gefnogaeth gan

ddarparwyr sy’n awyddus i’w gwasanaethau rhaglenni presennol, neu rai a fwriedir i'r dyfodol, gael eu cludo ar yr amlblecs arfaethedig.

7.57 Gall y dystiolaeth y byddwn ni’n ei hystyried ddod gan ddeiliaid presennol trwyddedau DSP, neu gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni sy’n bwriadu gwneud cais am drwyddedau DSP neu C-DSP (neu sydd wedi gwneud hynny’n barod), a fyddai’n cynnwys trwyddedeion masnachol lleol a chymunedol analog presennol ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy’n gallu dangos y byddan nhw mewn sefyllfa i gludo nifer o wasanaethau ar gapasiti sydd wedi’i neilltuo, ac ar gapasiti heb ei neilltuo.

## Cystadleuaeth deg ac effeithiol

7.58 Mae Adran 51(2)(g) o Ddeddf 1996 – fel y mae wedi’i haddasu – yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu a yw'r ymgeisydd am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach, drwy gontractio neu gynnig contractio gyda darparwyr gwasanaethau rhaglenni, wedi gweithredu mewn modd a oedd yn sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath.

7.59 Wrth asesu ceisiadau yn erbyn y maen prawf hwn, bydd angen i ni fod yn hyderus bod darpar weithredwr y gwasanaeth amlblecs ar raddfa fach wedi cysylltu ag amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaeth posib, ac yn enwedig y rheini sydd ar hyn o bryd yn ddeiliaid un ai trwydded radio cymunedol neu drwydded radio analog masnachol lleol yn yr ardal.

7.60 Bydd y math o dystiolaeth y gallwn ofyn amdani gan yr ymgeisydd yn cynnwys crynodeb o’r camau a gymerwyd i gysylltu â gwasanaethau o’r fath ac i’w trafod cyn, ac yn ystod, y broses o ymgeisio am drwydded amlblecs, a chyflwyno contractau cludo arfaethedig.

# 8. Trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol: amodau a gofynion

## Beth yw trwydded C-DSP?

8.1 Mae trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol (‘C-DSP’) yn drwyddedau ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol newydd neu sydd eisoes yn bodoli, ac sy’n dymuno darlledu ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach (neu leol). Dim ond corff corfforaethol nad yw’n dosbarthu elw fydd yn gallu dal y drwydded hon, a bydd y drwydded yn parhau mewn grym am gyfnod amhenodol (h.y. nes bydd y trwyddedai yn ei hildio, neu nes y bydd Ofcom yn ei dirymu).

8.2 Mae adran 61(2A) o Ddeddf 1996, fel y mae wedi’i haddasu gan y Gorchymyn, yn mynnu bod trwyddedau C-DSP yn cynnwys amod sy’n sicrhau mai dim ond ar un gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y caiff y gwasanaeth ei ddarlledu. Mae hyn yn golygu bod rhaid cael trwydded ar wahân ar gyfer pob gwasanaeth C-DSP sy’n cael ei ddarlledu ar bob amlblecs. Fodd bynnag, caiff un endid corfforaethol ddal sawl trwydded C-DSP.

8.3 Fel gorsafoedd radio cymunedol analog, mae angen i ddeiliaid trwyddedau C-DSP fodloni rhai nodweddion radio cymunedol, gan gynnwys cynnig budd cymdeithasol i'r cymunedau y maent wedi'u trwyddedu i'w gwasanaethu. Bydd gan y trwyddedau gyfyngiadau tebyg i’r rhai sy’n berthnasol ar hyn o bryd i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol analog, sy'n ymwneud â faint o incwm y gallant ei gael drwy werthu nawdd a hysbysebion ar yr awyr.

8.4 Nid trwydded C-DSP yw’r unig opsiwn i wasanaethau sydd am ddarlledu drwy wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach. Gall gwasanaethau rhaglenni hefyd gael eu darlledu o dan drwydded DSP leol bresennol – yn wahanol i drwyddedau C-DSP, nid oes angen i ddeiliaid y drwydded hon gynnig buddion cymdeithasol i gymuned benodol.

8.5 Yn wahanol i'r trwyddedau ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol analog, nid oes unrhyw sbectrwm ynghlwm wrth drwyddedau C-DSP. Bydd angen i ddeiliaid trwyddedau C-DSP wneud cais i weithredwyr amlblecsau er mwyn defnyddio capasiti ar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach. Fel arfer, byddai’r capasiti hwn wedi’i glustnodi i gael ei ddefnyddio gan drwyddedeion C-DSP yn unig (‘capasiti wedi’i neilltuo’), ond nid yw trwyddedeion C-DSP yn cael eu hatal rhag gwneud cais i gael mynediad at gapasiti sydd heb ei neilltuo (e.e. os nad oes digon o gapasiti wedi’i neilltuo ar ôl ar gyfer y gwasanaeth). Ni all trwyddedeion DSP gael mynediad at gapasiti wedi’i neilltuo.

8.6 Yn wahanol i drwyddedau radio cymunedol analog, bydd trwyddedau C-DSP yn caniatáu – ond nid yn mynnu – bod gwasanaeth yn darlledu. Fel y nodwyd yn barod, y rheswm am hyn yw bod angen i'r trwyddedai gytuno ar y trefniadau cludo gyda gweithredwr yr amlblecs. Nid oes cyfyngiad ar nifer y gwasanaethau C-DSP a gaiff eu trwyddedu mewn un ardal leol.

8.7 Mae adran 61B(2) o Ddeddf 1996, fel y mae wedi’i haddasu gan y Gorchymyn, yn rhoi pŵer i Ofcom amrywio amodau trwydded C-DSP (gan gynnwys y Prif Ymrwymiadau). Gan ystyried i ba raddau y byddai’r gwasanaeth yn parhau i arwain at fuddion cymdeithasol, byddai’r

gymuned berthnasol yn dal i gael cynnig cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o weithredu a rheoli’r gwasanaeth, a byddai’r trwyddedai yn dal yn atebol i’r gymuned berthnasol. Os yw gwasanaeth yn dymuno gwneud newid mwy sylweddol i’w drwydded, yn hytrach na hynny gallai darparwr y gwasanaeth rhaglenni ildio ei drwydded C-DSP bresennol a gwneud cais am C-DSP newydd sy’n adlewyrchu’r newidiadau mae’n dymuno eu gwneud.

8.8 Bydd yn rhaid i drwyddedeion C-DSP gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom, fel y mae’n berthnasol i bob gwasanaeth radio sy’n cael ei ddarlledu, a bydd angen iddynt hefyd – yn yr un modd â thrwyddedau eraill – roi gwybodaeth i Ofcom at ddibenion arfer ein swyddogaethau.

8.9 Ni ellir trosglwyddo trwydded C-DSP o un corff i'r llall heb ganiatâd ysgrifenedig Ofcom. Mae’r ddeddfwriaeth yn datgan na chawn roi caniatâd oni bai ein bod yn fodlon y byddai’r unigolyn (corff neu gwmni) y bwriedir trosglwyddo'r drwydded iddo mewn sefyllfa i gydymffurfio â holl amodau'r drwydded. Gofynnir i'r unigolyn y bwriedir trosglwyddo'r drwydded iddo ddarparu tystiolaeth o'r cyllid sydd ar gael i ddeiliad newydd y drwydded i gynnal y gwasanaeth wrth symud ymlaen, a gwybodaeth arall y mae Ofcom o’r farn sy’n briodol ar adeg y cais.

## Y Prif Ymrwymiadau: lleoliad y stiwdio

### Yr hyn roeddem ni’n ei gynnig

8.10 Roeddem ni’n cynnig bod y 'Prif Ymrwymiadau’ mewn trwyddedau C-DSP yn canolbwyntio’n bennaf ar gynnig ‘buddion cymdeithasol’12F13, atebolrwydd i’r gymuned darged a’r gallu i aelodau o’r gymuned honno gymryd rhan yn y gwasanaeth. O'i gymharu â radio cymunedol analog, roeddem yn dweud y byddem yn canolbwyntio llai ar y gofynion penodol o ran rhaglenni, ond bydd y Prif Ymrwymiadau yn dal yn gorfod cynnwys disgrifiad o gymeriad y gwasanaeth. Byddai hyn yn cynnwys manylion y gymuned darged; ym mhle mae’r gymuned darged; a disgrifiad o brif bwrpas y gwasanaeth radio, a’i brif swyddogaeth neu weithgareddau.

8.11 Fel gyda thrwyddedau radio cymunedol analog, roeddem yn cynnig y dylid cael Prif Ymrwymiadau ‘safonol’ hefyd mewn perthynas â chynnig i'r gymuned darged fuddion cymdeithasol, atebolrwydd a chyfleoedd i gymryd rhan yn y gwasanaeth. Roeddem yn dweud bod y broses o gyflawni’r Prif Ymrwymiadau ar gyfer pob trwydded unigol yn gorfod bod yn benodol i’r drwydded honno, ac i’r ardal a’r gymuned benodol sy’n cael eu gwasanaethu.

8.12 Gan fod rhaid i drwyddedai C-DSP gynnig buddion cymdeithasol a chyfleoedd i gymryd rhan ar gyfer y gymuned darged, a bod yn atebol iddi, fe wnaethom ni gynnig y dylai'r Prif

[13] Caiff ei ddiffinio fel hyrwyddo trafodaeth a mynegi barn; darparu addysg neu hyfforddiant i unigolion nad ydynt yn gyflogedig gan yr unigolyn sy’n darparu’r gwasanaeth; a gwell dealltwriaeth o’r gymuned benodol a chryfhau cysylltiadau oddi mewn iddi.

Ymrwymiadau nodi, fel y maent yn ei wneud ar gyfer radio cymunedol analog, y dylai'r stiwdio y darlledir y gwasanaeth ohoni fod wedi'i lleoli o fewn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y caiff ei gludo arno.

8.13 O gofio nad oes rhaid i drwyddedeion C-DSP ddarlledu (yn wahanol i drwyddedeion radio cymunedol analog), roeddem yn egluro ei bod yn rhaid i'r gwasanaeth fod yn darlledu er mwyn i'r Prif Ymrwymiadau fod yn berthnasol i drwydded C-DSP.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

**Cwestiwn 7 yr Ymgynghoriad: A ddylai Ofcom ei gwneud yn ofynnol i stiwdio trwyddedai C-DSP gael ei lleoli yn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y mae'n bwriadu darlledu arno? Eglurwch y rheswm dros eich safbwynt.**

8.14 Cymysg oedd barn yr ymatebwyr ynghylch mynnu bod y stiwdio wedi'i lleoli yn ardal ddarpariaeth y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach penodol, gyda 53 o'r rheini a atebodd y cwestiwn hwn yn cefnogi ein dull arfaethedig (neu'n ei gefnogi ar y cyfan), a 57 yn ei wrthwynebu (neu'n feirniadol ohono ar y cyfan). O fewn hynny, roedd y rheini a oedd yn awyddus i fod yn drwyddedai C-DSP newydd neu amlblecs radio ar raddfa fach yn tueddu i gefnogi cynnig Ofcom, tra bo llawer o orsafoedd radio cymunedol analog a gweithredwyr yr amlblecsau graddfa fach a dreialwyd yn gwrthwynebu.

8.15 Teimlai ychydig o ymatebwyr, fel Oldham Community Broadcasting ac All Arts and Media, y dylai Ofcom ddelio fesul achos â'r gofyniad i gael stiwdio leol, gan ystyried pwysigrwydd tebygol cael stiwdio leol o ran natur y gymuned darged y mae'r ymgeisydd yn bwriadu ei gwasanaethu.

8.16 Roedd nifer o'r rheini a oedd yn cytuno â chynnig Ofcom yn dadlau y byddai'n annheg petai trwyddedeion C-DSP o ardaloedd eraill yn cael defnyddio capasiti wedi'i neilltuo, ac roeddent yn poeni y byddai peidio â chael y rheol hon yn gallu arwain at ddatblygu rhwydwaith o drwyddedau C-DSP ar draws sawl amlblecs a fyddai, i bob pwrpas, yn darlledu eu gwasanaeth yn rhanbarthol neu'n lled-genedlaethol. Dywedodd Penistone Community Radio, er enghraifft, na fyddai hynny'n ymddangos yn rhywbeth priodol wrth ystyried yr egwyddorion sy'n sail i radio cymunedol. Dywedodd Central FM Limited fod y gwasanaethau hyn yn rhai cymunedol a fydd yn cynnig rhywbeth unigryw i'r ardal honno, felly roedd yn teimlo ei bod yn rhaid iddyn nhw gael eu lleoli yn yr ardal ddarlledu leol. Dywedodd hefyd mai gwirfoddolwyr yw'r staff gan fwyaf, sydd â gwybodaeth gadarn am yr ardal leol.

8.17 Soniodd ymatebydd arall, Brian Lister, am y buddion economaidd posib yn lleol wrth gael capasiti wedi'i neilltuo'n arbennig ar gyfer gwasanaethau lleol. Roedd yn dadlau y bydd y gofyniad yn cynnig y budd pellach o greu a chynnal profiad o gynhyrchu darllediadau, cyfleoedd gwaith a chyfleusterau mewn cymunedau ar hyd a lled y DU, yn hytrach nag mewn nifer cyfyngedig o ganolfannau metropolitan.

8.18 Roedd ymatebwyr fel Niocast, a oedd yn gwrthwynebu cynigion Ofcom ynghylch lleoliad y stiwdio, yn dadlau bod yr holl gysyniad o "stiwdio" yn hen ffasiwn mewn oes lle mae

lleoliad yr offer ei hun yn dod yn llai a llai pwysig, a lle mae cyflwynwyr yn aml yn gallu darlledu eu rhaglenni o'u cartrefi erbyn hyn. Dywedodd Sunshine 104.9 y byddai gallu gorsafoedd i ddarlledu o unrhyw le, gan gynnwys cartrefi pobl, yn helpu gwirfoddolwyr ag anableddau.

8.19 Roedd rhai, gan gynnwys Bristol Digital Radio, wedi tynnu sylw at senario lle gallai ardal darlledu analog bresennol gorsaf radio cymunedol gael ei rhannu gan fwy nag un amlblecs ar raddfa fach. Gallai hyn olygu bod yr orsaf gymunedol yn gorfod ysgwyddo'r costau o sefydlu a rhentu stiwdio mewn lleoliad ychwanegol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer capasiti wedi'i neilltuo yn ail ardal yr amlblecs.

8.20 Ond, y pwynt mwyaf cyffredin a gododd mewn gwrthwynebiad i'r polisi arfaethedig oedd bod nifer sylweddol o orsafoedd radio cymunedol yn gwasanaethu cymuned fuddiant nad yw, o reidrwydd, yn cyfateb i ardal ddaearyddol benodol. Er enghraifft, dywedodd Nation Broadcasting ei bod yn annheg na fyddai rhai gorsafoedd yn cael manteisio o bosib ar fuddion trwydded C-DSP oherwydd eu bod y tu allan i'r ardal, er eu bod yn wasanaeth i gymuned fuddiant a allai wir apelio i bobl yn yr ardal lle mae'r amlblecs yn gweithredu. Teimlai Resonance FM fod ein cynigion yn mynd yn groes i syniad Arts Council England o DAB ar raddfa fach yn rhan o ecoleg genedlaethol, tra bo Susy Radio yn dadlau y gallai rhai gwasanaethau i gymunedau buddiant ddod i ben yn sgil y cyfyngiad, a fyddai'n golygu bod gan ddefnyddwyr lai o ddewis a bod amlblecsau yn colli refeniw.

8.21 Ychydig o sylwadau a gafwyd ynghylch agweddau eraill ar ein dull arfaethedig o reoleiddio Prif Ymrwymiadau C-DSP, ond teimlai rhai darlledwyr cymunedol y dylai trwyddedau C-DSP fod yr un mor fanwl â thrwyddedau radio cymunedol analog presennol o ran ymrwymiadau rhaglenni, er mwyn diogelu nodweddion radio cymunedol yn llawn.

8.22 Teimlai Commedia Sheffield, Community Media Solutions a'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol na ddylai'r ffi flynyddol sy'n gysylltiedig â thrwydded C-DSP fod yn daladwy nes bydd gwasanaeth C-DSP yn darlledu ar amlblecs radio ar raddfa fach (ac felly'n cyflawni ei Brif Ymrwymiadau).

## Dadansoddiad a chasgliadau

8.23 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ystod amrywiol o safbwyntiau ynghylch y cwestiwn am leoliad y stiwdio, rydym wedi penderfynu cadarnhau'r cynigion roeddem wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys mynnu bod gwasanaeth C-DSP yn cael ei ddarlledu o stiwdio yn ardal trwydded y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth C-DSP. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gofyniad presennol bod gan orsafoedd radio cymunedol analog stiwdios yn ardal eu trwydded.

8.24 Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y byddai caniatáu i stiwdio gwasanaeth C-DSP gael ei lleoli y tu allan i ardal y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach perthnasol yn gallu agor y drws i wasanaethau rhanbarthol neu led-genedlaethol ddefnyddio capasiti wedi'i neilltuo. Byddai gwasanaethau o'r fath yn cystadlu am gapasiti neilltuedig prin yn erbyn y gwasanaethau cymunedol hynny sydd â phresenoldeb ffisegol yn yr ardal, gyda'r cyfleoedd gwell i hyfforddi a chymryd rhan a ddaw yn sgil hynny yn ôl yr

ymatebwyr. Felly, byddai'n cynyddu cost debygol capasiti o'r fath i bob gwasanaeth cymunedol.

8.25 Rydym hefyd o'r farn ei bod yn berthnasol – fel y nodir yn ein hymgynghoriad – bod y Gorchymyn yn gwyro'n gynnil oddi wrth y ddeddfwriaeth, sy'n sail i radio cymunedol analog, o ran y ffordd mae'n diffinio "cymuned". Yn benodol, mae'n dweud ei bod yn rhaid i'r gymuned sydd â buddion neu nodweddion cyffredin fod yn gymuned sydd wedi'i lleoli'n ffisegol yn yr ardal benodol. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn egluro bod buddion cymdeithasol gan wasanaeth C-DSP yn fudd penodol i'r unigolion hynny yn y gymuned fuddiant sy'n byw, yn gweithio neu'n cael addysg neu hyfforddiant yn yr ardal – hyd yn oed os yw'r gymuned fuddiant yn cael ei diffinio'n bennaf gan rywbeth ar wahân i leoliad.

8.26 Rydym yn deall pwynt nifer o'r ymatebwyr nad yw cymunedau buddiant o reidrwydd yn seiliedig ar ardal ddaearyddol, neu'n seiliedig ar hynny'n unig. I roi enghraifft ddamcaniaethol, efallai y bydd gwasanaeth sy'n dymuno apelio i fyfyrwyr yn dymuno gweithredu o gampws un brifysgol yn unig, ond yn darlledu drwy nifer o wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach sydd ag ardal ddarpariaeth sy'n cynnwys poblogaeth sylweddol o fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw'r cwestiwn polisi yn gofyn a ddylai darlledwr o'r fath allu gweithredu ar y model hwnnw – mae'n gofyn a ddylai'r darlledwr, y tu allan i brif ardal yr amlblecs, orfod sefydlu stiwdios ym mhob ardal gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach (er mwyn bod yn gymwys ar gyfer mwy nag un drwydded C-DSP o bosib), neu a ddylai ddarlledu yn lle hynny drwy drwyddedau DSP ar gapasiti heb ei neilltuo mewn ardaloedd lle nad oes ganddo stiwdio. Yn ein barn ni, dyna sy'n briodol am y rhesymau uchod, ac mae'r darpariaethau deddfwriaethol yn ategu hynny.

8.27 Rydym yn cydnabod bod newidiadau ym myd technoleg wedi arwain at gyfleoedd i weithio mewn llefydd ar wahân i stiwdio draddodiadol. Yn 2018 roedd Ofcom, yn rhannol i gydnabod y newidiadau hyn, wedi dadreoleiddio ymhellach y gofynion ar gyfer rhaglenni a wneir yn lleol ar gyfer gorsafoedd radio masnachol analog. Fodd bynnag, rydym yn nodi pwysigrwydd gofynion gwasanaethau radio cymunedol o ran buddion cymdeithasol nad ydynt yn ymwneud â darlledu, fel darparu hyfforddiant i wirfoddolwyr a chynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned darged yn yr ardal ar faterion nad ydynt yn ymwneud â darlledu. Rydym ni o'r farn bod cael presenoldeb ffisegol ar ffurf stiwdio yn dal yn bwysig er mwyn sicrhau buddion cymdeithasol mewn ffordd effeithiol (ac amlwg). Nid yw hyn yn rhwystro gwasanaethau rhag defnyddio technoleg hefyd i alluogi'r gymuned darged i gyfrannu o bell, ac yn wir rydym yn annog arloesi o ran dulliau o gynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned.

8.28 Wrth weithredu'r polisi hwn, byddwn yn defnyddio lefelau synhwyrol o ddisgresiwn (fel rydym yn ei wneud ar hyn o bryd gyda materion yn ymwneud â lleoliad stiwdio ym maes radio cymunedol analog) mewn sefyllfaoedd lle mae stiwdio'r orsaf fymryn y tu allan i ardal ddarpariaeth y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach sy'n cludo'r gwasanaeth.

8.29 Rydym hefyd wedi penderfynu cadw at ein safbwynt y dylai'r ymrwymiadau o ran rhaglenni ar yr awyr mewn trwyddedau C-DSP fod yn llai rhagnodol na'r rheini yn nhrwyddedau'r rhai analog cyfatebol, oherwydd – fel rydym wedi dweud yn yr ymgynghoriad, ac fel yr ymgorfforwyd yn y meini prawf deddfwriaethol ar gyfer dyfarnu trwyddedau C-DSP – rydym yn credu y dylai'r Prif Ymrwymiadau mewn trwyddedau C-DSP ganolbwyntio'n bennaf

ar gynnig ‘buddion cymdeithasol’, cyfleoedd i gymryd rhan ac atebolrwydd. Mae hefyd yn fwy cyson â’r gofynion ‘llai llawdrwm’ ar gyfer rhaglenni a welir mewn trwyddedau DSP. Yn wahanol i drwyddedau radio cymunedol analog, nid yw’r meini prawf dyfarnu ar gyfer trwyddedau C-DSP yn ystyried i ba raddau y byddai cynnwys yn darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau’r gymuned berthnasol, nac yn darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau gwahanol i’r rheini y mae gwasanaethau presennol eisoes yn darparu ar eu cyfer. Yn ymarferol, byddem yn disgwyl y byddai mynnu bod gwasanaethau yn cynnig cyfleoedd i’r gymuned berthnasol gymryd rhan, a’u bod yn atebol i’r gymuned honno, yn debygol o lywio gwasanaethau i ddarparu ar gyfer chwaeth a diddordebau’r gymuned honno. Fodd bynnag, nid oes angen rheoleiddio hynny'n uniongyrchol drwy ymrwymiadau penodol o ran rhaglenni.

## Cyfyngiadau cyllido: dosrannu incwm ar gyfer deiliaid trwyddedau DSP lleol a radio cymunedol analog

### Yr hyn roeddem ni’n ei gynnig

8.30 Mae adran 61A o Ddeddf 1996, fel y mae wedi’i haddasu gan y Gorchymyn, yn cynnwys cyfyngiadau ar faint o incwm hysbysebu a nawdd mae trwyddedeion C-DSP yn ei gael. Yn ein hymgynghoriad, roeddem yn cynnig y byddai’n rhaid i bob trwyddedai gyflwyno adroddiad cyllid blynyddol i ni ar ôl iddyn nhw fod yn darlledu am fwy na blwyddyn. Bydd hyn yn galluogi Ofcom i weld a yw'r gorsafoedd yn gweithredu yn unol â’r terfynau incwm a nodwyd yn y ddeddfwriaeth. Roedd Ofcom yn cynnig cael darpariaethau mewn trwyddedau C-DSP sy’n debyg i’r rheini sy’n berthnasol ar hyn o bryd i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol analog, sy'n ymwneud â faint o incwm y gallant ei gael drwy werthu nawdd a hysbysebion ar yr awyr.

8.31 Mae Adran 67A yn cydnabod y posibilrwydd o gael gwasanaethau C-DSP a radio cymunedol analog “cyfatebol”13F14. Mewn amgylchiadau o’r fath, bydd yn rhaid i’r gwasanaethau cyfatebol gofnodi eu hincwm gyda’i gilydd mewn un adroddiad ariannol blynyddol, oherwydd mae’r ddeddfwriaeth yn mynnu bod yr amodau cyllid yn y drwydded yn berthnasol i drwyddedau C-DSP ac i drwyddedau analog gyda’i gilydd, yn hytrach nag ar wahân. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y bydd “lwfans refeniw sefydlog” o £15,000 yn berthnasol i’r gwasanaethau cyfatebol gyda’i gilydd, ac y bydd incwm perthnasol o hysbysebion a nawdd a fydd dros y lwfans hwnnw wedi’i gyfyngu i 50% o gyfanswm yr incwm perthnasol ar draws y naill wasanaeth a'r llall.

8.32 Mewn sefyllfaoedd pan fydd gan drwyddedai drwydded radio cymunedol analog a DSP (yn hytrach na thrwydded C-DSP) ond bod y gwasanaeth DSP yn cyfateb i’r gwasanaeth analog (o dan yr un diffiniad y cyfeirir ato uchod), roeddem yn cynnig y dylai’r trwyddedai ddosrannu ei incwm yn gyfartal rhwng ei drwyddedau analog a DSP, oni bai fod ganddo resymau cryf dros ddadlau y dylid dosrannu’r incwm mewn ffordd wahanol. O dan y cynigion,

[14] Yn ôl y diffiniad yn y ddeddfwriaeth, pan fydd 80% o orgyffwrdd rhwng cynnwys rhaglenni, gydag o leiaf 50% yn cael eu darlledu ar yr un pryd.

ni fyddai'n rhaid i drwyddedeion DSP ofyn am unrhyw ganiatâd ymlaen llaw i wyro oddi wrth ddosrannu cyfartal. Fodd bynnag, os ydynt wedi gwyro oddi wrth hynny dylai'r trwyddedeion allu egluro – os bydd Ofcom yn gofyn – pam mae'r dosraniad yn rhesymol, a darparu tystiolaeth i gefnogi hyn.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

**Cwestiwn 8 yr Ymgynghoriad: Rydym yn cynnig y dylai deiliaid trwyddedau DSP a radio cymunedol analog cyfatebol rannu eu hincwm yn gyfartal ar draws eu trwyddedau, oni bai fod rhesymau cymhellol pam bod rhannu mewn ffordd wahanol yn rhesymol. Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu a awgrymwyd gennym?**

8.33 Roedd llawer o'r 106 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn wedi meddwl, mewn camgymeriad, ei fod yn ymwneud â'r egwyddor o fynnu bod y cyfyngiadau presennol ar gyllid radio cymunedol analog yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer trwyddedau C-DSP. Ond mae'r cwestiwn a ddylai rheolau o'r fath fodoli, ac a ddylent fod yn berthnasol ar draws gwasanaethau C-DSP a gwasanaethau radio cymunedol analog cyfatebol, yn cael ei ateb gan y ddeddfwriaeth (adran 61A o Ddeddf 1996 fel y mae wedi'i haddasu gan y Gorchymyn), sy'n dweud y dylent fodoli ac y dylent gael eu rhoi ar waith. Felly, nid oes gan Ofcom unrhyw ddisgresiwn yn yr elfen hon.

8.34 Roedd pwyslais y cwestiwn yn ymwneud yn fwy cyfyng â'r hyn y dylai Ofcom ei wneud mewn sefyllfaoedd lle mae gwasanaeth DSP (yn hytrach na C-DSP) yn cyfateb i wasanaeth radio cymunedol analog. Pwrpas y cynnig hwn oedd delio â sefyllfa lle gallai deiliaid trwydded radio cymunedol analog geisio dosrannu eu holl refeniw masnachol, neu'r rhan fwyaf ohono, yn artiffisial i drwydded DSP yn hytrach nag i drwydded radio cymunedol analog er mwyn ceisio osgoi cyfyngiadau ar incwm masnachol radio cymunedol.

8.35 Yn ôl Pwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom, pe na bai'r drefn ddiofyn a gynigir yn bodoli – sef dosrannu incwm yn gyfartal ar draws trwyddedau DSP a thrwyddedau radio cymunedol analog cyfatebol – byddai llai o gymhelliant i wneud cais am drwydded C-DSP, ac felly byddai llai o 'fuddion cymdeithasol' posib i'r gymuned.

8.36 Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r angen i ddosrannu, ond yn teimlo y dylai trwyddedeion gael yr hyblygrwydd i wyro oddi wrth y dosraniad cyfartal a gynigir rhwng trwyddedau radio cymunedol analog a thrwyddedau DSP, ac i ddosrannu mwy o refeniw i'r drwydded DSP. Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle'r oedd ymatebwyr yn credu y gellid cyfiawnhau gwyro oddi wrth ddosrannu'n gyfartal:

- mae un drwydded radio cymunedol analog yn bodoli, ond mae'r trwyddedai yn cynnal nifer o wasanaethau DSP cyfatebol ar draws gwahanol amlblecsau;
- mae ardal darpariaeth DAB y gwasanaeth yn llawer mwy (o ran poblogaeth) na'r ardal darpariaeth analog gyfatebol;
- mae cyfran y gwrando ar radio digidol yn y DU, fel y mae hynny'n cael ei fesur gan RAJAR, wedi cynyddu'n sylweddol (er enghraifft, i 75% neu fwy).

8.37 Dywedodd Sunrise FM nad oedd yn credu y dylai gorsafoedd radio cymunedol analog fod yn gymwys i ddal trwyddedau DSP o gwbl, gan fod hyn yn awgrymu eu bod yn orsafoedd cymunedol ac yn orsafoedd masnachol ar yr un pryd.

## Dadansoddiad a chasgliadau

8.38 Mewn sefyllfaoedd lle mae gan orsaf radio cymunedol analog drwydded DSP hefyd, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig ynghylch 'dosraniad cyfartal'. Er ein bod yn cytuno ag ymatebwyr a ddywedodd y byddai'n briodol dosrannu'n wahanol mewn rhai amgylchiadau, roedd ein hymgynghoriad eisoes yn cynnig gwyro oddi wrth y drefn ddiofyn pan fydd rhesymau cryf dros wneud hynny.

8.39 Yn benodol, efallai y byddwn yn adolygu'r rhaniad 50/50 'diofyn' rhwng refeniw trwydded DSP a thrwydded radio cymunedol analog, petai'r gyfran sy'n gwrando ar wasanaethau radio digidol – fel y mae hynny'n cael ei fesur yn genedlaethol gan RAJAR – yn cynyddu'n sylweddol o'r gyfran bresennol, sef 58.4% o'r holl wrando a wneir ar y radio.

8.40 O ran y pwynt a gododd Sunrise FM (paragraff 8.37), nid oes cyfyngiad deddfwriaethol i atal deiliad trwydded radio cymunedol analog rhag dal trwydded DSP hefyd, ac mae gan ambell un drwydded o'r fath yn barod. Felly, nid oes gan Ofcom bwerau i gyflwyno gwaharddiad o'r fath.

# 9. Trwyddedau rhaglenni sain digidol cymunedol: ymgeisio a dyfarnu

9.1 Fel y nodir yn ein hymgynghoriad, ni fydd y broses o ddyfarnu trwyddedau C-DSP yn golygu cystadleuaeth rhwng ymgeiswyr. Mae hyn yn wahanol i'r drefn ar gyfer radio cymunedol analog, oherwydd ni fydd unrhyw sbectrwm yn cael ei ddyrannu (nac ymrwymiad i ddarlledu) wrth ddyfarnu trwydded C-DSP, ac nid oes cyfyngiad ar nifer y trwyddedau C-DSP y gellir eu dyfarnu mewn ardal leol. Fodd bynnag, mae'n dal yn rhaid i Ofcom ystyried rhai materion a nodwyd yn y Gorchymyn wrth benderfynu a ddylid dyfarnu trwydded C-DSP ai peidio.

9.2 Ni ddylid cymryd y bydd Ofcom yn dyfarnu trwydded C-DSP i bawb sy'n gwneud cais am un. Mae trwyddedau'n rhoi mynediad at gapasiti sydd wedi'i neilltuo ar wasanaethau amlblecs radio ar raddfa fach, ac mae'n bwysig bod gwasanaethau sy'n gweithredu o dan drwyddedau C-DSP yn cynnig y buddion cymdeithasol angenrheidiol i gyfiawnhau'r statws arbennig hwnnw. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae trwyddedau DSP lleol ar gael i'r rheini nad ydynt yn dymuno cael eu clymu i amodau trwydded sy'n ymwneud â buddion cymdeithasol, a gall y trwyddedeion hynny fynd ati i drafod â gweithredwyr amlblecs ynghylch cael mynediad at gapasiti heb ei neilltuo ar amlblecs radio ar raddfa fach.

9.3 Ar gyfer pob cais am drwydded C-DSP, bydd angen i ni asesu a yw cynigion yr ymgeisydd yn bodloni nodweddion angenrheidiol gwasanaeth C-DSP fel y nodir yn y Gorchymyn.

9.4 Hefyd, mae adran 60(6) o Ddeddf 1996 fel y mae wedi'i haddasu gan y Gorchymyn yn datgan ei bod yn rhaid i Ofcom, wrth bennu a yw am ddyfarnu'r drwydded dan sylw, ystyried i ba raddau:

a) y byddai darparu'r gwasanaeth arfaethedig yn arwain at fuddion cymdeithasol i'r cyhoedd neu i'r gymuned berthnasol;

b) mae aelodau'r gymuned berthnasol yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o redeg a rheoli'r gwasanaeth arfaethedig; ac

c) mae'r ymgeisydd yn atebol i'r gymuned berthnasol mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth arfaethedig.

9.5 Diffinnir y "gymuned berthnasol" fel y gymuned neu'r cymunedau y mae'r gwasanaeth yn bwriadu eu gwasanaethu.

9.6 Yn yr adran hon rydym yn disgrifio sut rydym wedi penderfynu gwahodd ceisiadau am drwyddedau C-DSP, a'r broses y byddwn yn ei dilyn wrth ystyried ceisiadau a phenderfynu a fydd trwyddedau'n cael eu dyfarnu ai peidio.

# Amserlen ar gyfer derbyn ceisiadau

## Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

9.7 Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn cynnig na fyddai darpar ddarparwyr gwasanaeth C-DSP yn gallu gwneud cais am drwydded C-DSP nes i ni wahodd ceisiadau am y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach y bwriedir ei defnyddio i ddarlledu'r gwasanaeth C-DSP arfaethedig. Ar ôl cychwyn y cyfnod ar gyfer ceisiadau C-DSP, nid oeddem yn cynnig dirwyn y cyfnod i ben oni bai ein bod yn methu dyfarnu'r drwydded amlblecs radio ar raddfa fach berthnasol ar ôl hysbysebu.

9.8 Roeddem yn cynnig prosesu ceisiadau am drwyddedau C-DSP ym mhob swp, ar sail y cyntaf i'r felin.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

> **Cwestiwn 9 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig y bydd darpar ddarparwyr gwasanaeth C-DSP yn gallu gwneud cais am drwydded C-DSP unwaith y byddwn wedi gwahodd ceisiadau am y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach y bwriedir i'w gwasanaeth C-DSP arfaethedig gael ei ddarparu arni?**

9.9 Cafwyd sylwadau gan 113 o ymatebwyr ynghylch y cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid ein cynnig, neu o'i blaid yn gyffredinol.

9.10 Er enghraifft dywedodd Brian Lister, a oedd o blaid cynnig Ofcom, fod ceisiadau am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach yn debygol o gael eu cyflwyno yn dilyn trafodaethau â darparwyr gwasanaeth C-DSP posib, ac felly y byddai'n synhwyrol i'r prosesau hyn fynd rhagddynt ar yr un pryd. Roedd Switch Radio yn cytuno ei bod yn debygol bod rhai darparwyr gwasanaeth C-DSP eisoes yn cyflwyno ceisiadau am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach hefyd. Dywedodd Forever DAB y bydd cynnig Ofcom yn helpu gweithredwyr amlblecsau i gynllunio eu gorsafoedd ac i weithio gyda darparwyr gwasanaeth.

9.11 Roedd Penistone Community Radio Ltd hefyd yn cytuno â'r cynnig, ond yn poeni na ddylai'r gallu i wneud cais am drwydded C-DSP gael ei gyfyngu i'r rheini sydd wedi dewis ymgeisydd penodol am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach.

9.12 Er bod Susy Radio yn cytuno â'r cynnig, dywedodd fod yr ymgeisydd am drwydded C-DSP yn wynebu'r risg na fydd opsiwn cludo ar gael yn y pen draw.

9.13 Roedd rhai ymatebwyr o blaid peidio â chychwyn y cyfnod ceisiadau ar gyfer trwyddedau C-DSP nes bydd Ofcom wedi dyfarnu'r drwydded amlblecs radio ar raddfa fach berthnasol. Dywedodd Hospital Radio, Belfast FM Ltd, Radio Grapevine a'r Gymdeithas Radio Ysbyty y byddai hyn yn sicrhau na fyddai'n rhaid i wasanaethau C-DSP posib orfod talu unrhyw ffioedd trwydded cyn i'r gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach gael ei lansio – roedd y pwynt yma'n bwysig dros ben i wasanaethau cymunedol dielw ar gyfer ysbytai. Roedd Winchester Radio hefyd yn ffafrio'r awgrym hwn, a mynegodd bryder y byddai Ofcom yn

elwa'n ariannol ar ffioedd gan ymgeiswyr "cynnar" na fyddai byth yn cael defnyddio eu trwydded o bosib.

9.14 Roedd Nation Broadcasting, Angel Radio, Bristol Digital Radio, Future Digital Norfolk Limited a Viamux ymysg y rheini a awgrymodd, pe bai'r cyfnod ymgeisio ar gyfer trwyddedau C-DSP mewn ardal yn cael ei ddal yn ôl nes bydd y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach berthnasol wedi cael ei dyfarnu, y dylai Ofcom fynnu bod ymgeiswyr am drwydded C-DSP yn dangos tystiolaeth o'r capasiti y maent wedi'i sicrhau ar amlblecs, neu gytundeb mewn egwyddor â gweithredwr amlblecs. Y rheswm am hyn yw y byddai'n annheg – mewn ardaloedd lle mae galw mawr – bod mudiadau di-elw yn wynebu costau heb sicrwydd y byddent yn cael eu cludo ar y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach.

## Dadansoddiad a chasgliadau

9.15 Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid, neu o blaid yn gyffredinol, ein cynnig y byddai darparwyr gwasanaeth C-DSP yn gallu gwneud cais am drwydded C-DSP unwaith y byddwn wedi gwahodd ceisiadau am y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach y bwriedir ei defnyddio i ddarparu'r gwasanaeth C-DSP arfaethedig.

9.16 Roeddem wedi ystyried yn ofalus safbwyntiau'r ymatebwyr hynny a oedd yn ffafrio cychwyn y cyfnod i wneud cais am drwydded C-DSP ar ôl i Ofcom ddyfarnu'r drwydded amlblecs radio ar raddfa fach y bwriedir ei defnyddio i ddarparu'r gwasanaeth C-DSP arfaethedig. Rydym yn deall bod gwneud cais am drwydded C-DSP cyn i'r drwydded amlblecs radio ar raddfa fach berthnasol gael ei dyfarnu yn golygu risg ar ran yr ymgeiswyr, oherwydd byddai'n rhaid iddynt dalu ffi ymgeisio a mynd ati i lunio cais er ei bod yn bosib na fyddai'r drwydded amlblecs radio ar raddfa fach yn cael ei dyfarnu yn y pen draw i ymgeisydd sydd â chytundeb cludo mewn egwyddor â darpar ddarparwr gwasanaeth C-DSP.

9.17 Fodd bynnag, mae'n bwysig dweud mai dim ond opsiwn yw gwneud cais yn syth ar ôl i'r cyfnod ceisiadau gychwyn, ac nad yw hynny'n ofynnol. Efallai y bydd rhai darpar ddarparwyr gwasanaeth C-DSP eisiau aros nes gwybod yn bendant bod y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y mae arnynt eisiau darlledu arno wedi cael trwydded (h.y. peidio â gwneud cais yn syth ar ôl i'r drwydded amlblecs radio ar raddfa fach gael ei hysbysebu). Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, rydym yn cydnabod hefyd efallai y bydd rhai darpar ddarparwyr gwasanaeth C-DSP yn ffafrio cael trwydded C-DSP ar y cyfle cyntaf, hyd yn oed os nad ydynt yn gwybod eto a fydd y gwasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach y maent yn dymuno cael eu cludo arno yn cael trwydded.

9.18 Fel y dywedodd nifer o ymatebwyr, mae manteision sylweddol i ganiatáu ceisiadau pan hysbysebir y drwydded amlblecs radio ar raddfa fach berthnasol, yn hytrach nag yn hwyrach pan gaiff ei dyfarnu. Nodwn hefyd fod adran 51(2) o Ddeddf 1996, fel y mae wedi'i haddasu gan y Gorchymyn, yn mynnu bod Ofcom yn ystyried, ymysg pethau eraill, dystiolaeth bod galw am ddarparu'r gwasanaeth arfaethedig, neu gefnogaeth i hynny, ymysg pobl sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol neu gymunedol yn yr ardal honno. Rydym yn deall y gallai fod yn bur anodd i ymgeiswyr am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach ddangos bod rhywun sy'n datgan cefnogaeth (ac

eithrio rhywun sy'n darparu gwasanaeth analog ar hyn o bryd) wir yn bwriadu gweithredu gwasanaeth ar yr amlblecs. Un ffordd o wneud hynny fyddai petai datganiadau o gefnogaeth yn dod gan ddarparwyr posib a oedd wedi cyflwyno cais am drwydded C-DSP i Ofcom. Felly, rydym yn credu ei bod yn ddefnyddiol cynnig yr opsiwn i wneud cais ar y cam hwnnw, ond heb fod hynny'n orfodol.

9.19 O ran y pwynt a gododd Penistone Community Radio, ni fydd y cyfle i wneud cais am drwydded C-DSP yn cael ei gyfyngu i'r rheini sydd wedi dewis ymgeisydd penodol am drwydded amlblecs radio ar raddfa fach. Gall unrhyw ddarpar ddarparwr gwasanaeth C-DSP wneud cais. Ond, fel y nodwyd yn flaenorol, er bod dal trwydded C-DSP yn gyfle i gael mynediad at gapasiti wedi'i neilltuo ar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach, nid yw hynny'n rhoi sicrwydd o ran cludo gan nad yw nifer y trwyddedau C-DSP mewn ardal wedi'i chyfyngu i nifer y slotiau wedi'u neilltuo.

9.20 O ran talu ffioedd trwydded i Ofcom, rydym yn sylweddoli bod ffioedd ymgeisio yn fater o bwys i ymgeiswyr llai. Fodd bynnag, rhan gymharol fach ydyn nhw o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth radio, ac maen nhw'n angenrheidiol i gyfrannu at y gost o brosesu ceisiadau. Fel y nodwyd uchod, mae gwneud cais cyn cael sicrwydd o ran cludo ar wasanaeth amlblecs radio ar raddfa fach yn opsiwn, ond nid yw'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth C-DSP posib.

## Asesu a dyfarnu ceisiadau am drwydded C-DSP

### Yr hyn roeddem ni'n ei gynnig

9.21 Mae Adran 60(6) o Ddeddf 1996 yn mynnu bod Ofcom yn ystyried tri maen prawf statudol wrth benderfynu a ddylid dyfarnu trwydded C-DSP. Yn yr ymgynghoriad roeddem wedi esbonio'r meini prawf yn fwy manwl, ac wedi cynnig eu gwerthuso yn y ffyrdd canlynol:

d) **Cynnig buddion cymdeithasol:** I helpu Ofcom i asesu graddfa'r buddion cymdeithasol a gynigir, byddai ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddweud beth maen nhw'n bwriadu ei wneud, gan gyfeirio at eu profiad eu hunain ac unrhyw bartneriaethau arfaethedig â grwpiau eraill. Ni fyddai hyn yn cael ei gymharu â graddfa'r buddion cymdeithasol y mae ymgeiswyr eraill yn bwriadu eu cynnig, ond byddem yn disgwyl i bob trwyddedai ddangos yn glir sut mae ei wasanaeth yn cynnig buddion cymdeithasol sylweddol.

e) **Cymryd rhan yn y gwaith o weithredu a rheoli'r gwasanaeth:** Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod Ofcom yn ystyried i ba raddau y mae cynigion ymgeisydd yn rhoi cyfleoedd i aelodau'r gymuned berthnasol gymryd rhan yn y gwaith o weithredu a rheoli'r gwasanaeth arfaethedig. Gallai ceisiadau egluro sut gall grwpiau neu unigolion o'r gymuned darged gymryd rhan yng ngweithgareddau'r orsaf, ac yn y gwaith o reoli'r gwasanaeth. Byddem yn disgwyl datganiad clir ynghylch sut bydd hyn yn cael ei sicrhau, a sut bydd yr ymgeisydd yn dangos bod hyn yn cael ei gyflawni wrth ddarlledu.

f) **Atebolrwydd:** Mae’n rhaid i Ofcom ystyried sut bydd ymgeiswyr yn gwneud eu hunain yn atebol i’r gymuned berthnasol, ac roeddem yn cynnig y byddai angen i ymgeiswyr ddweud yn glir sut maen nhw’n bwriadu rhoi sylw i hyn, gan gynnwys cyfeirio at ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol y byddan nhw’n atebol i’r gymuned darged. Byddai disgwyl i ymgeiswyr roi gwybodaeth fanwl am sut bydd hyn yn cael ei sicrhau a’i fesur.

9.22 Yn wahanol i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol analog, nid oes cyfyngiad ar ddal mwy nag un drwydded C-DSP. Yn y ddogfen ymgynghori, roeddem yn dweud y byddem yn asesu sut mae cais am drwydded C-DSP yn cynnig buddion cymdeithasol, cyfleoedd i gymryd rhan ac atebolrwydd yn yr ardal leol benodol lle byddai’r gwasanaeth C-DSP yn cael ei ddarparu – h.y. dylai unrhyw gynigion o’r fath ddangos sut byddai’r gwasanaeth yn cynnig buddion cymdeithasol, cyfleoedd i gymryd rhan ac atebolrwydd ar ben yr hyn a gynigir yn barod gan drwyddedau C-DSP eraill sydd gan yr ymgeisydd neu’r bobl gysylltiedig.

9.23 Roeddem yn dweud y byddem yn rhoi manylion llawn ynghylch sut dylid cyflwyno cais am drwydded C-DSP yn y ffurflen gais a’r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig. Bydd Ofcom yn cyhoeddi’r rhain ochr yn ochr â’r hysbysebion cyntaf am drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach. Bydd y cwestiynau a ofynnir yn y ffurflen gais, a'r wybodaeth y gofynnir amdani, wedi’u dylunio er mwyn galluogi Ofcom i ystyried cynigion ymgeisydd yn erbyn y gofynion deddfwriaethol perthnasol.

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

9.24 Er nad oeddem wedi gofyn cwestiwn penodol yn yr ymgynghoriad ynghylch sut byddem yn asesu ceisiadau am drwyddedau C-DSP, dywedodd Nation Broadcasting ac Angel Radio y dylai Ofcom sicrhau bod darparwr y gwasanaeth C-DSP mewn sefyllfa sefydlog yn ariannol, a’i fod yn gymwys o safbwynt technegol i sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu dar-lledu.

### Dadansoddiad a chasgliadau

9.25 Yn wahanol i’r achos gyda llawer o drwyddedau’n cael eu dyfarnu gan broses gystadleuol fel trwyddedau radio cymunedol analog, nid yw’r fframwaith statudol ar gyfer trwyddedu gwasanaethau C-DSP yn rhoi gofyniad ar Ofcom i asesu gallu ymgeisydd i gynnal y gwasanaeth arfaethedig. Y rheswm am hynny yn rhannol yw oherwydd nad oes gofyniad cyfreithiol i’r mathau hyn o wasanaethau ddarlledu.

## Materion eraill

### Trwyddedeion radio cymunedol presennol

9.26 Awgrymodd GTFM (South Wales) Ltd y dylai Ofcom ystyried caniatáu i drwyddedeion radio cymunedol sydd â thrwyddedau DSP ar hyn o bryd gyfnewid y drwydded hon am y drwydded C-DSP briodol, a hynny am ddim. Gofynnodd Commedia Sheffield, Community Media Solutions a'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol am lwybr cyflym ar gyfer

trwyddedeion radio cymunedol analog presennol, gyda'r ymgeiswyr hyn yn gallu gwneud cais ar unwaith a chael gwybod a ydyn nhw wedi cael trwydded C-DSP cyn gwneud cais i fod yn drwyddedai amlblecs radio ar raddfa fach.

9.27 Ni fyddwn yn blaenoriaethu trwyddedeion radio cymunedol analog presennol yn y broses ymgeisio. Dylai trwyddedeion radio cymunedol benderfynu eu hunain a ydyn nhw’n dymuno gwneud cais am drwydded C-DSP, gyda Phrif Ymrwymiadau cysylltiedig, neu drwydded DSP. Fel yr esboniwyd uchod, bydd gwahodd ceisiadau am drwyddedau C-DSP ar ôl i ni wahodd ceisiadau am y trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach maen nhw’n bwriadu darlledu arnynt yn ein helpu ni i brosesu ceisiadau’n gynt nag y byddem petai dim cyfyngiadau ynghylch pryd gellid cyflwyno ceisiadau am drwyddedau C-DSP. Felly, byddai gwneud eithriad ar gyfer trwyddedeion presennol yn achosi oedi wrth brosesu ceisiadau, ac yn cyfyngu ar allu grwpiau cymunedol eraill i gael trwyddedau C-DSP.

## Cludo ar amlblecs

9.28 Mynegodd Media Ireland, Juice Belfast Limited, Blast 106, IUR-FM Ltd a Sunshine 1049 bryder nad oes dim i rwystro cannoedd o geisiadau rhag cael eu cyflwyno am drwyddedau C-DSP i gludo gwasanaethau ar y trwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach cyntaf a fydd yn cael eu hysbysebu, nac i rwystro pob un o’r ymgeiswyr hynny ddatgan eu bod yn bwriadu darlledu ar unrhyw/bob un o’r gwasanaethau hynny ar amlblecs radio ar raddfa fach. Roedden nhw hefyd yn cwestiynu pa fesurau gwarchod sydd ar waith i sicrhau na fydd gweithredwyr masnachol yn cael trwyddedau C-DSP ac yn defnyddio’r holl gapasiti sydd wedi’i neilltuo, ac na fydd gorsafoedd radio cymunedol presennol yn cael eu prisio allan o’r farchnad/rhwystro oherwydd bod yr holl gapasiti wedi cael ei ddefnyddio.

9.29 Gan fod gwasanaethau C-DSP yn benodol i leoliad ac amlblecs, bydd angen i’r rheini sy’n gwneud cais am drwydded C-DSP ddarlledu o stiwdio yn yr ardal honno a chynnig buddion cymdeithasol, cyfleoedd i gymryd rhan ac atebolrwydd i’r gymuned yn ardal y drwydded honno. Os ydyn nhw’n dymuno darlledu ar amlblecs gwahanol, bydd angen iddyn nhw gyflwyno cais am drwydded C-DSP arall. Rydym ni o’r farn y bydd hyn yn gwneud i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni beidio â gwneud cais am drwyddedau C-DSP mewn ardaloedd nad ydyn nhw’n bwriadu eu gwasanaethu.

9.30 Dim ond i gwmnïau cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau, ac sy’n ddielw, y gellir dyfarnu trwyddedau C-DSP. Mae hyn yn helpu i sicrhau na fydd gweithredwyr masnachol yn gwneud cais am drwydded C-DSP ac yn llwyddo i gael trwydded o’r fath, er mwyn rhwystro gwasanaethau radio cymunedol go iawn rhag cael mynediad at gapasiti wedi’i neilltuo. Ni ddylai gwasanaethau C-DSP gael eu darparu am resymau masnachol nac er budd ariannol neu fudd materol arall i’r unigolion sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth (rheoliad 4(2) y Gorchymyn). Mae Rheoliad 4(4) y Gorchymyn yn mynnu y dylai unrhyw elw a wneir gan drwyddedai C-DSP gael ei ddefnyddio i ddiogelu neu wella darpariaeth y gwasanaeth i’r dyfodol, neu i gynnig buddion cymdeithasol i aelodau'r cyhoedd neu i’r gymuned y mae’r gwasanaeth wedi’i drwyddedu i’w gwasanaethu.

9.31 Awgrymodd Moss Media y dylid cael rhestr aros ar gyfer capasiti wedi'i neilltuo yn ôl ardal amlblecs, ac y dylid dyfarnu ar sail y cyntaf i'r felin.

9.32 Mae'n rhaid i drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach neilltuo lefel y capasiti a bennir gan Ofcom, ond mater i ddarpar drwyddedeion amlblecs radio ar raddfa fach yw penderfynu sut i ddyrannu'r capasiti hwnnw, a gyda phwy i lunio contract â nhw.